



Dyfrffyrdd a Bywyd Gwyllt

Rheoli ein hamgylchedd naturiol

Cynnwys

Rhagair **4**

Cynefinoedd

Pennod 1 Sianelau mordwyol **5**

Pennod 2 Glannau'r dyfrffyrdd a glaswelltiroedd **11**

Pennod 3 Gwrychoedd **17**

Pennod 4 Coed, coetir a phrysgwydd **23**

Pennod 5 Strwythurau adeiledig **29**

Pennod 6 Dyfroedd eraill **35**

Bywyd Gwyllt

Pennod 7 Planhigion dŵr **41**

Pennod 8 Infertebratau dyfrol **47**

Pennod 9 Pysgod **53**

Pennod 10 Amffibiaid ac ymlusgiaid **59**

Pennod 11 Peillwyr **65**

Pennod 12 Llygod (pengrwn) y dŵr a dyfrgwn **71**

Pennod 13 Ystlumod **77**

Pennod 14 Adar **83**

Rhagair

Mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n ymweld â'n dyfrffyrdd, gan gynnwys cerddwyr, seiclwyr a chychwyr, yn cael eu denu gan harddwch a llongddwch y llwybrau tynnu a'r camlesi. I lawer, rhan annatod o'r profiad o ymweld â'n dyfrffyrdd yw'r cyfle i weld yr amrywiaeth eang o gynefinoedd a bywyd gwylt sydd dan ein gofal, a nodi sut rydym yn mynd ati i reoli ein hamgylchedd naturiol er mwyn gwneud gwahaniaeth. Mae'r llawlyfr yn cynnwys chwe phennod sy'n trafod cynefinoedd ac wyth pennod sy'n trafod grwpiau bywyd gwylt. Mae pob pennod yn crynhoi gwybodaeth allweddol am bob cynefin / grŵp bywyd gwylt, yn cynnwys dwy erthygl nodwedd fer sy'n trafod rhywfaint ar waith Glandŵr Cymru yn y maes hwn, ac yn cloi trwy restru camau rheoli enghreifftiol. Mae'r llawlyfr yn gam cyntaf tuag at wireddu'r weledigaeth ar gyfer y rôl y mae camlesi yn ei chyflawni ac y bydd yn ei chyflawni o safbwynt y dirwedd ehangach; gan nodi'r egwyddorion sy'n berthnasol i'n holl ddyfrffyrdd. Ein gobaith yw arwain y broses o newid yn y maes hwn ledled Cymru a thu hwnt.

Mae llawer o'n cynefinoedd glan y dŵr wedi mynd yn llai cyffredin neu wedi diflannu'n gyfan gwbl o gefn gwlad, sy'n golygu bod dyfrffyrdd yn gynefinoedd hynod bwysig ac yn goridorau allweddol ar gyfer bywyd gwylt. I rai rhywogaethau, ein dyfrffyrdd yw eu cadarnle olaf bellach, ac i lawer o rai eraill, maen nhw'n darparu adnoddau hanfodol sydd wedi mynd yn fwyfwy prin yng nghefn gwlad yn gyffredinol. Mae'n debyg mai'r camlesi yw'r cyrff dŵr mwyaf cyfarwydd, ond mae Glandŵr Cymru yn gofalu am lawer o gronfeydd dŵr, llynnoedd a phyllau, gwrychoedd a choed hefyd. Er enghraifft, mae gwrychoedd camlesi yn un o nodweddion hynaf ein dyfrffyrdd, ac maen nhw'n hynod bwysig ar gyfer sawl rhywogaeth, gan ddarparu bwyd, lloches a manau bridio. Mae strwythurau fel dyfrbontydd a phontydd yn gwneud cyfraniad pwysig, sy'n cael ei ddiystyru'n aml, gan ddarparu cartref i fywyd gwylt, ac mae eu lleoliad ger y dŵr yn allweddol yn hyn o beth. Mae'r ystâd yn gartref i amrywiaeth o gynefinoedd dyfrffordd, ac felly mae cryn dipyn o waith i gynnal a gwella eu gwerth o safbwynt bioamrywiaeth, gan sicrhau hefyd fod pobl yn gallu mwynhau ein camlesi a'n llwybrau tynnu yn ddiogel. Ein nod yw sicrhau cydbwysedd sy'n llwyddo ar gyfer pobl a bywyd gwylt.

Ein gobaith yw y bydd y llawlyfr hwn yn ddiddorol ac yn ddefnyddiol ar gyfer pawb sydd â diddordeb mewn camlesi, dyfrffyrdd a'u bywyd gwylt. Ein nod yw darparu gwybodaeth am yr amrywiaeth eang o gynefinoedd a bywyd gwylt sydd dan ein gofal, a nodi sut rydym yn mynd ati i reoli ein hamgylchedd naturiol er mwyn gwneud gwahaniaeth. Mae'r llawlyfr yn cynnwys chwe phennod sy'n trafod cynefinoedd ac wyth pennod sy'n trafod grwpiau bywyd gwylt. Mae pob pennod yn crynhoi gwybodaeth allweddol am bob cynefin / grŵp bywyd gwylt, yn cynnwys dwy erthygl nodwedd fer sy'n trafod rhywfaint ar waith Glandŵr Cymru yn y maes hwn, ac yn cloi trwy restru camau rheoli enghreifftiol. Mae'r llawlyfr yn gam cyntaf tuag at wireddu'r weledigaeth ar gyfer y rôl y mae camlesi yn ei chyflawni ac y bydd yn ei chyflawni o safbwynt y dirwedd ehangach; gan nodi'r egwyddorion sy'n berthnasol i'n holl ddyfrffyrdd. Ein gobaith yw arwain y broses o newid yn y maes hwn ledled Cymru a thu hwnt.

Datblygwyd y llawlyfr hwn gan Glandŵr Cymru mewn cydweithrediad â Ruth Feber o Uned Ymchwil Cadwraeth Bywyd Gwylt (WildCRU) Prifysgol Rhydychen. Rydym yn ddiolchgar i Lywodraeth Cymru am ariannu'r gwaith hwn drwy'r Gronfa Buddsoddi Cyfalaf Seilwaith Gwyrdd. Rydym yn gobeithio y bydd y llawlyfr hwn yn ysbrydoliaeth ac yn ddefnyddiol i bawb sy'n berchen neu'n gweithio ar ein camlesi a'n dyfrffyrdd, ac i bawb sy'n mwynhau ymweld â nhw.

Sianelau mordwyol

Mae sianelau mordwyol wrth galon y system dyfrffyrdd, ac yn ganolbwynt i'r holl gynefinoedd eraill a bywyd gwylt sydd wedi datblygu o'u hamgylch. Mae'r sianelau'n bwysig nid yn unig i fioamrywiaeth, ond maen nhw hefyd yn goridorau di-dor i gynefinoedd drwy'r dirwedd, gan gysylltu nodweddion dyfrol a daearol eraill, sy'n eu gwneud yn fwy gwerthfawr i fywyd gwylt. Ers eu hadeiladu tua 200 mlynedd yn ôl, mae amrywiaeth cyfoethog o blanhigion ac anifeiliaid wedi ymgartrefu ar y dyfrffyrdd mordwyol. Mae eu llif araf a'u lefelau dŵr a reolir yn darparu cynefin unigryw ac mae llawer wedi cael eu dynodi'n safleoedd natur pwysig. Rydym yn rheoli ein sianelau mordwyol er mwyn cyfoethogi a gwella eu budd i fywyd gwylt, gyda'r nod o greu amgylchedd sy'n gweithio ar gyfer defnyddwyr y dyfrffyrdd heddiw yn ogystal â bywyd gwylt.

Prif bwyntiau

- Mae sianelau mordwyol wrth galon ein system ddyfrffyrdd
- Mae eu llif araf a'u lefelau dŵr a reolir ar gyfer cychod yn creu amgylchedd unigryw ar gyfer amrywiaeth o rywogaethau
- Mae angen i ni gydbwysio anghenion pobl a bywyd gwylt wrth reoli'r sianelau hyn

Camlas Mynwy ac Aberhonddu



Mursen las gyffredin


Bywyd Gwylt

Adeiladwyd y dyfrffyrdd mordwyol yn wreiddiol i gludo nwyddau, ond mae ganddynt werth gwarchod natur ers cyn cof. Gyda thranc cynefinoedd dŵr a gwlyptiroedd yng nghefn gwlad, mae gwerth y sianelau mordwyol a'u cynefinoedd glan y dŵr wedi cynyddu'n fawr. Ceir poblogaethau gweddilliol rhywogaethau prin yn rhai o'r sianelau a chydabyddir pwysigrwydd y safleoedd hyn ar lefel genedlaethol neu ryngwladol. Hwyrach nad yw sianelau mordwyol eraill o'r un gwerth o safbwynt bioamrywiaeth, ond maen nhw'n dal yn gynefinoedd pwysig i fywyd gwylt, mewn ardaloedd trefol a gwledig.

Mae gwerth y sianelau dyfrffyrdd i fywyd gwylt yn cael ei bennu gan nifer o ffactorau, yn enwedig ansawdd dŵr, trafnidiaeth cychod, a strwythur y glannau a'r sianel. Ceir y fioamrywiaeth gyfoethocaf fel arfer ar sianel lle mae ansawdd y dŵr yn uchel, traffig cychod yn isel, a lle mae'r glannau a'r sianelau yn naturiol yn hytrach nag yn strwythurau sydd wedi eu haddasu, gyda stanciau llenni dur neu lannau sydd wedi eu gwneud yn gyfan gwbl o goncrit. Mae glannau naturiol a rhai sydd wedi eu creu'n feddal yn cynnal toreth gyfoethog o blanhigion dyfrol, gan ddarparu cynefin i rywogaethau di-ri o infertebratau a physgod, ac, yn eu tro, anifeiliaid yn uwch i fyny'r gadwyn fwyd, fel y dyfrgi a glas y dorlan. Mae rhai'n cynnal poblogaethau pwysig o blanhigion, pryfed a molysgiaid prin.

Mae ardaloedd canol dyfnach y sianel fel arfer yn wannach o safbwynt amrywiaeth yr infertebratau o gymharu â'r ymylon bas. Mae mwy o blanhigion wrth ymylon y gamlas sy'n darparu lloches, a gellir gweld gweision y neidr, chwilod dŵr, pryfed dŵr a malwod yma. Yn gyffredinol, po fwyaf cyfoethog yw'r rhywogaethau a pho fwyaf toreithiog y llystyfiant, yna po fwyaf cyfoethog fydd y gymuned infertebratau hefyd. Mae pob sianel yn cynnal poblogaethau o bysgod – pysgod bras yn bennaf fel y carp, y draenogyn dŵr croyw a'r rhuffell. Mae rhai dyfrffyrdd yn gynefinoedd pwysig i lyswennod, sy'n hoffi digon o waddod mwdlyd i chwilota am eu hysglyfaeth a chuddio, i lawr ym mherfeddion y sianel.

Drwy fod yn gysylltiedig iawn, mae sianel y ddyfrffordd yn fan hawdd i rywogaethau brodorol ymgartrefu, sy'n beth dymunol, ond mae'r un peth yn wir am rywogaethau estron hefyd. Gall y gormeswyr hyn fod yn anodd iawn i'w rheoli. Bydd planhigion fel y dail-ceiniog arnofiol yn ffurfio matiau trwchus o llystyfiant ar draws y sianel, gan atal goleuni rhag cyrraedd y rhywogaethau oddi tanynt. Mae cimwch afon America yn infertebrata sy'n dipyn o ormeswr, ac mae wedi trechu ein cimwch afon crafanc wen brodorol. Gall pysgod ymledol, hefyd, amharu ar y cydbwysedd ecolegol - mae'r draenog cernog, er enghraifft, yn gyffredin iawn mewn sianelau cymylog ac mae'n ysglyfaethwr barus.



Hwyaidd gwylt



Y rhuffell yw pysgodyn mwyaf cyffredin y sianelau dyfrffyrdd

Rheoli sianelau

Mae angen mynd ati'n ddyfal i reoli sianelau dyfrffyrdd a llystyfiant cyfagos, fel coed, nid yn unig i'w cadw'n addas i fordwyo a diogel i bobl, ond hefyd er mwyn cynnal eu gwerth i fywyd gwylt. Oherwydd eu llif araf a'u lefelau dŵr a reolir, byddai dŵr agored yn y pen draw yn cael ei golli i llystyfiant sy'n ymledu, felly rhaid torri chwyn yn rheolaidd neu garthu'r sianelau. Mae carthu'n cael gwared ar silt a gwaddodion sydd wedi crynhoi, gan gynnwys rhai llygredig. Gall amrywiaeth o lygryddion, o ollyngiadau diwydiannol, gollyngiadau tanwydd o gychod a merddwr, i elifion carthion a lygryddion amaethyddol tryledol, ddiweddu yn y dŵr yn y pen draw. Mae llygryddion yn gwneud niwed i fywyd dyfrol ac yn arwain at golli bioamrywiaeth; mae mynd i'r afael â llygredd yn rhan bwysig o'n gwaith.

Mae carthu a thorri'r chwyn yn tarfu yn y tymor byr, ond mae'r rhan fwyaf o gymunedau yn adfer a chedwir y cynefin yn addas ar gyfer rhywogaethau olynol cynnar, a fyddai fel arall wedi cael eu gwthio allan. Mae'r rhain yn cynnwys rhywogaethau pwysig fel llyriad-y-dŵr arnofiol ar Gamlas Maldwyn, nad yw'n gallu cystadlu gyda rhywogaethau cryfach. Wrth reoli sianel, cymerir pob gofal i adael llonydd i'r glannau, a llain ofynnol benodedig o gyrs ar hyd yr ochrau, i'r graddau y bo hynny'n bosib.

Gall traffig cychod achosi problemau i fywyd gwylt y sianel fordwyol. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos rhywogaethau o blanhigion tanddwr, y gall cychod eu difrodi, tra gall planhigion ac anifeiliaid mwy sensitif ar y glannau gael eu heffeithio gan y tonnau ac adlif y cychod. Os oes llawer o waddod ac algâu yn y dŵr, gall nid yn unig fygu'r planhigion dŵr, ond hefyd yr infertebratau ac wyau pysgod yn y sianel. Yn gyffredinol, lleia'n byd o gychod sy'n mordwyo, gorau oll fydd y fioamrywiaeth ond, serch hynny, mae sianelau sydd â thraffig cychod trwm yn dal i gynnal rhywogaethau sy'n oddefgar i gael eu hafloynyddu.



Coeden wedi cwmpo dros y sianel gan atal mordwyo, sydd angen ei symud




Ein contractwr pysgodfeydd arbenigol yn symud draenog cernog estron



Carthu i waredu gwaddodion o'r sianel



Gwirfoddolwr yn marcio draen dŵr wyneb gyda logo'r pysgodyn melyn



Azolla yn dechrau ymledu i'r sianel nesaf i'r lan

Gwneud gwahaniaeth: 1

Draen dŵr glaw yn unig yw hwn!

Mae dŵr o ansawdd da yn hanfodol ar gyfer bywyd gwyllt y dyfrffyrdd. Er enghraifft, mae draeniau dŵr wyneb wedi'u halogi, pibellau wedi'u cam-gysylltu o doiledau neu beiriannau golchi llestri a defnydd amhriodol o ddraeniau safleoedd diwydiannol i gyd yn cael effaith negyddol ar ansawdd dŵr. Yn aml iawn, dydy pobl ddim yn ymwybodol bod y dŵr o'u draeniau ac unrhyw lygryddion yn y dŵr hwnnw, megis sebon, tanwydd a phaent, yn diweddu yn ein dyfrffyrdd.

Mae Glandŵr Cymru wedi mabwysiadu'r fenter Pysgodyn Melyn – menter lle'r ydym ni a'n gwirfoddolwyr yn gweithio gyda busnesau lleol i nodi'r draeniau dŵr wyneb sy'n arwain at ein dyfrffyrdd. Mae'r draeniau yn cael eu nodi â logo'r Pysgodyn Melyn. Unwaith y byddant wedi cael eu nodi â'r Pysgodyn Melyn, y gobaith yw y bydd hyn yn annog busnesau lleol i'w diogelu rhag llygredd, gan wneud yn siŵr mai dim ond dŵr glaw sy'n mynd i lawr eu draeniau; "Draen dŵr glaw yn unig yw hwn!"

Yn y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi cynnal prosiect cenedlaethol lle mae gwirfoddolwyr hyfforddedig yn cynnal arolwg ac yn mapio rhai o'r draeniau a'r pibellau sy'n mynd i'n camlesi. Gan ddefnyddio data'r arolwg hwn, rydym wedi nodi ardaloedd â phroblemau gollyngiadau didrwydded a allai fod yn cael effaith negyddol ar ansawdd y dŵr. Mae angen trwydded ar bob gollyngiad i'r dyfrffyrdd ac, fel rhan o'r broses honno, mae'n rhaid cael asesiad amgylcheddol.

Uchafbwyntiau:

- Mae'n rhaid cael dŵr o ansawdd da i gynnal amrywiaeth o fywyd gwyllt a phlanhigion
- Rydym yn gweithio gyda busnesau i dynnu sylw at yr hyn maen nhw'n ei ollwng i'n dyfrffyrdd
- Rydym wedi dechrau arolwg cenedlaethol gyda'n gwirfoddolwyr, i nodi draeniau a phibellau sy'n cysylltu â'n dyfrffyrdd



Gollyngiad yn llifo i ddyfrffordd

Gwneud gwahaniaeth: 2

Byddin o widdon yn bwyta gormeswr y gamlas

Camlesi yw traffyrdd araf ein gwlad werdd a glas odidog, ond maen nhw'n agored i ymosodiadau gan rywogaethau estron sy'n manteisio ar y cysylltiadau ar draws y dirwedd. Un rhywogaeth o'r fath yw rhedynen y dŵr o Ogledd America, yr *Azolla filiculoides*. Fel llawer o blanhigion dŵr ymledol, dianc o ardd wnaeth yr *Azolla* (a werthir i'w ddefnyddio mewn pyllau) ond unwaith mae'n rhydd, mae'n gallu achosi llanast i fywyd gwyllt. Mae'r *Azolla* yn tyfu'n ffyrnig a gall luosogi'n gyflym, gan ledu dros wyneb dyfrffordd ar ffurf matiau trwchus. Mae'n lleihau'r golau a'r ocsigen yn y dŵr, gan ladd pysgod a bywyd gwyllt arall, a gall hefyd achosi problemau ar gyfer cychod sy'n pasio. Wrth i'r tywydd gynhesu yn yr haf, yn aml bydd y planhigion yn tyfu'n gynt, ond mae gennym ddim o laddwyr hyfforddedig wrth law i ddelio â'r sefyllfa.

Pan welir *Azolla* yn y gamlas, bydd byddin o'i ysglyfaethwr cynhenid, y gwiddon 2mm o hyd *Stenopelmus rufinasus*, yn cael eu rhyddhau i'r dŵr, ac mewn dim o dro fe fyddant yn dechrau cnoi eu ffordd drwy'r *Azolla*. Ar ei ben ei hun, bydd y gwiddonyn ond yn bwyta cyfran gymharol fach o'r *Azolla*. Fodd bynnag, maen nhw'n bridio'n gyflym i gynhyrchu poblogaethau mawr iawn a byddant, fel cymuned, yn bwydo'n helaeth. Mewn cwta wythnosau, gall y gwiddon glirio ardaloedd helaeth o'r gormeswr, ond heb achosi'r un iot o ddfrod i'n fflora a ffawna brodorol. Rydym wedi defnyddio'r dull naturiol hwn o reoli planhigion ar draws ein rhwydwaith o gamlesi yn y blynyddoedd diwethaf ac mae'r canlyniadau'n galonogol.

Uchafbwyntiau

- Fel llawer o blanhigion dyfrol ymledol, dianc o ardd wnaeth yr *Azolla* (a werthir i'w ddefnyddio mewn pyllau) ond unwaith mae'n rhydd, mae'n gallu achosi llanast i fywyd gwyllt
- Mae'r planhigion yn creu matiau trwchus ar hyd wyneb y dŵr gan rwystro golau rhag cyrraedd y bywyd gwyllt o dan yr wyneb ac mae'n rhwystro mordwyo
- Unwaith y bydd y gwiddon wedi eu rhyddhau, fyddan nhw'n fawr o dro yn bwyta'r rhedyn gormesol, gan eu bod nhw'n bridio ac yn lledu'n gyflym, a hynny heb achosi unrhyw ddfrod i rywogaethau brodorol



Gwirfoddolwr yn rhyddhau gwiddon i'r dŵr

Enghreifftiau o'r hyn a wnawn:

Gwella cysylltedd cyrsiau dŵr a chynefinoedd. Gall gynnwys gwella llwybrau pysgod (lle bo hynny'n ymarferol a phosibl).

Camau i leihau ffosforws yn ein dyfroedd. Er enghraifft, rydym yn ceisio atal neu leihau lefelau uchel o ffosforws rhag cyrraedd ein dyfrffyrdd o dir fferm neu waith trin carthion cyfagos drwy weithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid. Mae'r rhain yn cynnwys sefydliadau fel rheoleiddwyr, cwmnïau dŵr, clybiau pysgota a thirfeddianwyr.

Rheoli problem rhywogaethau anifeiliaid estron goresgynol yn lleol. Gall hyn gynnwys ymdrin â physgod cregyn estron ymledol, megis cimwch afon America neu'r fisglen resog, cael gwared ar y draenogiaid cernog estron a chamau arwyddol i leihau lledaeniad creaduriaid dyfrol bach fel y berdysyn goresgynol estron.

Gwelliannau i leihau blymau algaidd gwyrddlas a mathau eraill yn y dŵr.

Ymdrin â gollyngiadau llygrol a draenau yn ein dyfrffyrdd.

Rheoli rhywogaethau planhigion estron goresgynol, fel y dail-ceiniog arnofiol a rhedynen y dŵr.

Creu a rheoli cronfeydd planhigion dyfrol 'yn y sianel', gan gynnwys gosod 'lenni silt' neu 'ymylon planhigion llinol' ar-lein, gan ddefnyddio geodecstilau crog neu ar stanciau, i wella ansawdd y dŵr yn lleol a lleihau unrhyw darfu ar gynefinoedd.

Carthu i waredu silt, gan leihau faint o waddod sydd yn y dŵr a fydd fel arall yn cael ei gynhyrfu gan lif y dŵr, cychod sy'n pasio heibio a gweithgareddau eraill (ail-grog). Gall gwaddodion crog gael effaith drwy gysgodi a thagu planhigion dyfrol, graean yr afon ac infertebratau dyfrol.

Casglu sbwriel a chael gwared ar y gwastraff sy'n cael ei adael yn ein dyfrffyrdd. Gall gynnwys nwyddau gwynion sydd wedi eu gadael slei bach, sbwriel adeiladwyr, teiars ceir, trolïau siopa a gwastraff llystyfiant.



Glannau'r dyfrffyrdd a glaswelltiroedd

Mae angen i ni ddarparu glannau diogel, sefydlog a gwastad ar gyfer cerdded a beicio ac ar gyfer angori cychod, yn enwedig mewn safleoedd hamdden poblogaidd iawn fel glanfeydd, angorfeydd, pontydd a lociau. Y tu hwnt i'r ardaloedd hyn sy'n cael eu defnyddio'n helaeth, mae milltiroedd lawer o lannau dyfrffyrdd glaswelltog, lle mae'r tir yn cwrdd â'r dŵr a lle gellir dod o hyd i amrywiaeth gyfoethog o fywyd gwylt. Mae planhigion blodeuol yn amrywio o rywogaethau gwlyptir i rywogaethau gweirgloddiau ac maen nhw'n denu llawer o bryfed, gan gynnwys peillwyr sy'n chwilota am neithdar. Mae'r llystyfiant ffrwythlon yn darparu manau nythu a bwydo i adar fel y gwtiar a'r iâr ddŵr, a glannau llystyfiant meddal sy'n arbennig o bwysig i lygodyn y dŵr. Mae lleiniau llwybrau tynnu, trychiadau ac argloddiau yn darparu cynefinoedd glaswelltog a ddefnyddir gan ymlusgiaid, amffibiaid a mamaliaid bach. Gall glannau a glaswelltiroedd ddarparu coridor gwyrdd hyfryd ar ymyl y ddyfrffordd, gan beri bod bywyd gwylt yn gallu symud drwy'r dirwedd.

Prif bwyntiau

- Mae angen sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion hamdden a bywyd gwylt wrth reoli glannau dyfrffyrdd
- Gall glannau dyfrffordd, lle mae'r tir yn cwrdd â'r dŵr, fod ag amrywiaeth gyfoethog o fflora a ffawna
- Mae glannau dyfrffordd yn darparu coridorau bywyd gwylt gwyrdd drwy'r dirwedd



Llysiâu r-milwr coch, ar lan dyfrffordd sy'n gyfoeth o amrywiaeth



Cychod wedi eu hangori ar hyd glan naturiol, aeddfed

Glannau'r dyfrffyrdd

Mae llawer o gynefinoedd glan dŵr wedi diflannu o'n cefn gwlad, gan wneud glannau'r dyfrffyrdd yn arbennig o werthfawr i fywyd gwylt. Bydd rhywogaethau sy'n gysylltiedig fel arfer â phyllau a gwlyptiroedd yn ymgartrefu yma, yn enwedig lle mae'r llystyfiant yn ffrwythlon ac amrywiol. Mae'r cyfuniad o ddŵr, planhigion tal sy'n codi o'r dŵr a'r newid i blanhigion sy'n ffafrio tir sychach yn uwch i fyny'r lan yn creu cynefin cyfoethog ac amrywiol i infertebratau, amffibiaid, ymlusgiaid, mamaliaid ac adar.

Mae llystyfiant trwchus, sy'n cynnwys cymysgedd gyfoethog o rywogaethau, yn arbennig o bwysig i lygoden y dŵr. Mae'r anifail hynod annwyl hwn, sydd â'i niferoedd yn disgyn yn ddifrifol, yn bwydo ar weiriau tal, hesg a brwyn, ac yn gwneud ei gartref mewn tyllau ar lan y dŵr yn y glannau. Rhaid i waith rheoli'r glannau ystyried anghenion hamdden a pheiranyddol, yn ogystal â gwarchod bywyd gwylt, ond lle bynnag y bo modd, rydym yn defnyddio dulliau amddiffyn glannau sy'n ystyriol o lygoden y dŵr. Mae hyn yn cynnwys glannau meddal a llystyfiant, yn hytrach na systemau fertigol caled, er mwyn annog poblogaethau llygoden y dŵr ar hyd ein dyfrffyrdd.

Caiff glannau â llystyfiant eu defnyddio hefyd fel llefydd i nythu gan adar y dyfrffyrdd. Bydd y gwtiar a'r iâr ddŵr yn adeiladu eu nythod cudd yn y brwyn a'r hesg yn yr ymylon, a'r alarch dof yn adeiladu nythod mwy o faint, a mwy agored. Yn aml, mae'r lan bellaf yn cael ei ddefnyddio ar gyfer nythu, gan fod llai o darfu yno.



Llygoden y dŵr
Hawlfraint Mark Baker

Llwybrau tynnu a lleiniau

Gellir rheoli llwybrau tynnu, nad oes eu hangen ar y cyfan ar gyfer tynnu cychod bellach, er mwyn gwella eu bioamrywiaeth fel coridorau gwyrdd o gynefinoedd glaswelltog, llawn blodau. Gall lleiniau llwybr tynnu ar ymyl y dŵr fod yn arbennig o bwysig i blanhigion gweirgloddiau gwlyb, fel llyisiau'r sipsiwn, y cycyllog a'r briwydd, ac ar ochr y gwrychoedd, gwelir planhigion gweirgloddiau sych fel y gorthyfail neu'r blodyn neidr yn aml yn ffynnu. Mae rhai lleiniau llwybr tynnu yn denu planhigion prinnach, gan gynnwys rhywogaethau o'r tegeirian.

Bydd llwybrau tynnu blodeuog yn denu pob math o beillwyr, gan gynnwys gwenyn a gloynnod byw, yn enwedig os yw'r lleiniau yn cael eu cysgodi gan wrychoedd. Gellir gweld anifeiliaid mwy, fel neidr y gwair, yn torheulo ar y lleiniau cynnes a heulog, tra bydd amffibiaid yn defnyddio'r llystyfiant talach i guddio rhag ysglyfaethwyr, ac fel tiroedd hela cyfoethog. Mae hyd yn oed y danadl di-nod yn bwysig, fel planhigyn bwyd i lindys gloynnod byw y trilliw a'r fantell paun. Ein nod



Gellir gweld ffachys y berth a'r erwain ar lannau'r dyfrffyrdd ac ar laswelltiroedd
Hawlfraint Rob Wolton / Hedgelink

yw rheoli lleiniau ein llwybrau tynnu i sicrhau eu bod o'r gwerth pennaf i fywyd gwylt lle bo hynny'n bosibl. Bydd newidiadau syml, fel lleihau pa mor aml y torrri y gwair neu osgoi torri holl led llystyfiant, yn gyfaddawd sy'n gweithio'n dda ar gyfer y bobl sy'n defnyddio'r camlesi ac ar gyfer y bywyd gwylt.

Trychiadau ac argloddiau

Mae trychiadau ac argloddiau yn rhan o strwythur llawer o ddyfrffyrdd. Mae'r cynefinoedd ar eu llethrau yn amrywio a gallant gynnwys brigadau craig, glaswelltir, coetir a phrysgwydd. Mae gan rai o'n safleoedd nodweddion o ddiddordeb daearegol neu fywyd gwylt arbennig sydd wedi arwain at y safleoedd hynny yn cael eu dynodi'n rhai arbennig ar gyfer cadwraeth. Pan fo'r argloddiau'n laswelltog, gallant fod ag amrywiaeth o flodau gwylt, yn cynnwys rhywogaethau o laswelltir heb ei wella, fel briallu Mair.

Mae argloddiau glaswelltog yn denu llawer o famaliaid bychain, sydd yn eu tro yn denu sylw'r dylluan wen. Gwelwyd tranc y dylluan wen ar dir fferm, ond mae argloddiau glaswelltog fel y rhai a geir ar hyd ein camlesi wedi dod yn arbennig o bwysig, a gellir cael cip ar dylluan wen yno weithiau, yn hela'n dawel am ei hysglyfaeth fin nos.

Y mochyn daear yw un o'r anifeiliaid mwy sydd i'w ganfod ar hyd ein dyfrffyrdd, a gall llethrau trychiadau ac argloddiau yn arbennig fod yn llefydd delfrydol i dyrchu brochfa. Yn aml, mae'r brochfeydd yn cael eu tyrchu lle mae coetir a glaswelltir yn cwrdd: gyda'r coetir yn darparu'r gorchudd a'r lloches, a'r glaswelltir yn darparu'r brif ffynhonnell fwyd - pryfed genwair.

Wrth i foch daear dyrchu eu brochfeydd yn argloddiau'r gamlas, gall hyn achosi problemau strwythurol a gollyngiadau. Oherwydd y perygl hwn, rydym yn monitro pob brochfa ar ein hargloddiau.



Planhigion danadl yw'r unig fwyd mae lindys pigog y fantell paun yn ei fwyta
Hawlfraint Ruth Feber



Mae peillwyr wrth eu bodd ar leiniau ac argloddiau blodeuog
Hawlfraint Rosalind Shaw



Gellir cael cip weithiau ar dylluan wen yn hela dros argloddiau glaswelltog
Hawlfraint Shutterstock



Torri'r gwair

Gwneud gwahaniaeth: 3

Torri a chadw trefn

Mae'r ffordd rydym yn torri'r gwair ar ymyl ein cyrff dŵr yn dibynnu ar y math o lwybr tynnu sydd dan sylw: rydym yn ystyried cymeriad y gamlas, y math o arwyneb, ei strwythur, lled, y math o ymyl sydd ganddo, ei leoliad a lefel y defnydd. Gall torri drwy'r llystyfiant i ymyl y dŵr mewn mannau penodol ganiatáu mynediad i bysgotwyr neu ddarparu angorfeydd anffurfiol i gychwyr diogel.

Diogelwch yw'r flaenoriaeth, ond mae angen i ni gydbwysu hyn ag anghenion bywyd gwyllt. Mae llwybrau tynnu yn darparu coridorau pwysig i lawer o rywogaethau. Yn 2017, daethpwyd o hyd i'r fadfall gribog fwyaf yn annisgwyl yn llochesu dan fag wedi ei daflu wrth dorri gwair yr hydref ar gamlas y Gloucester & Sharpness. Newidiwyd y drefn torri gwair yn yr ardal er mwyn torri lled culach, a hynny'n llai mynych, er mwyn rhoi ardal ddiogel i'r madfalloch chwilio am eu hysglyfaeth pryfed. Drwy lacio'r drefn torri gwair, roedd modd i'r tegeirian brych ffynnu o stoc hadau segur hefyd, a oedd wedi ei rwystro'n ddarwybod rhag tyfu cyn hyn gan y drefn o dorri'r gwair yn rheolaidd.

Mae gadael y glaswellt i dyfu'n hirach o dan wrychoedd o fudd mawr i lawer o greaduriaid, gan gynnwys ymlusgiaid a mamaliaid bach fel y draenog. Lle rydym yn berchen ar ardaloedd mwy o laswelltir, rydym yn cyflogi sgiliau arbenigol gwartheg pori sy'n darparu tirwedd fwy amrywiol - ac sy'n ddelfrydol ar gyfer bywyd gwyllt fel y troelliwr bach prin - o'i gymharu â'r dirwedd sy'n cael ei chreu gan beiriannau torri gwair, sy'n creu amgylcheddau gwastad, digymeriad.

Uchafbwyntiau

- Rhaid torri'r gwair ar lwybrau tynnu fel y gall pawb eu mwynhau.
- Mae cydbwysedd gofalus rhwng hygyrchedd a bywyd gwyllt gan fod y camlesi'n darparu coridor ar gyfer amrywiaeth o rywogaethau.
- Gellir rheoli gweithdrefnau torri gwair mewn ffordd sydd o les i rywogaethau penodol.



Gellir defnyddio gwartheg i bori ardaloedd mwy o laswelltir, sy'n creu cynefin bywyd gwyllt da.



Mae gan y gamlas concrit hon yr un cynefin â chamlas ddfn bridd draddodiadol; argloddiau dwfn, ymylon cyrs toreithiog, coed, gwrychoedd a lleiniau glaswellt.

Gwneud gwahaniaeth: 4

Gallai fod concrit o dan y dŵr

Pan fyddwch yn ymweld â rhai o'n dyfrffyrdd, fydech chi byth yn dyfalu eich bod yn edrych ar gamlas concrit. Wrth eu hadeiladu tua 200 mlynedd yn ôl, cafodd sawl un o'n camlesi eu hadeiladu ar lethrau ansefydlog neu gan ddefnyddio argloddiau oedd yn cynnwys deunydd a oedd yn dueddol o ollwng dŵr. Yn achos rhai o'r camlesi hyn - er nad dyma'r dewis a ffefirio o safbwynt amgylcheddol - yr unig ateb i atal problemau strwythurol parhaus yw cynnwys concrit yn leinin y sianel. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae nifer o'r camlesi concrit newydd hyn wedi cael eu hadeiladu'n benodol ag anghenion bywyd gwyllt mewn golwg.

Mae ein hecolegwyr a'n peirianwyr yn gweithio gyda'i gilydd i ddylunio ac adeiladu llwybrau mordwyo concrit sy'n strwythurol gadarn ond hefyd yn ymgorffori cynefinoedd megis argloddiau dwfn, coed, gwrychoedd, lleiniau glaswellt ac ymylon cyrs. Cyn draenio, ac wrth baratoi am y gwaith adeiladu, cynhelir proses arbenigol o achub y pysgod. Fel arfer, mae'r pysgod yn cael eu symud i rannau cyfagos o'r gamlas. Os oes rhywogaethau a warchodir, fel y fadfall ddŵr gribog neu'r ystlum, mae angen i ni gynllunio ymlaen llaw er mwyn darparu ar eu cyfer. Unwaith y bydd y sianel newydd wedi ei chwblhau, gellir ailosod y pridd a oedd wedi ei gadw (yn cynnwys y gronfa hadau ar gyfer planhigion lleol) ac ailblannu cyrs a phlanhigion eraill. Os yw'r gwaith cynllunio'n dda, gellir ailadeiladu camlas newydd sefydlog sy'n dal dŵr yn llwyddiannus fel hyn. Gall camlesi concrit ddarparu cynefin gwych a lleiniau cyrs ffrwythlon ar gyfer bywyd gwyllt, gan gynnwys creaduriaid tyrchu sydd dan fygythiad, fel llygoden y dŵr.

Uchafbwyntiau:

- Strwythurau artiffisial yw ein camlesi, wedi eu hadeiladu'n bennaf â llaw yn ystod yr 17eg a'r 18fed ganrif.
- Mae rhai camlesi ar lethrau bryniau ac wedi eu gwneud o ddeunydd sy'n dueddol o ollwng dŵr ac yn ansefydlog.
- Er na ffefir hynny o safbwynt amgylcheddol, gall camlas concrit fodloni anghenion bywyd gwyllt, a chynnwys cynefinoedd fel lleiniau glaswellt, glannau sy'n ddeniadol i lygoden y dŵr ac ymylon cyrs.



Ail-leinio'r gamlas yng Nghamlas Mynwy ac Aberhonddu

Enghreifftiau o'r hyn a wnawn:

Gwarchod a gwella amodau tyfu ar gyfer rhywogaethau planhigion arbennig ac wedi'u gwarchod. Gall hyn gynnwys gosod ffensys i ddiogelu glannau a fyddai fel arall yn cael eu sathru gan wartheg, a rheoli llystyfiant er mwyn cynyddu blodau'r isdyfiant.

Plannu neu hadu i roi hwb i amrywiaeth rhywogaethau lleol, brodorol. Ein nod yw dethol cymysgeddau o hadau brodorol yn hytrach na rhywogaethau estron. Gall hyn olygu hefyd nad oes angen torri'r gwair mor aml gan fod y rhan fwyaf o laswelltiroedd brodorol yn tyfu'n arafach.

Lleihau mynychder torri'r glaswelltir. Gallwn newid pryd rydym ni'n torri, uchder y glaswelltiroedd a thorri'n llai mynych, er mwyn i blanhigion brodorol fedru blodeuo, bwrw'u hadau a gwasgaru, gyda'r cyfan o fudd i beillwyr.

Ar laswelltir cyfoethog o ran rhywogaethau, gallwn drefnu i anifeiliaid bori'r tir (os yw hynny'n ymarferol) neu ei dorri'n lleol a chribinio a symud y toriad. Mae hyn yn helpu i wella'r amodau tyfu ar gyfer planhigion brodorol arbennig. Gwirfoddolwyr sy'n aml yn gwneud y gwaith torri a chribinio.

Creu ac adfer glannau naturiol camlesi. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno a gwella ymylon cyrs, gyda rhywogaethau planhigion lleol brodorol, ac ailadeiladu cynefinoedd cadarn ar y glannau.

Lle bo hynny'n bosibl ac yn ymarferol, rydym yn defnyddio technegau gwyrdd a naturiol i atgyweirio'r glannau yn hytrach na defnyddio ymylon caled fel stanciau llenni dur ac ymylon cwbl goncrit wrth wneud gwaith i atal gollyngiadau, ail-leinio'r gamlas neu waith tebyg.

Rheoli rhywogaethau planhigion estron goresgynnol y tir. Hwyrach y bydd angen rheoli'r rhywogaethau hyn pan fyddant yn bygwth cymunedau planhigion brodorol.


Casglu sbwriel a chael gwared ar y gwastraff sy'n cael ei adael yn ein dyfrffyrdd. Gall gynnwys nwyddau gwynion sydd wedi eu gadael slei bach, sbwriel adeiladwyr, teiars ceir, troliâu siopa a deunyddiau eraill.

Gwrychoedd

Gwrychoedd camlas yw rhai o'n cynefinoedd hynaf, ac maen nhw'n rhan o dirwedd fyw coridor y glannau. Yn fwy na hynny, maen nhw'n anadl einioes i lawer o rywogaethau bywyd gwyllt, yn darparu bwyd, cysgod a llefydd i fridio. Mae cyfoeth o blanhigion, adar, mamaliaid, peillwyr a phryfed eraill i'w gweld mewn gwrychoedd neu wrth eu bôn. Mae gwrychoedd hefyd yn goridorau, sy'n cysylltu cynefinoedd eraill fel coetiroedd a glaswelltiroedd, ac yn helpu rhywogaethau i symud ar hyd a lled y dirwedd. Mae gwrychoedd wedi diflannu dros ran helaeth o'n cefn gwlad dros yr hanner canrif diwethaf, sy'n golygu bod ein gwrychoedd ni'n fwy gwerthfawr nag erioed.

Prif bwyntiau

- Mae gwrychoedd camlesi yn gynefin hollbwysig, ar gyfer amrywiaeth eang o rywogaethau
- Mae gwrychoedd yn gallu bod yn goridorau i gynefinoedd ar hyd a lled y dirwedd
- Mae angen cynnal a chadw gwrychoedd i'w cadw yn y cyflwr gorau





Mae gweirlöyn y perthi yn olygfa gyfarwydd ar hyd y gwrychoedd
Hawlfraint Saxifraga / Jan van der Straaten

Bywyd gwyllt y gwrychoedd

Cafodd gwrychoedd eu plannu'n rheolaidd gan gwmnïau gwreiddiol y camlesi yn y ddeunawfed ganrif, er mwyn gwarchod y llwybr tynnu rhag gwartheg a da byw eraill, sy'n golygu mai dyma un o'r cynefinoedd hynaf ar hyd ein dyfrffyrdd. Mae gennym dros 600 milltir o wrychoedd i ofalu amdanynt, ac maen nhw'n rhan o goridor gwyrdd hanfodol ar hyd y rhan fwyaf o'n camlesi, gan ddarparu gorchudd, cysgod a bwyd i sawl rhywogaeth o fywyd gwyllt.

Yn hanesyddol, y ddraenen wen a ddefnyddiwyd ar gyfer y rhan fwyaf o wrychoedd. Mae'n blanhigyn pigog sy'n tyfu'n gyflym ac felly'n dda ar gyfer cadw'r da byw draw. Ers hynny, mae perthi eraill wedi'u plannu neu wedi magu gwreiddiau yn y gwrych. Y ddraenen wen yw'r rhywogaeth fwyaf cyffredin o hyd, ynghyd â'r onnen, y ddraenen ddu, yr ysgawen a'r gollen. Mae llystyfiant wrth fôn y gwrychoedd yn cyfrannu at gynefin gwrychoedd, gyda phlanhigion fel gorthyfail a garleg, yn ogystal â sypwellt, gwreiddiau a bonion coed, oll yn adnoddau i fywyd gwyllt.

Mae peillwyr yn rhan o'r ffawna pryfed niferus sy'n defnyddio'r gwrychoedd. Mae blodau drain duon yn y gwanwyn yn ffynhonnell gynnar werthfawr o neithdar ar gyfer cacwn a gloynnod byw sy'n deffro wedi hirlwm y gaeaf, tra bod blodau iorwg yn yr hydref yn eu helpu i gadw bwyd wrth gefn ar gyfer y gaeaf. Mae gloynnod byw yn olygfa gyfarwydd iawn ar hyd y gwrychoedd. Enw arall ar y porthor yw gweirlöyn y perthi, oherwydd ei arfer o gylchwylio'r gwrychoedd. Mae'r rhai llawn dwf yn porthi ar flodau'r fiaren, tra bo'r lindys yn bwyta glaswellt ym monion y gwrychoedd.

Adar yw'r bywyd gwyllt a welir (ac a glywir) yn fwyaf cyffredin yn ein gwrychoedd. Mae adar cwbl wahanol yn gysylltiedig â gwrychoedd, o gymharu â'n cynefinoedd dŵr. Bydd adar fel y deryn du a'r robin goch yn nythu a bwydo yng nghanol y gwrychoedd, tra bydd llwyd y gwrych a'r llwydfron yn defnyddio prysglwyni talach fel clwydfan i ganu i gyhoeddi eu tiriogaeth.

Mae o leiaf 30 math o adar yn nythu mewn gwrychoedd; gyda rhai fel coch y berllan yn ffafrio gwrychoedd talach â choed, tra mai gwrychoedd isel sy'n well gan eraill fel y bras melyn. Mae'r glaswellt ar waelod y gwrych yn darparu deunyddiau nythu a larfa pryfed i fwydo'r cywion bach. Yn y gaeaf, gall gwrychoedd fod yn safleoedd bwydo a chlwydo i adar preswyl ac ymwelwyr y gaeaf, fel y socan eira a'r coch dan adain, yn enwedig os yw'r gwrychoedd yn cael eu gadael i flodeuo a dwyn ffrwyth.

Dydy mamaliaid ddim hanner mor gyffredin ag adar, ond y draenog, y llygoden bengron goch a'r llyg cyffredin yw rhai o'r rhywogaethau sy'n nythu a bwydo naill ai mewn gwrychoedd neu ar eu hyd. Mae'r



Llwydfron



Bydd tua 30 o rywogaethau o adar yn defnyddio'r gwrychoedd i nythu

pathew yn defnyddio'r gwrychoedd mwy â chysylltiadau da, tra bydd yr ystum yn eu defnyddio fel llwybrau porthi a chymudo. Mae gwrychoedd yn werthfawr i amffibiaid ac ymlusgiaid hefyd. Bydd neidr y gwair a'r neidr ddefaid yn canfod llefydd i aeafgysgu wrth fôn y gwrychoedd, tra bydd llyffantod yn hela eu prae di-asgwrn-cefn yno.

Un o agweddau pwysicaf ein gwrychoedd yw eu rôl fel coridorau gwyrdd ar hyd y dirwedd, sy'n pontio'r darnau o goetir a glaswelltir, ac yn helpu bywyd gwyllt i symud a gwasgaru. Mae agosatrwydd gwrychoedd at y dyfrffyrdd yn ychwanegu at werth y coridor, gan gynyddu amrywiaeth y cynefinoedd yno a helpu i greu amrywiaeth ehangach o rywogaethau bywyd gwyllt.



Mae'r pathew hoffus angen gwrychoedd llawn-dwff â chysylltiadau da. Creadur y nos yw'r dringwr heini hwn; bydd yn cysgu gyda'r dydd, gan ddefnyddio cilfachau neu lefydd gwag mewn coed a changhennau.

Rheoli'r gwrychoedd

Mae angen rheoli gwrychoedd i'w cadw mewn cyflwr da, yn ogystal â sicrhau nad ydynt yn tyfu'n wyllt dros lwybr tynnu. Heb eu rheoli, gall gwrychoedd droi'n fylchog neu droi'n rhes o goed os byddant yn cael eu gadael i dyfu'n wyllt. Gallant deneuo, yn enwedig yn y bôn. Mae modd adfywio hen wrychoedd trwy ddulliau traddodiadol fel prysgoedio a phlygu, tra bod torri gwrychoedd mewn cylchdro yn eu cadw'n iach a ffrwythlon. Lle nad oes modd adfywio gwrychoedd, neu os ydynt wedi diflannu o'r tir, yna gellir plannu gwrychoedd newydd. Mae angen cynllunio gwaith gwrychoedd, er mwyn osgoi aflonyddu ar adar sy'n nythu neu ystumod sy'n clwydo.



Codi bylchau mewn gwrych





Plygu gwrych ar Gamlas Mynwy ac Aberhonddu



Pryf tân neu'r fagienn

Gwneud gwahaniaeth: 5

Helpu gwrychoedd

Mae annog technegau traddodiadol fel prysgoedio a phlygu gwrych yn gwella iechyd gwrychoedd, ac mae plannu mewn bylchau ac adfer gwrychoedd diflanedig yn helpu i gadw'r cysylltiadau pwysig hyn o fewn y dirwedd. Mae'r People's Postcode Lottery wedi helpu i ariannu gwaith cynnal a chadw gwrychoedd ledled y rhwydwaith camlesi. Hyd yma, mae'r prosiect wedi gwella bron i 20km o wrychoedd, hyfforddi 188 o wirfoddolwyr i ddysgu'r grefft draddodiadol o blygu gwrych ac wedi cynnwys bron i fil o wirfoddolwyr eraill.

Mae llawer o'n gwrychoedd yn cynnwys bylchau, neu'n ddigyswllt. Yn draddodiadol, roedd gwrychoedd yn nodi ffiniau ac yn cadw'r stoc draw, ond mae dulliau rheoli cyfredol yn golygu bod gwaelodion gwrychoedd yn dod yn agored a bylchau'n ymddangos. Wrth blygu gwrychoedd, mae'r coed hyn yn ffurfio rhwystr wrth fôn y gwrych, a'r toriadau yn annog twf newydd ffres i dyfu tua'r goleuni, a fydd yn sadio'r gwrych wedyn. Hefyd, mae plygu gwrych yn annog y gwrych i flodeuo ac i aeron dyfu. Wrth blygu gwrych, mae'n bwysig plannu rhywogaethau newydd o fewn y gwrych, er mwyn amrywio'r gwrychoedd sydd wedi'u llethu gan ddrain gwynion. Gallai'r rhywogaethau hyn gynnwys y ddraenen ddu, gwernen, piswydden, coeden afalau surion, rhosyn gwyllt, yswydden a'r gollen.

Hefyd, mae gwrychoedd yn elwa ar gynnwys rhywogaethau o goed bob 30 i 50 metr y gellir eu gadael i dyfu a dod yn farcwr i'r dirwedd. Mae cynnwys coed perllan bob hyn a hyn yn cynnig manteision mawr i fywyd gwyllt a phobl.

Uchafbwyntiau

- Mae gwrychoedd yn goridorau hanesyddol a phwysig, ac mae amryw byd o rywogaethau yn dibynnu arnynt
- Mae gwrychoedd ar hyd dyfrffyrdd yn gallu datblygu'n fylchog dros amser ac yn brin o rywogaethau yn aml
- Technegau rheoli traddodiadol, fel plygu gwrych a chodi bylchau, yw'r ffyrdd gorau o reoli gwrychoedd er lles bywyd gwyllt



Gwirfoddolwyr yn rheoli'r gwrychoedd

Gwneud gwahaniaeth: 6


Goleuo'r gwrychoedd

Mae gwrychoedd di-dor i'w gweld o boptu ein dyfrffyrdd a'n rheilffyrdd yn aml iawn. Os yw'r glaswellt wedi'i adael i dyfu'n uchel ger y gwrychoedd, mae creadur go hudolus yn ymddangos weithiau. Wrth fynd allan am dro ar noson gynnes o haf, efallai y gwelwch chi olau bach gwyrdd ar waelod y cloddiau. Goleuadau'r pryf tân benywaidd yw'r rhain, chwilen a fydd yn dringo i frig y glaswelltyn talaf ac yn goleuo, fel llain lanio mewn maes awyr, er mwyn helpu'r gwryw i ddod o hyd iddi. Mae pryfed tân yn dechrau goleuo ddiwedd Mai ac yn parhau felly tan ddechrau Medi, ond gan nad yw'r fenyw'n gallu bwyta, dim ond am ryw bythefnos y bydd hi fyw. Bydd angen iddi gadw'i hegni, ac felly mae'n dibynnu ar laswelltyn tal mewn ardal fach, y gall ddringo iddo hyd nes y bydd y gwryw'n sylwi arni.

Unwaith y bydd wedi cyplu, bydd yn diffodd ei golau ac yn dodwy ei wyau mewn pren marw ac isdyfiant o dan y gwrych, ac yna bydd hi'n marw, fel llawer o bryfed. Mae'r wyau'n deor yn larfa ac yn treulio blwyddyn neu ddwy yn byw yng nghanol gwreiddiau'r gwrych, gan fyw a bod ar falwod – maent fel pe baent yn eu parlysu cyn sugno eu perffedion. Wrth i'r larfa droi'n bryfyn llawn-dwf dwy i dair blynedd yn ddiweddarach, credir bod poblogaethau ar wahân yn trigo mewn un safle. Mae rhywfaint o dystiolaeth i awgrymu bod goleuadau artiffisial yn gallu effeithio ar allu'r gwrywod i ddod o hyd i'r benywod, a bod y gwrywod yn cael eu denu at olau artiffisial – gan lesteirio eu hymdrechion i chwilio am gymar.

Uchafbwyntiau

- Mae gadael llain o laswellt hir ger gwrychoedd rhwng mis Mai a mis Medi yn sicrhau bod gan bryfed tân benywaidd mwy o gyfle i dynnu sylw
- Mae pentwr taclus o bren marw a choediach wrth fôn y gwrychoedd yn fodd i larfau pryfed tân guddio a hela eu prae malwod
- Mae coridorau tywyll y dyfrffyrdd yn helpu i sicrhau mai goleuadau'r pryfed tân benywaidd yw'r pethau mwyaf llachar yn y dirwedd



Bydd gwrychoedd a llystyfiant tal yn fagnet i bryfed tân. Hawlfraint Ruth Feber

Enghreifftiau o'r hyn a wnawn:

Plygu gwrychoedd. Mae hyn yn ymestyn oes y gwrychoedd ac yn gwella eu strwythur er budd bywyd gwyllt. Hefyd, mae'n helpu i sicrhau bod gwrychoedd yn ddiogel rhag da byw.

Prysgoedio gwrychoedd. Gall hyn fod o fudd i rywogaethau arbennig, a bydd yn helpu ac yn ymestyn oes gwrychoedd sydd naill ai'n hen iawn neu wedi'u gorffustio, gan roi bywyd newydd iddynt.

Plannu bylchau mewn gwrych. Mae hyn yn gwella trwch, ansawdd a chysylltedd gwrychoedd.

Plannu gwrych newydd. Rydym ni'n plannu gwrychoedd er mwyn helpu i ehangu a chysylltu'r cynefin llinol hwn ar hyd ein dyfrffyrdd gan wella cysylltiadau o fewn y dirwedd ehangach.

Plannu amrywiaeth o wrychoedd a dringwyr a fflora tir cysylltiedig.

Plannu a chynnal coed gwrychoedd o fewn gwrychoedd.

Rheoli rhywogaethau estron goresgynnol o blanhigion. Mae rhai rhywogaethau, fel clymog Japan, yn peryglu cynefin y gwrych, ac felly mae angen eu cadw dan reolaeth.

Adeiladau 'perthi marw' a thasau o bren. Rydym ni'n gwneud hyn i greu cynefin ar gyfer infertebratau a bywyd gwyllt arall pan fyddwn yn gweithio i gynnal gwrychoedd a choed.

Coed, coetir a phrysgwydd

Mae tua miliwn o goed yn tyfu ar hyd ein dyfrffyrdd ac maen nhw'n cynnal amrywiaeth gyfoethog o fywyd gwyllt, o fwsoglau a chennau i infertebratau, ystlumod ac adar. Maen nhw hefyd yn dylanwadu ar ba rywogaethau sy'n byw mewn sianelau ac ar lannau dyfrffyrdd drwy greu amodau addas i blanhigion glannau sy'n gallu byw dan gysgod a chreu lloches a chynefin magu i bysgod. Mae'n rhaid rheoli ein coed, coetiroedd a'n prysgwydd er mwyn cydbwysio anghenion bywyd gwyllt, strwythurau ein dyfrffyrdd a phobl.

Prif bwyntiau

- Mae coed, coetiroedd a phrysgwydd i gyd yn werthfawr i fioamrywiaeth ein dyfrffyrdd
- Maen nhw'n rhoi lloches a bwyd i adar, ystlumod ac infertebratau a chysgod i bysgod
- Mae eu rheoli yn helpu i roi'r budd gorau i fywyd gwyllt ac yn gwarchod amgylchedd y dyfrffyrdd



Tegeirian a chlychau'r gog ar hyd rhan goediog o Gamlas Mynwy ac Aberhonddu




Mae'r helygen ddeilgron yn gyffredin ar lannau camlesi ac afonydd
Hawlfraint Peter Roworth / Natural England

Coed

Mae coed yn rhan bwysig o ecoleg dyfrffordd. Mae pob coeden yn rhoi cynefin i blanhigion ac anifeiliaid eraill ac felly mae gan bob un ei chymuned unigryw o fioamrywiaeth. Yn hanesyddol, plannwyd rhai coed ar hyd glannau'r dyfrffyrdd gan gwmnïau a pheirianwyr gwreiddiol y gamlas er mwyn nodi pellter, tra plannwyd eraill i gysgod rhag y gwynt, i helpu i sefydlogi'r glannau neu fel ffynhonnell o bren. Mae llawer o goed ein dyfrffyrdd wedi tyfu'n naturiol o hadau, wedi eu gollwng gan anifeiliaid yn aml iawn. Gellir dod o hyd i helyg a gwern ar lannau ein dyfrffyrdd yn ogystal â'r ddraenen wen, y dderwen a'r onnen yn y gwrychoedd a choed ffrwythau ger aneddiadau ar ymyl camlesi neu fythynnod ceidwad y loc.

Coed gwern yw rhai o'r coed mwyaf cyffredin ar hyd dyfrffyrdd. Mae ganddyn nhw wreiddiau ffeibrog sy'n gallu helpu i lynu'r glannau ynghyd a rhwystro erydiad, yn ogystal â helpu i roi lloches a chysgod i bysgod, adar a mathau eraill o fywyd gwylt. Rhaid rheoli coed ar ein camlesi artiffisial. Unwaith maen nhw wedi aeddfedu'n llawn, gallant wneud difrod i argloddiau ac achosi i ddŵr ollwng drwy'r cloddiau yn hytrach na'u gwarchod nhw. Mae llawer o goed helyg a gwern ar ymyl ein dyfrffyrdd, a choed eraill weithiau, sydd wedi eu prysgoedio neu eu tocio dros nifer o flynyddoedd, er mwyn medru eu rheoli'n iawn. Mae'r hen goed yma yn nodweddiadol o'n dyfrffyrdd ac yn gartref i nifer o rywogaethau – cânt eu defnyddio gan adar sy'n nythu, nifer fawr o infertebratau a phlanhigion neu gennau eraill.

Weithiau mae coed yn hadu eu hunain yn y llyfnydd anghywir, gan arwain at niwed i strwythurau fel pontydd ac argloddiau a gall coed marw, neu sydd yn marw, neu rai â chlefyd fod yn beryglus os ydyn nhw'n syrthio. Rydyn ni'n arolygu ein coed yn rheolaidd; gan docio, lleihau, prysgoedio, torri a phlannu fel bo angen i gynnal eu gwerth bioamrywiaeth uchel tra'n gwarchod strwythurau a phobl y dyfrffyrdd ar yr un pryd.



Mae rhai o'n coed yn hen iawn: mae tocio yn gallu eu cadw dan reolaeth.



Yn ogystal â bod yn gynefin i fywyd gwylt, mae coed yn dod ag elfen ddiddorol a phrydferth i ymyl y dŵr.

Coetiroedd a phrysgwydd

Mae coetiroedd yn aml yn tyfu mewn blociau cul neu ar leiniau hir o dir ar hyd ymyl camlas a llwybrau afon. Ar ochr y dŵr efallai y bydd yn arferol gweld gwern neu helyg gyda choed sy'n hoffi amodau sychach, fel y dderwen, y fedwen neu'r gollen, ar y llethrau y tu ôl iddynt. Weithiau mae dyfrffyrdd yn torri drwy goetiroedd mawr sy'n hŷn na'r gamlas o gannoedd o flynyddoedd.

Mae coetiroedd hynafol o'r fath yn gartref i gymunedau cyfoethog o rywogaethau gan gynnwys mwsoglau, cennau, planhigion ac infertebratau eraill nad ydynt i'w gweld mewn coetiroedd iau. Gall fflora coetiroedd hynafol, fel clychau'r gog neu friallu, ymestyn hyd at ymyl llwybr y gamlas neu at ymyl y dŵr.

Bydd lleiniau o goetiroedd, ac ardaloedd mwy o goetiroedd sydd wrth ymyl dyfrffyrdd yn arbennig o werthfawr i ystumod a'r gwyfynod a'r pryfed eraill maen nhw'n eu bwyta. Mae coetiroedd yn rhoi cynefin i rywogaethau na fyddent fel arfer yn canfod amodau addas wrth ymyl dyfrffyrdd, gan gynyddu ein bioamrywiaeth yn gyffredinol.

Mae prysgwydd yn rhoi mwy o amrywiaeth, gan gynnig cynefin gwahanol i goetir. Math o lystyfiant yw prysgwydd sydd yn y canol rhwng tir agored a choetir. Yn dibynnu ar y math o bridd a'r lleoliad, mae'r rhywogaethau cyffredin i brysgwydd yn cynnwys y ddraenen wen, y ddraenen ddu, ysgaw neu lwyni mwyar duon. Gall prysgwydd sydd wedi datblygu ar argloddiau neu ar lannau llwybrau'r gamlas fod yn amrywiol iawn ac yn werthfawr i nifer o adar, mamaliaid bach a phryfed, yn enwedig os ydyn nhw yn llygad yr haul. Gall prysgwydd roi neithdar, pail, ffrwythau, hadau a lloches a chynnal amrywiaeth o rywogaethau bywyd gwylt. Bydd yn sefydlu ac yn datblygu'n naturiol os caiff lonydd i wneud hynny gan droi'n goetir ymhen amser. Mae angen ei reoli i gadw'r cydbwysedd iawn rhwng sicrhau diogelwch ein cwsmeriaid a chyflwr strwythurau ein dyfrffyrdd yn ogystal ag amrywiaeth cynefinoedd.



Mae fflora fel craff y geifr (neu arleg gwylt) a chlychau'r gog i'w canfod lle mae coetir hynafol yn cwrdd â'r dŵr
Hawlfraint Rob Wolton, Hedgelink



Bydd draenen wen sy'n drwm gan aeron yn cynnal adar a mamaliaid bach drwy fisoedd llwm y gaeaf
Hawlfraint Rob Wolton, Hedgelink





Golygfa o Gamlas Mynwy ac Aberhonddu



Mae coed yn tyfu ar hyd ein dyfrffyrdd yn cynnig cynefin gwerthfawr a mannau prydfferth i bobl eu mwynhau

Gwneud gwahaniaeth: 7

Prysgoedio, plannu a golygfeydd godidog

Yn ystod 2016/17, rhoddodd arian gan Lywodraeth Cymru gyfle i Glandŵr Cymru gynnal prosiect unigryw i adfywio'r ddyfrffordd ar hyd Camlas Mynwy ac Aberhonddu, er budd cymunedau lleol a bywyd gwyllt. Nod y prosiect oedd trawsnewid y cynefin ar ochr y gamlas yn sylweddol gan ddefnyddio technegau rheoli cefn gwlad a dulliau plannu traddodiadol.

Aeth gwirfoddolwyr o Grŵp Coetir Cymuned Llangatwg, contractwyr Glandŵr Cymru ac eraill ati i adfer y coedlannau cyll, plannu fflora a rheoli gwrychoedd ar hyd y gamlas. Dewiswyd pob un o'r gweithgareddau hyn yn benodol i greu gwell amgylchedd i beillwyr (gan gynnwys gwenyn a gloŷnnod byw), pathewod ac adar tir amaeth a mathau eraill o fywyd gwyllt. Cafodd dros 350 o foncyffion coed cyll oedd yn ddeugain oed eu prysgoedio, gan ymestyn bywyd y llwyni nodweddiadol hyn, ac felly gwella cynefin y bywyd gwyllt lleol. Defnyddiwyd y canghennau a'r tocion o'r gwaith hwn i greu tasau o bren marw a phentyrrau coed i greaduriaid fel pryfed a draenogod. Roedd y gwaith plannu yn cynnwys 1,200 o blanhigion gwrych a choetir, fel gwyddfif, rhosyn gwyllt, helygen a draenen ddu, a mwy na 22,500 o blanhigion glannau camlas gan gynnwys hesg, brwyn a phlanhigion blodeuol. Fe wnaeth y gwaith hefyd ddatgelu golygfeydd syfrdanol o'r dirwedd o'i hamgylch gan roi golygfeydd panoramig godidog ar draws Bannau Brycheiniog o lwybr y gamlas.

Uchafbwyntiau

- Gall technegau rheoli cefn gwlad traddodiadol, os cânt eu defnyddio'n dda, ymestyn bywyd coed a phlanhigion a chreu gwell cynefin i fywyd gwyllt
- Ni fyddai modd gwneud llawer o'r gwaith hwn heb help ein gwirfoddolwyr
- Mae ein dyfrffyrdd yn goridorau bywyd gwyllt rhagorol, rhubanau o ddŵr wedi eu hamgylchynu gan goed, gwrychoedd a phrysgwydd



Rheoli gwrychoedd

Gwneud gwahaniaeth: 8

Gweld trwy'r coed

Mae cannoedd ar filoedd o goed yn tyfu ar hyd dyfrffyrdd Glandŵr Cymru ac maen nhw'n rhoi cynefinoedd bywyd gwyllt gwerthfawr a mannau prydfferth i bobl ymlacio. Fodd bynnag, rhaid rheoli'r coed yn ofalus i wneud yn siŵr nad ydyn nhw'n gwneud niwed i'r gamlas gyda'u gwreiddiau neu'n syrthio dros y dŵr ac yn creu rhwystrau i gychwyr. Wrth i goed dyfu, gall eu canghennau hefyd fod yn broblem i gychod sy'n teithio ar y dŵr. Mae angen tocio canghennau'r coed sy'n tyfu ar ochr draw'r gamlas i'w rhwystro rhan tyfu gormod dros y gamlas, gan sicrhau hefyd ein bod yn cadw'r cynefin gwerthfawr sy'n llochesu pysgod ifanc ac yn rhoi lle i las y dorlan glwydo wrth hela.

Gall yr helygen wylofus yn arbennig beri anhawster mawr wrth i'w changhennau fynd mor drwm gan ddail nes ei bod yn pwyso i lawr ac i mewn i'r dŵr. Yn aml, mae helyg wylofus yn cael eu plannu'n agos at loc gan eu bod yn edrych yn dlws. Gall hyn ddatblygu'n broblem yn nes ymlaen i gychod sy'n dod i mewn neu allan o'r loc. Mewn sefyllfa fel hon, mae bob amser yn well cadw'r goeden, a thocio canghennau isaf coron coeden er mwyn codi strwythur tyfu'r goeden yn uwch. Gall edrych braidd yn llym yn syth ar ôl ei thorri ond unwaith y daw tyfiant y tymor nesaf, bydd yr helygen yn wylofain eto'n fuan iawn.

Uchafbwyntiau

- Rhaid inni reoli coed i gydbwysu anghenion pobl, ein strwythurau a bywyd gwyllt
- Gall coed fel yr helygen wylofus weithiau fod yn rhwystr i gychod wrth iddi dyfu
- Pan fo hynny'n bosib, rydyn ni'n cadw coed ac yn eu rheoli drwy dorri'n ddethol



Helygen wylofus ger loc – mae angen tocio canghennau isaf coron y goeden yma

Enghreifftiau o'r hyn a wnawn:

Gwarchod coed hynafol, aeddfed a gwerthfawr. Mae'r coed hyn yn cynnal amrywiaeth o gymunedau amrywiol o rywogaethau.

Aildocio coed sydd wedi eu tocio yn y gorffennol.

Gadael i goed marw sefyll, cyhyd â'u bod yn ddiogel.

Prysgoedio er budd rhai mathau o wrychoedd a choed.


Plannu i gynyddu amrywiaeth rhywogaethau a chysylltedd rhwng coetiroedd a choed yn y dirwedd ehangach.

Rheoli llystyfiant mewn dull wedi ei deilwra. Rydym yn ceisio cynyddu amrywiaeth gorchudd daear y fflora, ac amrywiaeth y brigdwf a'r isdyfiant.

Gadael pren marw sydd wedi syrthio neu wedi ei dorri i lawr yn y fan a'r lle (os yw'n ddiogel ac yn ymarferol i'r ardal).

Rheoli rhywogaethau planhigion estron goresgynnol y tir. Mae hyn yn bwysig pan fo rhywogaethau o'r fath yn bygwth ein coed a'n llwyni brodorol.

Adeiladu tasau o goed a thocion. Mae'r rhain o fudd i infertebratau a bywyd gwylt eraill fel y draenog.




Strwythurau adeiledig

Mae ein strwythurau adeiledig niferus yn cyflawni swyddogaeth bwysig, a anwybyddir yn aml, fel cynefinoedd ar gyfer bywyd gwylt. Mae dyfrbontydd, pontydd, twneli a lociau, yn ogystal â bythynnod, warysau ac adeiladau eraill, wedi dod yn rhannau annatod o dirwedd ein dyfrffyrdd, ac yn cyfrannu llawer at eu bioamrywiaeth. Yn gyffredinol, y strwythurau hynaf, sydd wedi'u creu o garreg gyda mortar calch, sydd â'r gwerth mwyaf. Mae cyfoeth o fywyd yn llechu ym mhob twll a chornel, yn gwneud y gorau o'r amodau llaith a'r ardaloedd cysgodol o dan bontydd ac mewn twneli. Gan eu bod mor agos at y dŵr, mae ein strwythurau'n cynnal cymunedau anarferol o amrywiol yn aml.

Prif bwyntiau

- Mae strwythurau adeiledig ar ein dyfrffyrdd yn darparu cynefin i amrywiaeth o rywogaethau daearol a dyfrol.
- Mae'n siŵr mai ystlumod yw defnyddwyr mwyaf cyfarwydd ein twneli, dyfrbontydd ac adeiladau eraill.
- Rydym yn cymryd gofal i warchod a gwella'r cynefinoedd gwerthfawr hyn i fywyd gwylt



Mae Dyfrbont Brynich yn cludo Camlas Mynwy ac Aberhonddu dros Afon Wysg



Mae pontydd, twneli a dyfrbontydd yn cynnwys agennau sy'n darparu llefydd clwydo i ystumod ac mae'r ddyfrffordd yn darparu cynefin chwilota rhagorol i hela am fwyd



Bydd siglennod llwyd yn nythu mewn cilfachau addas mewn waliau Hawlfraint Mark Baker



Trwyn-y-llo dail eiddew

Cartrefi i fywyd gwyllt

Mae strwythurau adeiledig yn cynnal amrywiaeth eang iawn o anifeiliaid a phlanhigion. Ystumod yw defnyddwyr mwyaf cyfarwydd ein strwythurau mae'n siŵr. Weithiau, gallwch eu gweld mewn clystrau ar doean twneli neu o dan ddyfrbontydd, ond fel arfer maen nhw'n cuddio'n dda, ac yn gwasgu eu hunain i gorneli bach iawn. Mae rhai strwythurau'n cael eu defnyddio fel clwydi yn ystod y dydd, ond mae llefydd gwag o fewn neu y tu ôl i strwythurau'n cael eu defnyddio i aeafgysgu, neu fel clwydi meithrin. Yn y gaeaf, mae angen llefydd llaith, oer ar ystumod i aeafgysgu ac mae twneli camlesi'n gallu bod yn ddelfrydol. Mae strwythurau camlesi'n bwysig iawn i ystumod oherwydd eu cysylltiad â'r dŵr, sy'n helpu i ddarparu tir hela am bryfed, y mae'r ystum yn dibynnu arnynt.

Mae'n debyg mai cennau yw'r rhywogaeth hynaf sy'n byw ar ein strwythurau. Mae'n tyfu mor araf ag un milimetr y flwyddyn, ac mae briweithiau o gennau ar waliau ac adeiladau ar y llwybrau tynnu yn rhan o dreftadaeth ein dyfrffordd a byddai'n cymryd degau o flynyddoedd i'w hail-greu. Mae bywyd gwyllt yn defnyddio adeiladau mawr ar y dyfrffordd hefyd, fel warysau. Os oes gan adeiladau fondo, efallai y bydd gwenoliaid y bondo'n eu defnyddio, tra bod adar eraill fel y sigl-i-gwt yn gallu nythu mewn cilfachau toeau a waliau.

Mae rhedyn y fagwyr a mwsogl yn tyfu ar hen waliau, gan greu micro-gynefinoedd cysgodol a fydd yn cael eu defnyddio gan infertebratau. Mae rhedyn tafod yr hydd yn gyffredin – planhigyn gloyw bytholwyrdd sydd â ffrondau cul hir pigfain. Enw arall ar garw yw hydd, a chafodd y planhigyn ei enwi gan ei fod yn debyg i dafod carw. Planhigyn cyffredin arall yw trwyn-y-llo dail eiddew, a gyflwynwyd i Brydain yn y 17eg ganrif, mae'n debyg ar slabiau marmor o'r Eidal. Mae'n gyffredin iawn ledled Prydain bellach, a gwelir ei liw hyfryd yn briitho waliau ein camlesi, gyda'i flodau lelog cain, sy'n edrych fel trwyn llo bach, a dail gwyrdd ymlusgol. Anaml mae planhigion fel y rhain yn achosi difrod strwythurol ac felly gellir eu cadw, ond efallai y bydd angen cael gwared ar blanhigion coediog mawr, oherwydd byddant yn difrodi'r strwythur ac yn lleihau ei werth o ran bioamrywiaeth yn y pen draw.

Mae infertebratau sy'n gysylltiedig â strwythurau adeiledig yn amrywio yn ôl y dull adeiladu a wynebweidd. Corynod o'gof fydd y brif rywogaeth mewn twneli fel arfer, gyda'i we unigryw yn gorchuddio pob twll a chornel. Ar waliau yn yr awyr agored, bydd yna lawer mwy o rywogaethau. Un o'r rhywogaethau mwyaf cyffredin ar waliau sydd yn llygad yr haul yw'r corryn sebra sy'n dal ei ysglyfaeth drwy neidio arno, yn hytrach na defnyddio gwe.

Strwythurau gwlyb

Mae strwythurau adeiledig gwlyb neu o dan ddŵr yn gartref i nifer o organebau dyfrol. Mae waliau lociau'n cynnwys amrywiaeth o blanhigion, llyisiau'r afu a chen, gan greu cilfachau cynefin i rywogaethau eraill. Mae cregyn gleision, er enghraifft, yn gyffredin ar hyd waliau ein camlesi. Fodd bynnag, gall rhai rhywogaethau fod yn broblem. Mae'r gragen las resog yn rhywogaeth wydn, sy'n estron i'r wlad hon. Mae'r gragen las resog hon yn cystadlu am le gyda rhywogaethau brodorol ac yn amharu ar rediad llyfn gatiâu a llifddorau.

Mae'r sbwng dŵr croyw yn un o'r organebau dyfrol mwyaf anarferol a diddorol sy'n defnyddio strwythurau camlesi. Cytrefi o anifeiliaid microsgopig ydynt ac maen nhw ymhlith y mathau symlaf o fywyd anifeiliaid. Mae eu lliw yn amrywio – weithiau bydd ganddynt wawr werdd, pan fyddant yn gysylltiedig ag algâu, ac mae eraill yn wyn hufennog. Gellir gweld sbyngau'n tyfu ar ochrau lociau ac ar waith carreg mewn tyllau pontydd, ble maen nhw'n hidlo dŵr ar gyfer organebau dyfrol bach iawn. Gallant dyfu'n eithaf mawr - hyd at 500mm. Gellir dod o hyd i tua 16 o rywogaethau dŵr croyw ym Mhrydain, ond ychydig a wyddom am eu hecoleg a'u dosbarthiad.

Mae angen i waith trwsio a chynnal a chadw ar ein strwythurau adeiledig darfu cyn lleied â phosibl ar fywyd gwyllt. Er enghraifft, gellir amseru'r gwaith fel nad yw'n tarfu ar ystumod sy'n gaeafgysgu. Yn y gwanwyn, mae adar sy'n nythu'n gallu effeithio ar y gwaith y gellir ei wneud yn ein hadeiladau ac arnynt. Gyda chynllunio gofalus, mae'n bosibl dod o hyd i atebion fel arfer.



Mae waliau lociau'n cynnwys planhigion sy'n blodeuo, rhedyn, llyisiau'r afu a chen sy'n hoffi amodau gwlyb. Mae rhai o'r planhigion hyn yn brin



Sbyngau dŵr croyw siâp cylch llwydfelyn, llwyd a brown yn tyfu ar hen lifddor, yn edrych ychydig yn debyg i gen tanddwr



Gellir arbed dŵr wrth i gychod rannu lociau



Mwg-y-ddaear melyn ger Camlas Mynwy ac Aberhonddu

Gwneud gwahaniaeth: 9

Defnyddio pŵer yr haul i symud dŵr

Bob tro mae cwch yn mynd trwy loc, defnyddir miloedd o litrau o ddŵr, ac mae dŵr hefyd yn anweddu o'r camlesi mewn tywydd cynnes. Mae angen ychwanegu dŵr yn rheolaidd neu fe fyddai cychod yn mynd yn sownd a bywyd gwyllt yn cael trafferth i oroesi. Mae cyflenwadau o ddŵr yn dod o rwydwaith o gronfeydd, afonydd a nentydd, ac yn cael ei bwmpio o dan ddaear. Mae gorsafoddedd pwmpio mewn lleoliadau allweddol yn galluogi dŵr i gael ei bwmpio yn ôl i fyny rhesi o lociau, i ble mae angen y dŵr. Mae pypiau ar resi lociau Caen Hill yn Devizes yn symud tua 3,300 mega litr o ddŵr, o'r gwaelod i'r pen uchaf bob blwyddyn. I wneud iawn am effaith rhedeg y pypiau ar yr amgylchedd, gosodwyd paneli solar ger yr orsaf bwmpio ar waelod y rhesi o lociau, gan gynhyrchu ynni adnewyddadwy o'r haul i symud y dŵr.

Mae'r rhan fwyaf o'r lifddorau wedi'u gwneud o dderw, a thros amser bydd angen rhai newydd. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gweithio gyda Gwasanaeth Carchardai Ei Mawrhydi a Fresh Start New Beginnings, elusen sy'n gweithio i leihau aildroseddu, ar dreial i ailgylchu hen lifddorau. Tynnwyd pymtheg o hen lifddorau o Gamlas Maldwyn, gan dynnu'r gwaith dur, a'u troi yn feinciau picnic, bocsys adar, bocsys ystumod a pholion. Defnyddiwyd ein hen lifddorau i greu pontydd a cherfluniau yng Ngŵyl Glastonbury hyd yn oed.

Uchafbwyntiau

- Mae rheoli dŵr yn ofalus yn bwysig, i sicrhau nad yw'r camlesi'n sychu
- Gall ynni adnewyddadwy o baneli solar helpu i fodloni'r gofynion ynni hyn
- Gellir ailddefnyddio'r pren o lifddorau ar gyfer nifer o gynhyrchion amrywiol



Mae paneli solar yn helpu i bweru'r pypiau i symud dŵr i ben Rhesi Lociau Caen Hill

Gwneud gwahaniaeth: 10

Ymgartrefu mewn lociau, dyfrbontydd a phontydd

Mae gan Gamlas Mynwy ac Aberhonddu gasgliad helaeth ac amrywiol o strwythurau calchfaen, yn amrywio o bontydd, dyfrbontydd, lociau a'u waliau dynesu, heb anghofio llawer o waliau cerrig sych a thwnnel hyd yn oed! Mae'r strwythurau hyn yn arbennig o dda ar gyfer rhywogaethau fel mwg-y-ddaear melyn, duegredynen y muriau a thrwyn-y-llo dail eiddew, yn ogystal â nifer o rywogaethau o redyn. Hefyd, gan fod yr aer ar hyd y gamlas yn lân a heb ei lygru, mae'r strwythurau hyn wedi'u gorchuddio gan bob math o gennau. Gellir gweld llawer o'r un rhywogaethau ar y waliau, fel y waliau dynesu at lociau a waliau ochr pontydd a dyfrbontydd. Fodd bynnag, pan fydd yr amgylchedd yn fwy llaith, yn sgil dŵr yn tasgu o lifddorau neu rwyfau, mae'r fflora yn newid, a gwelir mwsogl a llysiâu'r afu'n tyfu yno. Llysiâu'r afu yw'r planhigyn symlaf, nid oes ganddo wraidd, dim ond gwreiddflew. Fel mwsogl, fe'u gwelir yn y manau mwyaf llaith, felly mae lleoliadau ar ochr lociau'n ddefnyddol ar eu cyfer.

Fel rhan o waith cynnal a chadw llystyfiant blynyddol Glandŵr Cymru ar hyd Camlas Mynwy ac Aberhonddu, eir ati i gael gwared ar llystyfiant difrodol fel mieri, coed ifanc ac eiddew. Fodd bynnag, mae ein contractwyr yn cael cyfarwyddyd i adael rhywogaethau penodol o fflora ar y waliau. Gan eu bod wedi gwreiddio ym mhob twll a chornel o'r mortar, nid yw'r rhain yn achosi unrhyw ddifrod, ond yn hytrach maen nhw'n ychwanegu lliw a diddordeb i'n hystâd feddal.

Uchafbwyntiau

- Mae strwythurau calchfaen, fel lociau a phontydd, yn darparu cynefinoedd arbenigol i fywyd gwyllt
- Mae llawer o rywogaethau bywyd gwyllt yn treulio eu hoes ar strwythurau calchfaen
- Mae Glandŵr Cymru yn gwarchod twf fflora wal arbennig, gan sicrhau nad ydynt yn cael eu difrodi fel rhan o'r gwaith blynyddol o glirio llystyfiant o'n strwythurau



Duegredynen gefngoch

Enghreifftiau o'r hyn a wnawn:

Gwarchod a chreu cyfleoedd i ystumod sy'n clwydo. Gall y rhain fod mewn strwythurau (fel pontydd, lociau a dyfrbontydd) yn ogystal ag adeiladau, a gall hyn gynnwys gosod briciau neu focsys ystumod. Dylid cadw cilfachau sy'n bodoli'n barod sy'n addas i ystumod eu defnyddio, a chynnwys cilfachau newydd lle bo'n bosibl.

Darparu cyfleoedd i adar sy'n nythu, infertebratau amffibiaid a chreaduriaid eraill mewn strwythurau ac adeiladau (fel y bo'n ymarferol). Gall hyn gynnwys gosod bocsys adar a chynnwys cilfachau sy'n addas i'w defnyddio gan adar sy'n nythu, ymlusgiaid ac amffibiaid.

Cadw fflora wal nad ydynt yn rhai coediog, planhigion is fel cennau, rhedyn a sbyngau dŵr croyw sy'n tyfu ar strwythurau fel lociau a dyfrbontydd, lle bo'n bosibl. Weithiau bydd angen cael gwared â nhw er mwyn ail-bwyntio, am resymau gweithredol neu i ddiogelu cadernid strwythur treftadaeth. Bydd planhigion coediog a llystyfiant arall a fydd yn difrodi strwythurau ac adeiladau'n cael eu tynnu fel arfer.



Dyfroedd eraill

Y camlesi yw ein cyrff dŵr mwyaf cyfarwydd mae'n siŵr, ond mae gennym dros gant o gronfeydd dŵr, a llawer o lynnoedd a phyllau o dan ein gofal hefyd. Mae'r cynefinoedd 'dŵr agored' hyn yn darparu amgylchedd gwahanol iawn ar gyfer bywyd gwylt. Mae'n cronfeydd dŵr dros ddau gant oed yn aml ac mae llawer ohonynt bellach wedi'u dynodi fel Safleoedd Bywyd Gwylt ar lefel leol, cenedlaethol a rhyngwladol, ar sail eu pwysigrwydd i adar dŵr yn aml. Rydym hefyd yn gofalu am ffosydd porthi a nentydd sy'n llifo'n gyflym sy'n cyflenwi ein camlesi, ac sy'n gartref i rywogaethau o fath gwahanol. Gyda'i gilydd, mae'r dyfroedd eraill hyn yn darparu amrywiaeth gyfoethog o gynefinoedd bywyd gwylt.

Prif bwyntiau

- Ar wahân i'r camlesi, mae'r dyfroedd eraill sydd o dan ein gofal yn cynnwys cronfeydd dŵr, lynnoedd, pyllau, ffosydd porthi a nentydd
- Mae'r cynefinoedd hyn yn cynnal amrywiaeth eang o rywogaethau planhigion ac anifeiliaid
- Mae llawer o'n cronfeydd dŵr o bwys cenedlaethol neu rhyngwladol i fywyd gwylt

Hen robwl, nawr yn llyn gwych i fywyd gwylt, yn enwedig adar dŵr ac adar hirgoes



Gwirfoddolwyr o glwb gwarchod adar lleol yn modrwyo cyw cwtiad torchog bach

Cronfeydd, llynnoedd a phyllau

Mae dŵr agored llonydd a chynefinoedd cysylltiedig cronfeydd dŵr cysylltiedig, a all gynnwys coetir gwlyb, corsle a chorsydd, yn gallu cynnal amrywiaeth eang o fywyd gwyllt. Mae adar hela sy'n gaeafu yn gyffredin iawn mewn llawer o'n cronfeydd dŵr. Maen nhw'n cyrraedd yn yr hydref, o ogledd-ddwyrain Ewrop yn bennaf, ac yn defnyddio'r bwyd a'r lloches a geir yn y cronfeydd dŵr yn ystod y gaeaf, cyn gadael am eu tiroedd bridio yn y gwanwyn. Mae'r hwyaden bengoch, hwyaden gopog a'r gorhwyaden yn ymwelwyr rheolaidd â'n cronfeydd dŵr. Adar eraill a welir yw'r wyach fawr gopog a'r wyach fach, sydd ill dau'n adar hardd iawn, yr hwyaden lydanbig, a'r gwtiar a'r iâr ddŵr sy'n fwy cyfarwydd.

Gall hen robylloedd, wedi'u hadfer fel llynnoedd, fod yn llefydd gwych i weld adar dŵr ac adar hirgoes. Mae eu traethau gro artiffisial yn gallu bod yn safleoedd nythu perffaith i'r cwtiad torchog bach.

Mae corsleoedd – clystyrau eang o gyrs cyffredin neu doi – yn gynefin pwysig iawn y gellir ei weld ar ymylon tawel cronfeydd dŵr a phyllau. Am eu bod yn ymddangos yn unffurf, gall corsleoedd roi'r argraff eu bod yn llefydd gwael ar gyfer bywyd gwyllt. Ond mewn gwirionedd, maen nhw'n gartref i gyfoeth o fioamrywiaeth, yn cynnwys llawer o rywogaethau adar, infertebratau a mamaliaid. Yr adar a welir fwyaf mewn corsleoedd yw telor y cyrs a thelor yr hesg a fydd yn nythu yno, fel y gwnaiff y creÿr glas (neu'r crychudd cam), a fydd yn manteisio ar y dŵr clir, bas i bysgota. Mae corsleoedd hefyd yn gartref i rai rhywogaethau cenedlaethol prin neu rywogaethau sydd dan fygythiad.

Gall cronfeydd dŵr ac ymylon pyllau hefyd fod yn gartref i amrywiaeth o blanhigion gwlyptir fel hesgen y dŵr fach, sgorpionllys y gors, cledllys canghennog, brwynen flodeuog a siglen cynffon-y-gath gulddail, a chymunedau pryfed yn cynnwys chwilod gwlyptiroedd anghyffredin. Nodwedd allweddol o amgylch rhai o'n cyrff dŵr mawr yw'r 'parth tynnu i lawr'. Wrth i ddŵr gael ei ddefnyddio i gyflenwi'r sianelau mordwyol gydol yr haf mae ardaloedd mawr o fwd yn dod i'r amlwg. Mae'r cynefin anarferol hwn yn gartref i rai rhywogaethau planhigion ac infertebratau prin sy'n arbennig o addas i'r amgylchedd hwn.

Er bod ansawdd y dŵr yn dda yn y rhan fwyaf o'n cronfeydd dŵr mae rhai'n gallu dioddef yn sgil maetholion cyfoethogol (ewtroffeiddio) sy'n arwain at leihau gwerth bioamrywiaeth. Un o symptomau problem faetholion yw blŵm algâu gwyrddlas, sy'n gallu cynhyrchu llysnafedd gwenwynig. Fel rheol, mae ewtroffeiddio'n cael ei achosi gan lygryddion a dŵr ffo amaethyddol. Gall ffactorau eraill, yn cynnwys pysgodfeydd dwys a bwydo bara i adar dŵr, waethygu'r broblem.



Gwyach fawr gopog yn nythu ar un o'n cronfeydd dŵr



Gellir gweld corsleoedd o amgylch cronfeydd dŵr a hen robyllau

Ffesydd porthi a nentydd

Mae ein rhwydwaith dyfrffyrdd yn cynnwys amrywiaeth o afonydd, ffesydd porthi a nentydd yn ogystal â sianelau araf a chynefinoedd cronfeydd dŵr agored. Mae'r cynefinoedd bywyd gwyllt a ddarperir gan ffesydd porthi a nentydd yn wahanol iawn i rai camlesi mordwyol. Mae ffesydd porthi'n dueddol o fod yn gul, bas ac yn llifo'n gyflym, a gallant fod â gwely cerrig. Ond gan eu bod wedi'u creu gan ddyn mae ffesydd porthi'n fwy unffurf na'r rhan fwyaf o nentydd naturiol, gyda glannau wedi'u creu a llif wedi'i reoli. Maen nhw'n gartref i amrywiaeth wahanol o rywogaethau. Er enghraifft, mae gan y brigwlydd system wreiddiau sy'n galluogi'r planhigion i wrthsefyll llif cyflym. Mae ei swp o ddail gwyrdd siâp seren fach ar goesau tyner i'w gweld yn aml mewn llawer o ffesydd porthi.

Mae'r pryfed sy'n byw mewn ffesydd porthi'n wahanol hefyd. Gwelir clêr Mai yn aml ar hyd nentydd porthi ddechrau'r haf. Mae eu larfau wedi addasu i ddŵr sy'n llifo'n gyflym, ac maen nhw'n byw o dan gerrig ar y gwely'n aml. Rhywogaethau llif cyflym eraill yw'r llyngyren ledog, cregyn dŵr croyw a larfau'r prifyn pric.

Credir bod rhai rhywogaethau wedi ymgartrefu mewn camlesi drwy ffesydd porthi'n wreiddiol. Un enghraifft o'r fath yw llyriad-y-dŵr arnofiol, *Lurionium natans*, y credir iddo gyrtrefu Camlas Maldwyn drwy ffos borthi Afon Dyfrdwy Camlas Llangollen dros 150 o flynyddoedd yn ôl.



Mae nentydd porthi'n darparu cynefinoedd gwahanol i fywyd gwyllt



Gall fod angen gwarchod ein ffesydd porthi, ein dyfrffyrdd a'n dyfroedd eraill drwy gael gwared ar wastraff adeiladwyr a nwyddau gwyn wedi eu gadael yn slei bach, teiars ceir, troliau siopa a gwastraff llystyfiant.





Llwybr osgoi i bysgod o amgylch cored Dog Head Stakes

Gwneud gwahaniaeth: 11

O stanciau a cherrig i llwybr osgoi ar gyfer pysgod

Os ydych chi'n cerdded ar hyd llwybr tynnu'r croestoriad hardd rhwng Camlas Kennet ac Avon a Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Afon Kennet yn Newbury, byddwch yn gweld cored ar yr ochr draw. Adeiladwyd y gored hon, a elwir yn Dog Head Stakes, 200 mlynedd yn ôl, ac fel mae ei henw'n awgrymu, roedd yn arfer cynnwys rhes o stanciau a chlwydi cyll y gellid eu symud. Pan roedd lefel y dŵr yn mynd yn rhy isel byddai gweithwyr y gamlas yn cerdded drwy'r afon i drwsio'r clwydi ar y stanciau. Yn ystod llif uchel byddai'r rhain yn cael eu symud i atal llifogydd.

Flynnyddoedd yn ôl gosodwyd cerrig yn lle'r stanciau a'r clwydi hyn, i osgoi'r gwaith peryglus o drwsio a symud y clwydi. Yn ddiweddar, roedd rhaid i ni osod rhes o stanciau dalenni dur yn lle'r cerrig a oedd yn cael eu golchi i ffwrdd mewn llif uchel. Cynlluniwyd y gored ddur yn ofalus i greu'r lefel ddŵr briodol ar gyfer mordwyo a SoDdGA yr afon, ond gan sicrhau bod pysgod sy'n mudo yn gallu pasio dros y gored mewn llif uchel.

Er mwyn greu llwybr arall i bysgod o amgylch y gored, yn enwedig yn ystod llif isel, aethom ati i greu llwybr osgoi 50 metr o hyd i bysgod drwy gloddio sianel i'r clawdd gro yn y tro gyda'r afon. Yn unol â chynghor Asiantaeth yr Amgylchedd, crëwyd yr amodau llif cywir yn ogystal â dolennau afon a phyllau. Mae'r llwybr osgoi'n gyswllt gwych i bysgod ifanc a rhywogaethau pysgod sy'n ffafrio dŵr araf.

Uchafbwyntiau

- Weithiau mae angen dod o hyd i atebion arloesol i ofalu am ein cwsmeriaid, yn ogystal â'n bywyd gwyllt
- Mae coredau'n angenrheidiol i'n helpu ni i gynnal lefelau dŵr i gychod ac i ryddhau dŵr glaw dros ben i osgoi llifogydd
- Mae sawl un o'n dyfrffyrdd yn cysylltu ag afonydd ac yn ymuno ag afonydd, gyda'r ddau yn gynefin pwysig i bysgod



Cloddio'r llwybr osgoi i bysgod



Gwirfoddolwyr yn clirio helyg o bwll

Gwneud gwahaniaeth: 12

Creu pyllau ar gyfer bywyd gwyllt a gwirfoddolwyr

Gall bywyd gwyllt ein dyfrffyrdd elwa ar byllau. Mae pyllau'n cynnig lloches i blanhigion prin ac o dan fgythiad, chwilod dŵr ac amffibiaid fel brogaod a madfallod dŵr, sy'n fwy tebygol o fod yn ysglyfaeth i bysgod ar ein sianelau.

Rydym wedi cloddio cyfres o byllau mewn rhai safleoedd. Mae'r rhain yn amrywio mewn maint, dyfnder a siâp, gan ddarparu ar gyfer amrywiol ofynion rhywogaethau, newidiadau tymhorol ac anifeiliaid gyda gwahanol gylchoedd bywyd. Ein nod fel arfer yw defnyddio'r priddoedd lleol, naturiol sy'n dal dŵr a'r lefel trwythiad i greu'r pyllau hyn. Wrth ddewis safle ar gyfer pwll rydym hefyd yn edrych ar y cyffiniau. Mae llawer o'r anifeiliaid sy'n defnyddio pyllau angen prysg, glaswelltir, coetir a chynefinoedd daearol eraill.

Mae pyllau'n adnoddau gwych i wirfoddolwyr weithio arnynt, neu fel llefydd i hyfforddi pobl, ac i ddangos sut i adnabod a gwarchod bywyd gwyllt mewn pyllau. Yn Fens Pools (Ardal Cadwraeth Arbennig) mae gennym dros 30 mlynedd o ddata monitro amffibiaid, yn rhannol drwy weithio â sefydliadau eraill. Rydym yn casglu data am ansawdd y dŵr, infertebratau a rhywogaethau goresgynnol. Mae monitro ecosystem gyfan y pyllau'n sicrhau gwell dealltwriaeth o ofynion rhywogaethau, ac yn galluogi gwirfoddolwyr i ennill amrywiaeth o sgiliau. Gall monitro hirdymor ddangos ble mae angen addasu trefniadau rheoli pyllau, er enghraifft, i fynd i'r afael â rhywogaethau goresgynnol neu dranc rhywogaethau.

Uchafbwyntiau

- Gall pyllau newydd, priddoedd lleol a'r lefel trwythiad naturiol ddod â manteision yn syth, gyda rhywogaethau'n ymgartrefu yno o fewn wythnosau
- Gall creu grwpiau o byllau newydd cynnig lloches i rywogaethau fel y fadfall ddŵr gribog
- Gall pyllau fod yn adnodd gwych i wirfoddolwyr, plant ac eraill i ddysgu am fywyd gwyllt dyfrol



Monitro pyllau am fadfallod dŵr cribog

Enghreifftiau o'r hyn a wnawn:

Cyflawni gwelliannau i ansawdd dŵr. Rydym yn gwneud hyn drwy weithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill fel rheoleiddwyr, clybiau pysgota a thirfeddianwyr. Mae mesurau'n cynnwys gweithio gyda grwpiau dalgylch i leihau dŵr ffo o ffosfforws, gwaddodion neu bridd o dir fferm cyfagos i byllau, afonydd neu nentydd, drwy greu neu reoli corsleoedd.

Gwella cynefinoedd cysylltiedig. Mae hyn yn cynnwys llawer iawn o gamau gweithredu fel rheoli pyllau all-lein neu Gronni, creu llwybr gwell i bysgod, a symud gorchudd coed gormodol ar sianelau afon mordwyol i ddarparu mwy o olau i blanhigion dyfrol. Mae rhai camau gweithredu'n cael eu cyflwyno er mwyn gwarchod rhywogaethau penodol; fel clirio llystyfiant o gynefin traeth gro o amgylch chwarel er mwyn i gwtiaid torchog bach allu nythu yno.

Ymdrin â gollyngiadau llygrol a draeniau.


Carthu i waredu silt o byllau gwerthfawr. Mae hyn yn helpu i osgoi eu colli yn sgil sychu, neu atal prysg a glaswelltir trwchus rhag cytrefu yno.

Camau gweithredu i leihau "chwyn blanced" neu flwm algaid arall yn y dŵr.

Rheoli problem rhywogaethau planhigion dyfrol estron goresgynnol. Gall y rhain gynnwys rhywogaethau fel dail-ceiniog arnofiol, gwernydd Awstralia a rhedynen y dŵr.

Rheoli problem rhywogaethau anifeiliaid estron goresgynnol yn lleol. Rhywogaeth sy'n peri problem sylweddol yw cimwch afon arwyddol America.

Casglu sbwriel a chael gwared ar y gwastraff sy'n cael ei adael ar ein tir a'n cyrff dŵr. Gall gynnwys nwyddau gwynion sydd wedi eu gadael slei bach, teiars ceir, trolïau siopa a gwastraff llystyfiant.



Planhigion dŵr

O ddail siâp sgolop y dyfrllys crych i flodau cain llyriad-y-dŵr arnofiol prin a sbigynnau'r cleddlys canghennog a'r saethlys, mae planhigion dŵr i'w gweld ym mhob dyfrffordd. Mae'r cymunedau cyfoethocaf o blanhigion dŵr yn ffynnu mewn camlesi â'r dŵr cliraf a'r tawelaf, ac mae ambell gamlas yn gadarnle cenedlaethol o rywogaethau prin neu rai y mae eu niferoedd yn gostwng. Mae planhigion dŵr sy'n gallu goroesi yn yr amgylcheddau caletaf yn bwysig i gynnal amrywiaeth o fywyd dyfrol. Weithiau, mae planhigion dŵr estron yn goresgyn y dyfrffyrdd gan achosi problemau mawr i bobl a bywyd gwylt. Mae cadwraeth, ac weithiau rheolaeth, planhigion dŵr yn ystyriaethau pwysig wrth reoli ein dyfrffyrdd.

Prif bwyntiau

- Mae camlesi yn gallu cynnal cyfoeth o gymunedau o blanhigion dŵr, gan gynnwys rhywogaethau prin a rhai sy'n prinhaus
- Mae planhigion dŵr yn bwysig i gynnal pob math o fywyd gwylt arall
- Mae angen rheoli planhigion estron yn aml er mwyn cynnal llwybrau mordwyol a gwarchod bywyd gwylt brodorol.





Planhigion dŵr ar Gamlas Mynwy ac Aberhonddu

Amrywiaeth planhigion dŵr

Mae planhigion dŵr yn rhan hanfodol o fioamrywiaeth ein camlesi, y mae cymaint o gymuned fiolegol y ddyfrffordd yn dibynnu arnynt. I rai rhywogaethau planhigion dŵr, sydd wedi dioddef effeithiau llygredd a cholli cynefinoedd, efallai mai'r camlesi yw'r cadarnleoedd prin, olaf. Mae'r llif araf a'r lefelau dŵr a reolir yn darparu cynefin unigryw sydd wedi dod yn hollbwysig i warchod eu poblogaethau.

Mae'r amrywiaeth fwyaf o blanhigion dŵr fel arfer i'w gweld mewn camlesi â llai o gychod, a lle mae'r dŵr yn glir a llonydd. Mae rhai dyfrffyrdd wedi'u dynodi'n Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), neu'n cynnwys statws bywyd gwyllt rhyngwladol hyd yn oed, oherwydd eu cymunedau o blanhigion. Dau o'r planhigion pwysicaf, a'r prinnaf, a welir yn ein dyfrffyrdd yw llyriad-y-dŵr arnofiol a'r dyfrllys cywasg. Mae'r gegiden bibellaidd yn blanhigyn arall sy'n flaenoriaeth o safbwynt cadwraeth. I blanhigyn arbennig fel y rhain, mae gwaith yn cael ei wneud i'w gwarchod a darparu'r amodau sydd eu hangen arnynt, fel rheoli lefelau cysgod a rhywogaethau cystadleuol, a chynnal ansawdd y dŵr.



Cegiden bibellaidd *Oenanthe fistulosa*

Mewn camlesi prysur o ran traffig cychod, mae amrywiaeth planhigion y dŵr yn dueddol o fod yn fwy cyfyngedig. Mewn sianelau mordwyol sydd â llawer iawn o rywogaethau cyffredin o blanhigion dŵr, fel y dyfrllys blaenllym, mae'n bosib y bydd angen torri'r planhigion dyfrol i'w hatal rhag mynd yn sownd yn llafnau'r cychod, gan eu tagu. Mewn camlesi prysur, gall cychod effeithio ar blanhigion trwy eu difrodi'n uniongyrchol, neu wrth i grychddwr y cychod greu cerhyntau a thonnau. Mae mwy o symudiadau cychod yn arwain at fwy o dyrffedd yn y dŵr, sy'n golygu nad oes cymaint o olau yn cyrraedd y bywyd tanddwr. Mewn sianelau prysur, efallai y bydd planhigion dŵr wedi'u cyfyngu i'r rhywogaethau mwyaf gwydn, fel y dyfrllys llydanddail, sydd i'w ganfod ar ymylon y dŵr. Planhigion ifanc fel melyswellt y gamlas sydd drechaf yn y llefydd hyn.

Mae planhigion uwchlaw ac islaw'r dŵr sy'n tyfu ar ymylon dyfrffyrdd tawel a phrysur yn gynefinoedd pwysig i bob math o fywyd gwyllt, a gallant helpu i warchod bywyd gwyllt rhag effeithiau crychddwr cychod. Mae planhigion dŵr yn gynefin pwysig i bryfed dyfrol, fel gwas y neidr a'r chwilen ddŵr, ac yn darparu gorchudd i gwtieir ac ieir dŵr, a physgod ifanc.



Ymerawdwr ar lystyfiant ifanc (Willem Jan Hoeffnagel, Saxifraga Foundation)


Rhywogaethau goresgynnol

Ar yr un llaw, mae cysylltedd system y dyfrffyrdd yn nodwedd fanteisiol sy'n helpu bywyd gwyllt dymunol i ymgartrefu, gwasgaru a ffynnu. Ar y llaw arall, fodd bynnag, mae'n cynnig llwybr parod i rywogaethau estron goresgynnol ymledu. Mae rhwydwaith y dyfrffyrdd yn gartref i sawl rhywogaeth o'r fath, sy'n achosi pob math o broblemau. Mae rhywogaethau estron goresgynnol yn cystadlu â'r rhywogaethau brodorol am olau, gofod a maeth. Maen nhw'n ymledu dros y dŵr, yn cysgodi a mygu'r bywyd o dano ac yn peri bod y ddyfrffordd yn llai gwerthfawr i infertebratau, pysgod ac adar. Weithiau, maen nhw'n ei gwneud hi'n amhosib bron i fordwyo'r sianel.

Unwaith maen nhw wedi bwrw gwreiddiau, mae'r planhigion hyn yn hynod o ddud a heriol i'w rheoli, ac mae'n amhosib i'w gwaredu. Cafodd y dail-ceiniog arnofiol *Hydrocotyle ranunculoides*, er enghraifft, ei gyflwyno i'r DU yn y 1980au. Mae'r planhigyn coesbraff hwn yn defnyddio ei wreiddiau i wau mat arnofiol o ddail toreithiog. Mae'n tyfu'n gyflym iawn ddiwedd yr haf – hyd at 20cm y dydd – ac yn gyfrifol am lethu'r dyfrffyrdd, pwysu ar blanhigion brodorol a dwyn ocsigen oddi ar bryfed a physgod. Ar ben hyn, mae'n gallu tyfu o ddarnau mân sy'n golygu ei bod hi'n anodd a drud cael gwared arno. Yn yr un modd, mae gwernydd Awstralia *Crassula helmsii*, a gyflwynwyd yn y 1970au, yn ffynnu mewn cynefinoedd dyfrffyrdd, o gamlesi a chronfeydd dŵr dyfnion i dir llaith. Mae'n ffurfio mat trwchus dros wyneb y dŵr, sy'n cau allan golau ac ocsigen gan ladd y rhywogaethau dyfrol oddi tano. Mae rhywogaeth arall o blanhigyn estron, rhedynen y dŵr *Azolla filiculoides*, yn ffurfio matiau o lystyfiant sydd mor drwchus nes eu bod yn ymddangos yn solet ac felly'n beryg bywyd. Mae'n rhyddli'fano'n gyfan gwbl, felly mae'r matiau'n gallu gorchuddio dŵr o unrhyw ddyfnder.



Rhedynen y dŵr oresgynnol *Azolla filiculoides*



Mat ymledol o wernydd Awstralia *Crassula helmsii*



Ychydig iawn o effaith gaiff cwch wedi'i dynnu gan geffyl ar blanhigion dŵr arbennig o gymharu â chwch modur

Gwneud gwahaniaeth: 13

Gwarchod llyriad-y-dŵr arnofiol

Mae'n bosib mai yng Nghamlas Maldwyn mae poblogaeth fwy'r byd o lyriad-y-dŵr arnofiol *Luronium natans*. Caewyd y gamlas i gychod yn y 1940au, ond erbyn 1970, roedd ymgyrch frwd iawn i'w hailagor. Fel rhan o'r gwaith adfer, cydnabuwyd bod gwarchod bywyd gwyllt y gamlas, yn enwedig y *Luronium*, yn hollbwysig. Cafodd gwarchodfeydd natur 'ar-lein' ac 'all-lein' eu creu er mwyn darparu amgylchedd gwarchoddedig i'r planhigion allu ffynnu. Oherwydd natur sensitif Camlas Maldwyn, mae terfynau cyflymder gwirfoddol ar waith ar hyd yn rhannau mwyaf sensitif, gan fod cychod yn gallu difrodi'r planhigion. Fe wnaethom ni dreialu taith cwch yn cael ei dynnu gan geffyl yn un rhan o'r gamlas. Mae'n creu llawer llai o ddifrod na chwch modur, ac mae'r dull traddodiadol hwn o deithio'n boblogaidd iawn gydag ymwelwyr!

Rydyn ni'n helpu'r planhigion prin hyn mewn ffyrdd eraill hefyd. Mae cael gwared ar gysgodion coed a deiliach, a charthu gwelyau cynffon y gath, yn lleihau unrhyw gystadleuaeth ac yn caniatáu mwy o olau i gyrraedd gwely'r gamlas. Trwy weithio gyda sefydliadau fel Sw Caer a'r Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Lleol, rydym wedi casglu planhigion *Luronium* o ardaloedd lle mae digonedd ar gael, eu trawsblannu i amgylchedd gwarchoddedig a'u gadael i ffynnu. Mae'r planhigion hyn yn ôl yn eu hanterth mewn hen lefydd a llefydd newydd, ac wedi rhoi hwb i'r poblogaethau ar ein camlesi a'n cronfeydd dŵr.

Uchafbwyntiau

- Mae'r llyriad-y-dŵr arnofiol yn rhywogaeth genedlaethol brin, sydd ond i'w gweld yn ein dyfrffyrdd yn y gogledd, y gorllewin a'r canolbarth
- Mae gwarchodfeydd "ar-lein" ac "all-lein" yn gallu darparu cynefinoedd cysgodol a thawel i blanhigion
- Gellir lledaenu'r planhigion hyn mewn amgylcheddau a reolir i ffwrdd o'r dyfrffyrdd, cyn eu trawsleoli i safleoedd addas, fel poblogaethau newydd neu er mwyn hybu'r rhai sydd yno'n barod



Gwirfoddolwyr yn didoli drwy'r planhigion dyfrol yn chwilio am *Luronium natans*



Gwarchodfa planhigion dyfrol ar-lein ar hyd glannau un o'n dyfrffyrdd

Gwneud gwahaniaeth: 14

Gwarchodfeydd planhigion dŵr arbennig

Mae rhai planhigion dyfrol brodorol yn hynod o sensitif i waddodion ac i unrhyw darfu gan gychod sy'n pasio. Ar sawl rhan o'n dyfrffyrdd, rydyn ni'n gweithio gyda sefydliadau partner i ddiogelu a gwella amodau'r planhigion dŵr hyn. Mae hafanau arbennig yn cael eu creu o fewn y gamlas, sef y 'gwarchodfeydd ar-lein'. Yno, rydyn ni'n gosod geodecstilau 'nicospan' ar stanciau gan greu mur athraidd fetr neu fwy o ochr y gamlas, yn y dŵr. Mae hyn yn creu rhwystr i silt ac yn gwella clirder y dŵr y tu ôl iddo, sy'n caniatáu i blanhigion sensitif ffynnu.

Fel rhan o waith adfer Camlas Maldwyn, mae gwarchodfeydd natur wedi'u creu, sef 'gwarchodfeydd all-lein'. Maen nhw'n gysylltiedig â, ond ar wahân i, sianel y gamlas. Mae'r warchodfa yn Lociau Brithdir, ger y Trallwng, yn enghraifft nodweddiadol o hyn. Mae cyfran o lif y loc yn cael ei dargyfeirio i gyfres o byllau wedi'u creu ar dir cyfagos. Mewn rhai lleoliadau, mae rhywogaethau o blanhigion da gerllaw, ac felly bydd achos o gytrefu naturiol yn digwydd. Ar rannau eraill, mae rhywogaethau fel llyriad-y-dŵr arnofiol *Luronium natans* a'r dyfrllys cywasg *Potamogeton compressus* wedi'u cyflwyno trwy blannu. Fel y gamlas, strwythurau artifisial yw'r gwarchodfeydd hyn, sydd angen eu cynnal a'u cadw'n rheolaidd er mwyn helpu planhigion amlwg i ffynnu a chadw'r rhai mwyaf gormesol draw.

Uchafbwyntiau

- Mae camlesi'n cynnal amrywiaeth o blanhigion dŵr, gyda rhai ohonynt angen dŵr clir iawn a llonydd gan gychod
- Rydyn ni'n rhoi hwb i'r planhigion hyn trwy sefydlu gwarchodfeydd ar-lein ac all-lein
- Mae angen cynnal a chadw'r gwarchodfeydd hyn yn rheolaidd, er mwyn helpu'r planhigion arbennig i ffynnu



Gwarchodfa ar-lein 'Nicospan' ar SoDdGA Ashby, sy'n gwarchod planhigion y dŵr yn ystod gŵyl flynyddol i'r teulu cyfan Shackerstone

Enghreifftiau o'r hyn a wnawn:

Rheoli rhywogaethau planhigion estron goresgynol fel y dail-ceiniog arnofiol, gwernydd Awstralia a rhedynen y dŵr.

Gwarchod poblogaethau planhigion dŵr prin a'u cynefin. Mae llyriad-y-dŵr arnofiol *Luronium natans* yn enghraifft bwysig.

Rheoli rhywogaethau anifeiliaid estron goresgynol yn lleol. Gall hyn gynnwys rheoli pysgod fel carp sy'n gallu effeithio ar niferoedd ac amrywiaeth planhigion os oes nifer fawr ohonynt yn enwedig mewn lleoliadau hynod sensitif.

Gwella ansawdd dŵr. Rydyn ni'n gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid gan gynnwys rheoleiddwyr, cwmnïau dŵr, clybiau pysgota, tirfeddianwyr ac eraill i atal neu leihau ffosforws rhag cyrraedd ein dyfrffyrdd o dir fferm a gwaith trin carthion cyfagos.

Ymdrin â gollyngiadau llygrol a draeniau yn ein dyfrffyrdd.

Creu a rheoli cronfeydd dyfrol 'yn y sianel' a, lle bo'n berthnasol, creu cysylltiadau â phoblogaethau o blanhigion eraill. Er enghraifft, byddwn yn gosod 'llenni silt' gan ddefnyddio geodecstilau crog neu ar stanciau, i wella ansawdd y dŵr yn lleol a lleihau unrhyw darfu ar gynefinoedd.

Gwelliannau i leihau blymau algaidd gwyrddlas a mathau eraill yn y dŵr.

Carthu i waredu silt. Er mwyn lleihau faint o waddod sydd yn y dŵr a fydd fel arall yn cael ei gynhyrfu gan lif y dŵr, cychod sy'n pasio heibio a gweithgareddau eraill (ail-grog). Gall gwaddodion crog gael effaith trwy gysgodi a thagu planhigion dyfrol a lleihau lefelau'r golau yn y dŵr.

Plannu er mwyn ehangu, cysylltu a llenwi bylchau mewn cynefinoedd. Er enghraifft, rydyn ni'n plannu llystyfiant dyfrol ac yn creu gwelyau cyrs neu ynysoedd cyrs er mwyn gwella ymylon cyrs.

Infertebratau dyfrol

Mae'n bosibl mai infertebratau dyfrol yw'r grŵp bywyd gwyllt mwyaf amrywiol yn ein system o ddyfrffyrdd. O'r frenigen a misglen yr elyrch drawiadol, i'r cimwch afon crafanc wen sydd mewn perygl a gweision y neidr hynod liwgar, mae infertebratau o bob lliw a llun yn rhan hanfodol o ecosystem y ddyfrffordd. Ymylon y ddyfrffordd yw cartref y rhan fwyaf o infertebratau dyfrol, yn enwedig os oes llawer o llystyfiant yno. Dyma le mae'r bywyd a'r lloches orau ar gael, ac anaml iawn y mae cychod yn amharu ar y manau hyn. Mae infertebratau yn hanfodol i'r gadwyn fwyd, gan fwyta organebau dyfrol llai o ran maint. Hefyd, maen nhw'n cael eu bwyta gan bysgod, adar a mamaliaid, sy'n eu gwneud yn fwy gwerthfawr nag erioed i'n bywyd gwyllt ar ein dyfrffyrdd.

Prif bwyntiau

- Mae amrywiaeth fawr o infertebratau dyfrol yn byw yn ein dyfrffyrdd
- Mae infertebratau yn hanfodol bwysig i gadwyn fwyd y dyfrffyrdd
- Mae rheoli cynefinoedd er mwyn diogelu a gwella cymunedau infertebratau dyfrol yn rhan bwysig o'n gwaith



Picellwr praff Hawlfraint Saxifraga / Willem Jan Hoeffnagel



Amrywiaeth rhywogaethau

Mae amrywiaeth enfawr o infertebratau yn byw yn ein system o ddyfrffyrdd. Mae rhywogaethau'n amrywio o'r rhai sy'n hynod sensitif i lygredd, silt ac aflonyddwch a achosir gan gychod, i rywogaethau mwy gwydn sy'n gyffredin i'r dyfrffyrdd. Gall rhai rhywogaethau estron achosi problemau i ecosystem y ddyfrffordd ac mae angen eu rheoli. Mae rhywogaethau brodorol eraill yn flaenoriaeth i gadwraethwyr. Mae'n rhaid i'r broses o reoli'r dyfrffyrdd ystyried yr holl anghenion hyn.

Cregyn gleision rhesog ar wal loc sydd wedi'i ddraenio yn ystod gwaith i newid y llifddor



Mae cimwch afon arwyddol America yn rhywogaeth estron a goresgynnol yn ein dyfrffyrdd

Molysgiaid

Mae gan rwydwaith y ddyfrffyrdd amrywiaeth o folysgiaid gan gynnwys malwod y dŵr, gwichiaid, cregyn gleision, cocos bach a brennig. Un o'r molysgiaid mwyaf sy'n byw yn ein dyfrffyrdd yw misglen yr elyrch. Maen nhw'n byw yn y gwaddod mwdlyd ar waelod y gamlas, ac yn hidlo'r dŵr am ronynnau bach o fwyd. Mae misgl yr elyrch yn sensitif i waith cynnal a chadw yn y gamlas, fel ailgyflenwi'r dŵr a charthu. Gallant farw heb ddŵr, ond byddant yn symud i bwl canolog os oes modd gadael pwll o'r fath ar eu cyfer. Mae llai o groeso i'r gragen las resog estron yn ein dyfrffyrdd. Gall y cregyn hyn gael effaith niweidiol ar fisgl yr elyrch brodorol, gan newid ecoleg y dyfroedd lle maen nhw'n byw yn aruthrol.

Cimwch yr afon

Cramenogion, sef math o infertebrat, yw cimwch yr afon, ac nid pysgodyn mohono. Y cimwch afon crafanc wen yw'r unig gimwch yr afon brodorol yn y DU, ond mae ei niferoedd wedi crebachu'n gyflym ers y 1970au ac mae'n rhywogaeth a warchodir bellach. Mae'r creadur swil hwn yn edrych fel cimwch bach, ond nid yw'n cael ei weld yn aml iawn, ac mae'n hoffi cysgodi mewn ymylon cyrs ac yng ngilfachau waliau tanddwr. Nid yw'r rhywogaethau eraill o gimwch yr afon sy'n byw yn ein dyfrffyrdd yn frodorol i'r wlad hon, a chimwch afon arwyddol America yw'r un mwyaf cyffredin. Mae'r rhywogaeth ymosodol hon yn bridio'n gyflymach na'n cimwch yr afon brodorol ac mae'n difrodi'r glannau drwy fynd ati i dyllu. Hefyd, mae'n cario clefyd ffwngaidd o'r enw pla 'cimwch yr afon' sy'n niweidiol i'n rhywogaethau brodorol.

Chwilod, chwilod sy'n nofio ar eu cefn a chychwyr cefnwyn

Mae rhai o'r infertebratau dyfrol sydd i'w gweld fwyaf yn byw ar wyneb y dŵr neu ychydig o dan wyneb y dŵr. Mae chwilod chwrligwgan du i'w gweld yn aml yn sgimio'n gyflym dros wyneb y dŵr ac yn bwydo ar infertebratau bach eraill ar y dŵr. Mae sawl rhywogaeth o chwilod dyfrol yn byw yn ein dyfrffyrdd, gan gynnwys rhai rhywogaethau prin iawn. Mae cychwyr cefnwyn yn gyffredin hefyd, sef chwilod y dŵr sydd naill ai'n nofio ar eu tu blaen neu ar eu cefn. Er mwyn osgoi dryswch, cyfeirir at yr olaf fel chwilod sy'n nofio ar eu cefn erbyn hyn. Mae chwilod sy'n nofio ar eu cefn yn gigysol, ac yn bwyta penbyliaid, pryfed a hyd yn oed pysgod bach, tra bod cychwyr cefnwyn yn llysiuwyd.



Cychwr cefnwyn lleiaf
Hawlfraint Saxifraga/Kees Marijnissen

Gwas y neidr a'r fursen

Mae'r fursen a gwas y neidr ymysg yr infertebratau dyfrol harddaf a mwyaf cyfarwydd, ac fe'u gwelir yn aml ar ddiwrnod cynnes o haf ger y dŵr. Mae'r fursen yn fwy brau a thenau na gwas y neidr, ac mae ei hadenydd yn plygu yn ôl dros ei chefn pan fydd yn gorffwys. Mae'n bwyta mosgitos, gwybed a thrychfilod eraill yn bennaf. Mae gwas y neidr yn heliwr rheibus gydol ei oes, o'i gyfnod tanddwr fel larfa dyfrol, pan fydd yn bwyta pysgod bach hyd yn oed, hyd nes ei fod yn ei lawn dwf ac yn hedfan ac yn bwyta infertebratau eraill. Mae ymylon cyrs llawer o'n dyfrffyrdd yn safleoedd bridio ac yn fannau hela rhagorol ar gyfer y pryfed hyn.



Morwyn wych, math gosgeiddig o fursen
Hawlfraint Saxifraga / Ab H Baas

Mae ein rhaglen cynnal a chadw yn cynnwys creu a gwella glannau'r gamlas er mwyn helpu infertebratau dyfrol fel gwas y neidr. Yn y gorffennol, roedd gwaith ar lannau'r gamlas yn defnyddio pyst sylfaen dalenni dur. Heddiw, yn sgil ein pwyslais cynyddol ar greu cynefinoedd, mae cyfran fwy o'r gwaith peirianeg hwn yn ymwneud â chreu ac adfer glannau meddal drwy ddefnyddio rholiau o risgl coconyt, geodecstilau ar stanciau neu ffgodau cyll. Mae'r rhain yn hybu twf ymylon cyrs, sy'n gynefin delfrydol ar gyfer llawer o infertebratau. Mae gwreiddiau'r planhigion hyn yn gwarchod y glannau rhag erydu.



Mae planhigion dyfrol yn bwysig i infertebratau dyfrol, fel y mursennod mawr coch uchod sy'n paru



Llun o'r awyr yn dangos llenni silt. Mae modd gweld y gwahaniaeth rhwng ansawdd y dŵr o boptu'r llenni. Y manau tywyll yw'r dŵr clir. Mae'r dŵr brown yn cynnwys llawer mwy o waddod crog.

Gwneud gwahaniaeth: 15

Llenni silt ar gyfer gwas y neidr

Mae modd gwella ansawdd dŵr ar gyfer bywyd gwyllt yn ein camlesi drwy ddefnyddio 'llenni silt'. Mae llen silt yn cael ei wneud o ddeunydd hyblyg ac mae'n debyg i hidlydd enfawr. Defnyddir cadwyni i gadw'r llen silt ar waelod y gamlas, a fflotiau i'w gynnal ar wyneb y dŵr. Mae'r llen silt yn gweithredu fel rhwystr i gychod, ac mae'n arafu llif y dŵr. Pan fydd cychod yn cynhyrfu gwaddodion a silt nes eu bod yn cymysgu â'r dŵr, byddant yn tueddu i ddisgyn ger ymylon ardal ddyfrol, gan dagu planhigion ac effeithio ar yr infertebratau dyfrol sy'n byw yno.

Mae llenni silt yn atal y gwaddodion sydd wedi'u cynhyrfu rhag cyrraedd cynefin yr ymylon, ac maen nhw'n fanteisiol iawn i rai rhywogaethau penodol, fel gwas y neidr glas, sy'n hoffi dŵr glanach. Gall gwas y neidr fyw o dan y dŵr am rhwng blwyddyn a phum mlynedd. Pan fydd yn barod i drawsffurfio'n oedolyn, bydd yn dringo i fyny darn bach o llystyfiant ac yn ei ryddhau ei hun o'i sgerbwd allanol larfal. Ar ôl i adenydd brau gwas y neidr galedu, bydd yn hedfan am y tro cyntaf ac yn canfod bwyd neu gymar. Mae'r cynnydd mewn bioamrywiaeth yn deillio o'r gwahaniaeth y gall llenni silt ei wneud, ac mae llun o'r awyr yn dangos hyn yn glir.

Uchafbwyntiau

- Mae llenni silt yn atal silt rhag casglu mewn manau lle mae'n gallu achosi problemau
- Mae llenni silt yn rhwystr i symudiadau cychod
- Bydd infertebratau dyfrol yn ffynnu mewn ardaloedd dyfrol lle mae ansawdd y dŵr yn dda



Llen silt yn barod i gael ei osod



Llwyfan trochi yn cael ei ddefnyddio gan grŵp ysgol

Gwneud gwahaniaeth: 16


Trochi yn y dŵr bas

O dan wyneb y dŵr yn nyfnderoedd y ddyfrffordd, mae byd cyfan o infertebratau dyfrol yn aros i gael ei ddarganfod. Ledled ein dyfrffyrdd, rydym wedi cynllunio a chreu amrywiaeth o lwyfannau trochi i'w defnyddio gan grwpiau ysgol a'r cyhoedd. Mae'r llwyfannau trochi yn gweithredu fel glanfeydd, gan alluogi pobl i chwilio am bethau yn y dŵr gyda'u rhwydi. Y llwyfannau gorau i chwilio yw ymysg y llystyfiant ar hyd yr ymylon, sy'n gartref i'r rhan fwyaf o infertebratau sy'n byw yn y dŵr, neu 'greaduriaid bach'. Bydd modd rhwydo pob math o bethau diddorol drwy sgubo'r rhwyd yn ofalus ymysg y brwyn a'r cyrs, a thrwy dyrchu'n ddyfnach o dro i dro yn y llaid ar y gwaelod.

Nid yw rhai rhywogaethau, fel larfae pryf y wemen, yn hoffi dŵr cymylog, ac ni fydd modd eu gweld oni bai bod y dŵr yn lân ac yn glir. Mae dal yr anifeiliaid a dod â nhw i'r wyneb yn ein helpu i'w gweld yn iawn. Mae llawer o greaduriaid bach yn edrych yn eithaf estron ac yn anarferol: mae sgorpion y dŵr, pryfed pric a larfae gwas y neidr, yn benodol, yn rhoi cipolwg i ni ar ecosystem sydd prin yn cael ei gweld.

Uchafbwyntiau

- Mae llwyfannau trochi yn gyfle i bobl ganfod mwy am fywyd o dan wyneb y dŵr
- Mae'r llwyfannau'n darparu mynediad diogel i ddal infertebratau dyfrol
- Bydd llawer o'r rhywogaethau sy'n cael eu rhwydo yn cael eu gweld gan bobl am y tro cyntaf



Sgorpion dŵr

Enghreifftiau o'r hyn a wnawn:

Gwarchod poblogaethau infertebratau dyfrol a'u cynefinoedd. Er enghraifft, y cimwch afon crafanc wen brodorol, gwas y neidr, cregyn gleision brodorol a chwilod dŵr arbennig.

Rheoli problem rhywogaethau anifeiliaid estron goresgynnol yn lleol. Gall hyn gynnwys ymdrin â physgod cregyn estron ymledol, megis cimwch afon arwyddol America neu'r fisglen resog, a chael gwared ar y draenogiaid cernog estron yn ystod y broses o achub pysgod i hwyluso gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio'r gamlas.

Camau i leihau ffosforws yn ein dyfroedd. Er enghraifft, rydym yn ceisio atal neu leihau lefelau uchel o ffosforws rhag cyrraedd ein dyfrffyrdd o dir fferm neu waith trin carthion cyfagos drwy weithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid. Mae'r rhain yn cynnwys sefydliadau fel rheoleiddwyr, cwmnïau dŵr, clybiau pysgota a thirfeddianwyr.

Gwelliannau i leihau blymau algaidd gwyrddlas a mathau eraill yn y dŵr.

Ymdrin â gollyngiadau llygrol a draenïau i'n dyfrffyrdd.

Rheoli rhywogaethau planhigion dyfrol estron goresgynnol, fel dail-ceiniog arnofiol a rhedyn y dŵr.

Creu a rheoli cronfeydd planhigion dyfrol 'yn y sianel', gan gynnwys gosod 'llenni silt' neu 'ymylon planhigion llinol' ar-lein, gan ddefnyddio geodecstilau crog neu ar stanciau, i wella ansawdd y dŵr yn lleol a lleihau unrhyw darfu ar gynefinoedd. Gall y manau hyn fod yn fanteisiol iawn i infertebratau dyfrol hefyd.

Gwella cysylltedd a chynefin. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, plannu ar gyfer amrywiaeth yn yr ymylon cyrs a'r glannau sydd eisoes yn bodoli, gan ddefnyddio rhywogaethau lleol brodorol, plannu llystyfiant dyfrol a gosod gwelyau cyrs neu nnysoedd cyrs. Mae'r holl welliannau hyn yn gwella ansawdd y dŵr hefyd.

Creu ac adfer glannau camlas naturiol. Gall hyn gynnwys cyflwyno ac adfer cynefin glan afon da drwy ddefnyddio glannau pridd meddal ac ymylon cyrs neu atgyweirio muriau dyfrffordd carreg sy'n cynnwys cilfachau sy'n addas i'n cimwch yr afon brodorol ac infertebratau dyfrol.

Carthu i waredu silt, gan leihau faint o waddod sydd yn y dŵr a fydd fel arall yn cael ei gynhyrfu gan lif y dŵr, cychod sy'n pasio heibio a gweithgareddau eraill (ail-grog). Gall gwaddodion crog gael effaith drwy gysgodi a thagu infertebratau dyfrol a'r cynefinoedd y maent yn dibynnu arnynt, gan gynnwys graean yr afon a phlanhigion dyfrol.

Pysgod

Mae amrywiaeth enfawr o bysgod yn byw yn nyfnderoedd ein rhwydwaith dyfrffyrdd, ac maen nhw'n rhan hollbwysig o fioamrywiaeth y dyfrffyrdd. Mae camlesi gwledig a threfol yn gartref i boblogaethau pysgod bras, gan gynnwys y merfog, y draenogyn dŵr croyw, y rhufell a'r sgreten. Cynefinoedd lle mae yna llystyfiant ar yr ymylon a rhai coed glan y dŵr yw'r un perffaith ar gyfer amrywiaeth eang o rywogaethau pysgod. Mae pysgod llai cyffredin, fel y penlletwad, y wrachen bigog, y grothell a'r llysywen yn gallu byw yn ein dyfrffyrdd hefyd. Mae poblogaethau salmonid ffyniannus, gan gynnwys brithyll ac eog, yn byw mewn rhai camlesi ac afonydd. Mae dyfroedd tawelach yr ymylon a'r sianeli llonydd yn gartref i bysgod cwbl wahanol, gan gynnwys rhywogaethau fel y dars, y pysgodyn rhudd a'r barfogyn. Rydym yn cynnal amrywiaeth o weithgareddau i reoli a gwarchod ein poblogaethau pysgod a'u cynefinoedd.

Prif bwyntiau

- Mae amrywiaeth eang o bysgod yn byw yn ein dyfrffyrdd trefol a gwledig
- Mae cynefinoedd yn cael eu gwella mewn sawl ffordd er budd poblogaethau pysgod
- Mae'r gwaith hwn yn cynnwys gwella cynefinoedd, carthu, rheoli rhywogaethau estron goresgynnol, a gwarchod rhywogaethau prin



Penhwyad Hawlfraint Jack Perks



Merfog

Pysgod yn ein dyfrffyrdd

Mae camlesi mordwyol yn gartref i rywogaethau pysgod bras sy'n gallu byw mewn dŵr llawn gwaddodion, a'r mwyaf cyffredin o'r pysgod hyn yw'r rhufell, y llyfrothen dŵr croyw, y merfog, y pysgodyn rhudd, y sgreten a'r draenogyn dŵr croyw. Yn ogystal â'r rhywogaethau sy'n fawr eu bri ymysg pysgotwyr, mae'r dyfrffyrdd yn gartref i lawer o rywogaethau pysgod eraill hefyd. Mae rhai, fel y pilcodyn neu'r grothell, yn adnabyddus ond yn llai cyffredin. Mae eraill yn brin, neu hyd yn oed yn cael eu gwarchod, gan ychwanegu at werth bioamrywiaeth y bysgodfa. Mae rhywogaethau arbennig o'r fath yn cynnwys yr herlyn, y wangen, y wrachen bigog a'r lamprai. Mae'r pysgod hyn yn byw mewn dyfrffyrdd penodol yn unig, ac yn aml maen nhw'n gyfyngedig i ddŵr ag amodau penodol, fel afonydd, aberoedd a sianelau afon a chamlas cyfunol. Rhywogaeth arall sydd o dan fygythiad yw'r penlletwad; mae'r pysgod bach hwn yn tueddu i fyw mewn dyfroedd glanach, caregog ac yn ymyl gwaith brics ar lociau camlesi.



Y draenogyn dŵr croyw

Un o'r pysgod mwyaf diddorol yn ein dyfrffyrdd yw'r llysywen Ewropeidd sydd dan fygythiad. Mae cylchred bywyd llyswennod yn hynod ddi-ddorol. Maen nhw'n cael eu silio fel larfau ym Môr Sargasso ger Bermuda, cyn teithio gyda Llif y Gwlff i Ewrop, ac yna'n datblygu i fod yn llyswennod ifanc tryloyw bach iawn o'r enw llyswennod gwydr. Ar ôl cyrraedd ardaloedd arfordirol, maen nhw'n mudo i fyny afonydd a nentydd. Fodd bynnag, maen nhw'n wynebu sawl rhwystr wrth iddynt ddatblygu a mudo i'r dyfroedd i fyny'r afon. Mae coredau yn ei gwneud yn anodd i'r llyswennod ifanc gwblhau'r daith oni bai ein bod yn gallu gosod manau arbennig a diogel iddynt osgoi'r coredau. Mae'n well gan llyswennod ddyfroedd tywyll gyda digon o silt a llaid yn y gwaelod; mae llyswennod mawr sy'n pwysu hyd at 9lb wedi'u dal mewn agorfeydd lociau yn ystod gwaith atgyweirio lociau ar ein camlesi. Yna, mae llyswennod aeddfed, rhwng 8 a 18 oed, yn nofio yn ôl dros Fôr yr Iwerydd i Fôr Sargasso er mwyn silio. Gallant fyw tan eu bod yn 100 mlwydd oed.



Gellir dod o hyd i llyswennod Ewropeidd yn ein dyfrffyrdd

Mae rhai pysgod estron yn gallu effeithio ar fioamrywiaeth ein dyfrffyrdd. Un enghraifft amlwg yw'r draenog cernog. Pysgodyn sy'n frodorol i gyfandir Ewrop yw'r draenog cernog, ond fe'i cyflwynwyd i rai o gamlesi canolbarth Lloegr yn y 1970au, gan ledi'n gyflym i lawer o ardaloedd eraill wedyn. Mae'r draenog cernog yn hoffi bwyta pysgod bach a chanolig, ac mae'n gallu ffynnu mewn dyfroedd mwldlyd a chamlesi mordwyol. Mae llawer o boblogaethau o bysgod brodorol wedi dioddef yn enbyd mewn camlesi cymylog lle mae'r draenog cernog wedi'i gyflwyno'n anghyfreithlon oherwydd arferion bwydo ymosodol yr ysglyfaethwr hwn. Nid oes sicrwydd eto a fydd poblogaethau o rywogaethau pysgod fel y gwyniad byth yn cael eu hadfer yn llawn. Mae gwaith electrobysgota a rhwydi sân i waredu'r draenog cernog yn ddrud ac yn llafurddwys, ac nid ydynt wedi bod yn gwbl lwyddiannus yn rheoli'r rhywogaeth oresgynnol hon.

Rheoli pysgodfeydd

Mae nifer o ffactorau yn effeithio ar boblogaethau o bysgod yn ein dyfrffyrdd. Mae effeithiau llygredd a newidiadau eraill i'w cynefin yn gallu cael effaith wael ar bysgod. Er enghraifft, gall gormod o waddodion fgyu wyau pysgod a gall graean mewn manau claddu wyau leihau lefelau golau, gan ladd planhigion dyfrol. Mae planhigion estron yn ymledu'n gyflym, gan rwystro planhigion tanddwr rhag cael golau ac yn lleihau ansawdd cynefinoedd ar gyfer pysgod a bywyd dyfrol arall. Mae pysgod estron yn gallu bwyta gormod o llystyfiant, tarfu ar wely'r ddyfrffordd ac achosi anghydwysedd rhwng ysglyfaethwyr a'u hysglyfaeth. Mewn rhai dyfrffyrdd, gall coredau atal pysgod rhag symud yn rhydd yn y system.

Rydym yn rhoi amrywiaeth o gamau rheoli ar waith i helpu i atal neu wrthweithio'r effeithiau hyn, gan gynnwys gwaith carthu i waredu silt, creu manau diogel fel bod pysgod yn gallu mudo i fyny'r afon, rheoli rhywogaethau estron goresgynnol, ac achub pysgod yn dilyn digwyddiadau llygredd. Mae llawer o welliannau cyffredinol i gynefinoedd yn gymorth i bysgod hefyd - mae ymylon llawn llystyfiant mewn sianeli a glannau dyfrffordd meddal yn helpu i ddarparu cynefinoedd bridio a silio, ac mae llystyfiant bargodol yn darparu lloches i bysgod llawn dwf. Mae'r broses o achub pysgod pan fydd camlesi'n cael eu draenio ar gyfer gwaith cynnal a chadw yn elfen arall o reoli pysgodfeydd. Os oes rhywogaethau prin yn byw yn y ddyfrffordd, mae'n bosibl y bydd angen cynlluniau rheoli arbennig.



Mae'r draenog cernog estron yn achosi problemau i'n poblogaethau pysgod brodorol



Mae glan afon amrywiol gyda llystyfiant bargodol a dyfrol yn gynefin da i bysgod



Achub pysgod cyn ymgymryd â gwaith cynnal a chadw ar y gamlas



Teils ar gyfer llyswennod sydd newydd eu gosod ar gored. Ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau, bydd y dŵr yn rhedeg i lawr y teils a bydd y llyswennod yn gallu gwrthio eu ffordd i fyny Hawlfraint Asiantaeth yr Amgylchedd

Gwneud gwahaniaeth: 17


Llwybrau i llyswennod ac ynysoedd arnofiol

Mae pob math o bysgod gwahanol yn byw yn ein dyfrffyrdd ac rydym yn eu cynorthwyo i ffynnu mewn sawl ffordd wahanol. Un o'n pysgod arbennig yw'r llyswen. Mae llyswennod ifanc a llyswennod aeddfed yn byw yng ngwaelodion mwdlyd ein hafonydd a'n camlesi, lle maen nhw'n chwilota am fwyd gyda'r nos, gan fwyta anifeiliaid, pysgod ac infertebratau sydd wedi marw neu sy'n marw. Mae strwythurau mordwyo a rheoli dŵr, fel lociau a choredau, yn gallu achosi rhwystrau i llyswennod sy'n mudo. Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi dechrau gosod llwybrau ar gyfer llyswennod ger sawl un o'r manau rhwystro hyn. Mae'n rhaid i bob llwybr ar gyfer llyswennod fod yn addas i'r safle dan sylw, ac mae'n bosib y bydd y cynlluniau'n amrywio. Gallant amrywio o diwbiau dur cul gyda gwely pigog y mae llyswennod yn mynd trwyddynt, i deils pwrpasol ar gyfer llyswennod. Mae'r rhain yn edrych yn debyg i flychau wyau dau ddwsin, gyda bylchau i'r llyswennod wasgu eu ffordd i fyny.

Rydym yn helpu ein pysgod mewn ffyrdd eraill hefyd. Er enghraifft, er mwyn helpu i leihau blymau algaid a darparu bwyd a chysgod ar gyfer pysgod, rydym wedi gosod rafftiau cyrs arnofiol ar rai o'n cronfeydd dŵr. Mae peli gwreiddiau'r rafftiau arnofiol hyn yn hongian yn y dŵr, gan helpu swoplancton i dyfu, sy'n ffynhonnell bwyd ddefnyddiol ar gyfer pysgod. Hefyd, mae'r rafftiau'n darparu hafan ddiogel yn erbyn ysglyfaethwyr, ac yn cynnig cysgod ar ddiwrnodau poeth a heulog.

Uchafbwyntiau

- Mae pysgod a llyswennod yn ffynnu yn ein dyfrffyrdd gwledig a threfol
- Mae llyswennod yn teithio dros 5,000 km i gyrraedd ein dyfrffyrdd, lle rydym yn ceisio eu helpu i fudo drwy osod llwybrau ar gyfer llyswennod a physgod
- Mae ynysoedd cyrs arnofiol yn darparu cynefinoedd a ffynonellau bwyd rhagorol ar gyfer pysgod ac yn helpu i leihau blymau algaid



Gwyddonydd amgylcheddol ac ecolegydd yn arolygu rafft arnofiol am nythod sy'n gartref i adar ar y pryd cyn i wirfoddolwyr ailblannu cyrs brodorol. Mae'r rafft yn helpu i leihau'r blymau algaid sydd i'w gweld yn y dŵr o'i amgylch



Gweithwyr yn eu dillad gwrth-ddŵr yn llonyddu pysgod iach dros dro er mwyn eu dal a'u symud i ddŵr glân yn yr un gamlas.

Gwneud gwahaniaeth: 18

Gwarchod pysgod rhag llygredd

Mae llygredd dŵr yn broblem fawr sy'n ein hwynebu yn rheolaidd. Mae llygredd yn gallu amrywio o lewyrch olewog bach i ddigwyddiadau diwydiannol mawr, ac mae pob digwyddiad yn gallu cael effaith ar ansawdd dŵr a byd natur. Ar ôl cael gwybod am ddigwyddiad llygredd, rydym yn defnyddio bwmau i geisio atal y llygredd rhag lledu. Gan ddibynnu ar ddifrifoldeb y digwyddiad, gallwn gau'r gamlas hefyd nes bod y llygredd wedi'i waredu. Mae cemegau sy'n llygru'r dŵr yn cael eu glanhau drwy ddefnyddio padiau amsugol neu drwy bwmpio'r dŵr budr i mewn i danc i'w waredu. Rydym yn gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru neu Asiantaeth yr Amgylchedd er mwyn ymateb i ddigwyddiadau mawr. Gallant gynorthwyo'r pysgod drwy roi hydrogen perocsid yn y ddyfrffordd, sy'n cynyddu lefel ocsigen y dŵr dros dro.

Mae pysgod yn gallu marw mewn digwyddiad llygredd difrifol. Mewn sefyllfa o'r fath, rydym yn gofyn am gymorth ein contractwr achub pysgod hynod arbenigol. Mae'r contractwr yn symud unrhyw bysgod sy'n fyw, fel arfer drwy ddull electrobysgota. Mae'r dull hwn yn cynnwys lleihau lefelau'r dŵr, ac wrth i'r gweithwyr gerdded trwy'r dŵr yn eu dillad gwrth-ddŵr, mae'r dŵr o'u blaenau yn derbyn cerrynt trydan isel. Nid yw'r cerrynt trydan isel yn niweidio'r pysgod, ond mae'n eu llonyddu dros dro, gan leihau'r posibilrwydd y bydd y pysgod yn cael eu niweidio wrth gael eu casglu mewn rhwyd a'u symud i ddŵr glân gerllaw. Hefyd, mae'r contractwr yn symud pysgod marw o'r dŵr cyn gynted ag y bo modd.

Uchafbwyntiau

- Rydym yn gorfod ymdrin â phroblemau llygredd dŵr yn rheolaidd
- Rydym yn defnyddio dulliau amrywiol i lanhau llygredd
- Nod gwaith achub pysgod yw symud pysgod o fannau peryglus, fel arfer trwy ddefnyddio proses o'r enw 'electrobysgota'



Asiantaeth yr Amgylchedd yn awyru'r gamlas ar ôl digwyddiad llygredd er mwyn achub y pysgod

Enghreifftiau o'r hyn a wnawn:

Gwarchod pysgod fel llyswennod a'r penletwad a diogelu eu cynefin.

Gwella cysylltedd rhwng cyrsiau dŵr a gwella llwybrau a chynefinoedd pysgod (lle bo modd gwneud hynny'n ymarferol).

Rheoli problem rhywogaethau anifeiliaid estron goresgynol yn lleol.

Gall hyn gynnwys ymdrin â physgod cregyn estron ymledol, megis cimwch afon arwyddol America a chael gwared ar y draenogiaid cernog estron yn ystod gwaith achub pysgod.

Gwella ansawdd y dŵr a lleihau lefelau ffosforws yn ein dyfroedd. Er enghraifft, rydym yn ceisio atal neu leihau lefelau uchel o ffosforws rhag cyrraedd ein dyfrffyrdd o dir fferm neu waith trin carthion cyfagos drwy weithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid. Mae'r rhain yn cynnwys sefydliadau fel rheoleiddwyr, cwmnïau dŵr, clybiau pysgota a thirfeddianwyr.

Rheoli rhywogaethau planhigion dyfrol estron goresgynol, fel dail-ceiniog anofiol a rhedyn y dŵr.

Creu a rheoli cronfeydd planhigion dyfrol 'yn y sianel' a chynefin ymylon cyrs, gan gynnwys gosod 'llenni silt' neu 'gronfeydd' ar-lein eraill, gan ddefnyddio geodecstilau crog neu ar stanciau i wella ansawdd y dŵr yn lleol a lleihau unrhyw darfu ar gynefinoedd, gwella ymylon cyrs, plannu llystyfiant dyfrol a chreu gwelyau cyrs neu ynsoedd cyrs. Mae'r ardaloedd hyn yn fannau bwydo a lloches delfrydol i bysgod, ac yn addas iawn i ddeorfeydd.

Creu ac adfer glannau camlas naturiol. Gall hyn gynnwys cyflwyno ac adfer cynefin glan afon da drwy ddefnyddio glannau pridd meddal a muriau dyfrffordd carreg (gydag chilfachau sy'n addas i infertebratau, deorfeydd a chimwch yr afon brodorol).

Camau i leihau blymau algaid gwyrdilas a rhai eraill yn y dŵr. Mae blymau algaid yn gallu tynnu ocsigen o'r dŵr, yn enwedig dros nos, gan leihau faint o aer sydd ar gael i bysgod.

Ymdrin â gollyngiadau llygrol a draeniau yn ein dyfrffyrdd.

Carthu i waredu silt. Mae hyn yn lleihau faint o waddodion sydd yn y dŵr a fydd fel arall yn cael ei gynhyrfu gan lif y dŵr, cychod sy'n pasio heibio a gweithgareddau eraill (ail-grog). Gall gwaddodion crog gael effaith ar bysgod drwy dagu eu tagellau, mygu a thafu cysgod dros eu cynefin, graean afonydd ac wyau pysgod a thrwy leihau lefelau golau yn y dŵr.

Amffibiaid ac ymlusgiaid

Gall y cyfuniad o dir a dŵr ar ein rhwydweithiau fod yn gynefin perffaith ar gyfer amffibiaid ac ymlusgiaid. Er ein bod yn cysylltu'n brogaod, ein llyffantod a'n madfalod brodorol fel rheol â dŵr, mewn gwirionedd maen nhw i gyd yn anifeiliaid y tir am adegau mawr o'r flwyddyn, ac yn defnyddio'r dyfrffyrdd yn bennaf yn ystod y tymor bridio. Bydd ymlusgiaid, fel nadroedd y gwair, yn hela mewn dŵr neu'n agos i ddŵr, ac maen nhw angen cynefinoedd cysylltiedig i atal eu poblogaethau rhag cael eu hynysu. Mae amffibiaid ac ymlusgiaid yn greaduriaid eiconig sy'n prinhau, oherwydd bod pyllau a chynefinoedd eraill yng nghefn gwlad yn diflannu. Mae'n fanteisiol i'r ddau grŵp gael mynediad i goridorau a chynefinoedd y dyfrffyrdd.

Pwyntiau pwysig


- Mae amffibiaid ac ymlusgiaid yn gwneud defnydd eang o rwydweithiau ein dyfrffyrdd
- Mae cynefinoedd dyfrol a daearol o ansawdd da yn bwysig i'r rhywogaethau hyn
- Gall dyfrffyrdd fod yn goridorau cynefin, sy'n galluogi ymlusgiaid ac amffibiaid i symud a lledaenu



Y Fadfall Ddŵr Gribog
Hawlfraint Saxifraga / Kees Marijnissen



Clystyrau o riff t brogaod



Mae llyffant dafadennog angen cynefin dyfrol a daearol
Hawlfraint Saxifraga / Jan Nijendijk

Amffibiaid

Mae saith rhywogaeth o amffibiaid yn frodorol i Brydain (y fadfall ddŵr gyffredin, y fadfall ddŵr balfog, y fadfall ddŵr gribog, y broga (llyffant melyn), broga'r dŵr, y llyffant dafadennog a llyffant y twyni), ond yn sgil trefoli a cholli cynefinoedd, mae llai o lefydd ar gael i'r anifeiliaid hyn. Mae ein pyllau, ein llynoedd a'n camlesi yn gallu bod yn llefydd pwysig i'r rhywogaethau hyn fyw a bridio. O'r saith rhywogaeth, y broga, y llyffant dafadennog a'r fadfall ddŵr balfog yw'r rhai sy'n cael eu cysylltu'n bennaf â'n dyfrffyrdd. Serch hynny, gan fod y madfallod yn brysur yn y nos ac yn cuddio o dan greigiau a boncyffion yn ystod y dydd, prin y bydd neb yn eu gweld. O'r tair madfall, y fadfall ddŵr gribog yw'r fwyaf a'r fwyaf prin. Mae ganddi ofynion penodol o ran ei chynefin nad ydynt yn gyffredin ar hyd ein dyfrffyrdd, ond mae'r amgylchedd ar gael yn rhai o byllau'n dyfrffyrdd.

Yr amffibiaid mwyaf cyfarwydd ar ein dyfrffyrdd yw'r broga a'r llyffant dafadennog. Mae'r ddau yn bridio ar ymylon y ddyfrffordd, ac yn fwyaf llwyddiannus mewn dyfroedd ochr tawel, pyllau neu ddŵr llydan lle nad oes pysgod. Mae dyfrffyrdd gydag ymylon bas, gorchudd meddal ar y glannau a gwrychoedd yn ddelfrydol ar eu cyfer. Yn y dŵr, mae cymysgedd o blanhigion ar yr ymyl sy'n arnofio ac o dan y dŵr yn eu hamddiffyn nhw, eu hwyau (grifft) a'u penbyliaid rhag y pysgod. Ar y tir, mae glaswelltir garw, gwrychoedd a phrysgwydd yn gynefin da i'r oedolion sy'n chwilio am fwyd sy'n addas i infertebratau, a gaeafgysgu. Mae'r arwyddion mwyaf amlwg o'r rhywogaethau hyn i'w gweld yn ystod y tymor bridio, pan welir eu grifft yn y dŵr: clystyrau o riff brogaod a llyffantod mewn llinynnau.

Mae gan fadfallod gylch bywyd tebyg i frogaod a llyffantod. Maen nhw'n gaeafu yn ystod misoedd yr hirlwm ac yn dychwelyd i'r pyllau bridio yn y gwanwyn. Fel amffibiaid eraill, maen nhw'n byw ar y tir ar adegau o'r flwyddyn ac yn defnyddio pyllau a dyfroedd gan amlaf yn ystod y tymor bridio. Mae madfallod yn gigyswyr ac yn bwyta popeth maen nhw'n ei ddal, o fwydod a malwod y dŵr i infertebratau eraill a phryfed, felly mae rheoli cynefin sy'n annog amrywiaeth o infertebratau yn gymorth i fadfallod hefyd.

Ymlusgiaid

O'r chwe ymlusgiad sydd ar gael ym Mhrydain (madfall y tywod, y fadfall, neidr ddefaid, neidr lefn, neidr y gwair a'r wiber), y rhywogaeth fwyaf tebygol o gael ei gweld ar ein dyfrffyrdd yw neidr y gwair sy'n llwydwyrd. Mae'r creadur llonydd, swil hwn sy'n caru'r haul yn mwynhau torheulo ar lannau glaswelltog yn ystod dyddiau cynnes yr haf. Mae nadroedd y gwair yr un mor gyffyrddus ar dir ac yn y dŵr, ac weithiau fe'u gwelwch yn nofio ar draws y gamlas neu'n torheulo ar y llwybrau tynnu. Eu hoff ysglyfaeth yw pysgod, felly mae'r dyfrffyrdd a'u cynefinoedd yn cynnig digonedd o fwyd iddynt.

Yr ymlusgiad arall a welir amlaf yw'r neidr ddefaid. Nid yw'n neidr nac yn fwydyn mewn gwirionedd. Yn hytrach, madfall ydyw a dyma'r ymlusgiad mwyaf cyffredin ym Mhrydain. Mae angen cynhesrwydd allanol ar bob ymlusgiad i godi tymheredd eu corff a'u bywhau. Mae cynefinoedd cysgodol, gweddol agored gyda llystyfiant amrywiol yn rhoi llefydd gwahanol i'r neidr ddefaid gysgodi neu dorheulo, yn amodol ar y tywydd. Lle bydd ymylon o laswellt garw, fe welwch nadroedd defaid a madfallod yn torheulo ac yn gloddesta ar y pryfed; maen nhw hefyd yn manteisio ar ein hadeiladau fel llefydd sy'n dal yr haul. Mae ymlusgiaid yn gaeafgysgu yn yr hirlwm; naill ai'n unigol neu gyda'i gilydd. Fel rheol, byddan nhw'n dewis safleoedd fel hen dyllau anifeiliaid, boncyffion coed sy'n pydru neu o dan foncyffion sydd wedi cwmpo. Mae angen i'w safle gaeafgysgu fod mewn lle nad oes dŵr yn gorlifo i mewn iddo; yn aml bydd y lleoliad yn gynnes ac yn wynebu tua'r de.

Nid yw ymlusgiaid yn gwasgaru ymhell iawn, felly rhaid i'w gofynion o ran cynefin i gyd fodoli mewn ardal gweddol fach. Mae natur linol ein dyfrffyrdd yn gallu bod yn goridoriau cynefin ardderchog i'r anifeiliaid sensitif hyn, gan gysylltu cymunedau â'i gilydd a'u helpu i ymgartrefu mewn safleoedd newydd. Trwy reoli gwrychoedd, glannau glaswelltog a llwybrau tynnu mewn modd ystyriol, er enghraifft, drwy adael darnau o dir prysg a pheidio â thorri'r llystyfiant yn rhy aml, byddwn yn helpu'r rhywogaethau hyn i ffynnu.



Mae nadroedd y gwair yn nofwyr da
Hawlfraint Saxifraga / Bart Vastenhouw



Gwelir madfallod yn torheulo mewn cilfachau heulog



Mae darnau o dir prysg ar hyd ein dyfrffyrdd yn gynefin perffaith i ymlusgiaid





Neidr y gwair ar goeden uwchben y dŵr



Madfallod bach wedi'u dal dros dro mewn magl pwrpasol, ar gyfer yr arolwg

Gwneud gwahaniaeth: 19


Nadroedd gosgeiddig y gwair

Mae nadroedd y gwair sy'n byw ar lannau ein camlesi yn manteisio ar yr amffibiaid sy'n defnyddio'r dyfrffyrdd, gan gynnwys llyffantod; nadroedd y gwair yw un o'r ysglyfaethwyr prin sy'n llwyddo i drechu'r gwenwyn sydd yng nghroen y llyffant. Pan fo'r tywydd yn boeth, yn aml gwelir nadroedd y gwair yn nofio ar draws y dŵr, mwy na thebyg yn hela am frogaod wrth fynd, ond gall fod yn gyfle i oeri a dianc rhag gwres yr haf.

Trwy newid y drefn o dorri glaswellt a chaniatáu llain eang ar hyd y dyfrffyrdd, bydd hyn yn fanteisiol iawn i'r neidr y gwair swil a'i hoff ysglyfaeth, sef y broga neu'r llyffant melyn. Weithiau gall neidr y gwair ymddangos mewn lle anarferol; os caiff rholiau rhisgl coconyt a ddefnyddir i ddiogelu glannau meddal eu gadael yn yr iard am ychydig amser, bydd nadroedd y gwair yn fynych yn eu defnyddio fel lloches i guddio. Pryd bynnag y byddwn yn gwneud gwaith ar llystyfiant ar lannau'r dyfrffyrdd, byddwn yn aml yn gadael pentyrrau o ganghennau a phrysg ar y lan fel twmpath cynefin. Bydd y pentyrrau hyn o llystyfiant yn gartref i amrywiaeth o bryfed a mamaliaid bach, fel llygod y maes a'r llygod pengrwn coch. Yn ei dro, mae'n darparu helpfan toreithiog i neidr y gwair.

Uchafbwyntiau

- Mae lleiniau glaswelltog eang y dyfrffyrdd o fantais i nadroedd y gwair a'u hysglyfaeth
- Mae pren a thoriadau o'r gwrychoedd wedi eu gadael mewn pentyrrau pwrpasol yn lloches i amffibiaid ac weithiau'n lle priodol i nadroedd y gwair ddodwy eu wyau
- Mae gwella cynefinoedd amffibiaid o fudd i'r ymlusgiaid sy'n eu hysglyfaethau



Tomen fridio ar gyfer nadroedd y gwair a adeiladwyd gan wirfoddolwyr

Gwneud gwahaniaeth: 20

Problemau'r pysgod

Mae gweoedd bwyd yn ein dyfrffyrdd yn gallu bod yn gymhleth ac weithiau mae angen i ni ymyrryd i sicrhau bod y cydbwysedd o ysglyfaethwyr ac ysglyfaeth yn gytbwys, a rhoi help llaw i rai rhywogaethau. Dydy penbyliaid llyffantod ddim at ddant pysgod, a bydd yr oedolion yn mynd ati i ddod o hyd i gynefinoedd lle mae pysgod yn byw. Fodd bynnag, mae rhywogaethau o amffibiaid eraill yn ein dyfrffyrdd yn gwneud eu gorau glas i gadw draw oddi wrth unrhyw bysgod er mwyn osgoi cael eu bwyta. Mae'r fadfall ddŵr gyffredin yn hoff iawn o leiniau llawn chwyn, lle gall y penbyliaid guddio oddi wrth y pysgod. Mae penbyliaid y broga neu'r llyffant melyn yn ysglyfaeth hanfodol hefyd ar gyfer y fadfall ddŵr gribog sy'n rhywogaeth a warchodir.

Un o'r gwelliannau mwyaf buddiol i amffibiaid yw cloddio pyllau newydd a phlannu digonn o blanhigion brodorol ar yr ymylon a cheisio cadw pysgod allan o'r pwll. Pan adferwyd Camlas Maldwyn, darganfuwyd poblogaeth o'r fadfall ddŵr gribog brin ger Crickheath. Trwy greu cyfres o byllau wrth ochr y gamlas, byddwn yn gwarchod y boblogaeth rhag presenoldeb pysgod. Mae'r pyllau hefyd yn gynefin i amrywiaeth eang o fertebratau sy'n ysglyfaeth i'r amffibiaid hefyd.

Uchafbwyntiau

- Mae angen help llaw ar rai rhywogaethau'r dyfrffyrdd i ddianc rhag eu hysglyfaethwyr naturiol
- Gall hyn gynnwys creu cynefinoedd arbennig ar eu cyfer
- Trwy greu pyllau heb bysgod, gallwn roi gwell cyfle i'r fadfall ddŵr gribog oroesi



Creu pyllau ar gamlas Maldwyn i lunio cynefin bridio newydd i'r fadfall ddŵr gribog ar ôl i'r llystyfiant luosogi

Enghreifftiau o'r hyn a wnawn:

Gwarchod poblogaethau amffibiaid ac ymlusgiaid a'u cynefinoedd. Mae'r rhain yn cynnwys y fadfall ddŵr gribog, y neidr ddefaid a'r fadfall.

Gwella cysylltedd cynefinoedd dŵr llinol. Gellir cyflawni hyn fel a ganlyn trwy greu a chynnal a chadw cyflenwad o blanhigion dŵr 'yn y sianel', cyfoethogi'r borderi cyrs ar yr ochrau, plannu llystyfiant dŵr a gosod ynysoedd cyrs.

Rheoli rhywogaethau planhigion dŵr estron goresgynnol fel y dail ceiniog arnofiol a rhedynen y dŵr, sy'n gallu trechu rhywogaethau planhigion brodorol a chreu gormod o gysgod yn y dŵr.

Darparu gwelliannau i ansawdd y dŵr. Mae'r camau'n cynnwys greu a rheoli gwelyau cyrs, ymdrin â gollyngiadau a draenau sy'n llygru ein dyfrffyrdd a gweithio gyda grwpiau yn ein dalgylchoedd i leihau'r dŵr ffo sy'n cynnwys ffosfforws, gwaddodion neu bridd o dir ffermio cyfagos rhag llifo i mewn i byllau, afonydd neu nentydd.

Rheoli rhywogaethau anifeiliaid estron goresgynnol yn lleol. Mae hyn yn cynnwys cael gwared ar bysgod estron fel y draenog cernog wrth reoli'r cyflenwad pysgod, sy'n dasg a gyflawnir i hwyluso gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio'r gamlas. Mae hefyd yn cynnwys rheoli'r stoc bysgod, lle bydd amffibiaid fel y fadfall ddŵr gribog yn bresennol mewn pyllau a chyrrff dŵr eraill.

Addasu dwyster torri glaswellt ar lannau camlesi ac ochrau dyfrffyrdd. Gallwn godi uchder y torri, peidio â thorri mor aml neu beidio â thorri o gwbl (lle bo'n bosibl ac yn ymarferol). Gallwn newid amseriad a chyflymder wrth dorri'r glaswellt, rhag niweidio amffibiaid ac ymlusgiaid.

Cadw glaswelltir garw/prysgdiroedd a rheoli gwrychoedd, er mwyn estyn eu bywyd a gwella'r strwythur er lles bywyd gwyllt.


Ailgylltu cynefinoedd ar y tir trwy blannu gwrychoedd newydd a llenwi bylchau â phlanhigion newydd.

Codi staciau pren neu 'bentyrrau cynefin' a 'gwrychoedd marw'. Ein nod yw aildefnyddio toriadau ar ôl tocio gwrychoedd a gwneud gwaith rheoli coed i greu cynefinoedd newydd fel lloches i infertebratau, ymlusgiaid a mamaliaid bach.

Darparu cyfleoedd i ymlusgiaid ac amffibiaid mewn strwythurau fel pontydd a lociau trwy gynnwys cilfachau priodol.

Gadael coed sydd wedi syrthio neu wedi'u cwmpo yn y fan a'r lle (ar ôl ystyried diogelwch ac ymarferoldeb).

Rheoli rhywogaethau planhigion estron gormesol ar y tir, megis clymog Japan.



Peillwyr

Mae gweld a chlywed cacwn yn hymian o flodyn i flodyn a lliwiau ysblennydd gloynnod byw yn wled i'r llygad ar ddiwrnod o haf. Eto, nid dim ond creu golygfa hyfryd ar hyd ein dyfrffyrdd yw eu gwaith – maen nhw, ynghyd â phryfed eraill, megis gwybed hofran, gwenyn a gwyfynnod - yn cyflawni gwaith hanfodol drwy beillio ein blodau gwyllt a'n ffrwythau, ein llysiau a'n cnydau. Yn anffodus, mae llawer o beillwyr mewn perygl, yn bennaf am fod llai o gynefinoedd blodeuog ar gael ac yn sgil y plaladdwyr a ddefnyddir ar dir fferm. Gall y rhwydwaith dyfrffyrdd, gyda'i lwybrau tynnu, a'r glannau a'r argloddiau sy'n gyfuriog o flodau, a'r cloddiau, y glaswelltir a'r prysgwydd fod yn gynefin porthiant rhagorol, yn ogystal â bod yn llefydd i nythu a bridio, ac yn gymorth i ystod eang o bryfed sy'n bwyta neithdar.

Pwyntiau pwysig

- Mae'n fanteisiol i beillwyr fod mewn cynefinoedd llawn blodau wrth ymyl camlesi a dyfrffyrdd eraill
- Mae cynefinoedd eraill megis gwrychoedd a phorfeydd twmpathog yn darparu cysgod hanfodol ac yn llefydd i fridio a gaeafgysgu.
- Trwy reoli'r cynefinoedd hyn yn gywir, rydyn ni'n helpu'r pryfed hynod bwysig hyn sy'n prinha'u'n gyson





Cacynen

Gofynion peillwyr

Mae peillwyr yn hanfodol ar gyfer cymunedau planhigion brodorol ac ar gyfer cynhyrchu llawer o gnydau amaethyddol. Mae'r pryfed gwyllt Prydeinig sy'n peillio yn cynnwys cacwn, gwybed hofran, amrywiol bryfed eraill, gwyfynnod, gloynnod byw a chwilod, ond eto mae llawer o'r rhain yn prinhaus. Mae'r gwaith peillio a wneir gan bryfed yn y DU yn un o 'wasanaethau'r ecosystem' a ddarperir gan fioamrywiaeth, a chredir bod hyn yn gyfwerth â mwy na £400 miliwn i'r economi bob blwyddyn. Rydym ni'n darparu cynifer o gynefinoedd llawn blodau ar hyd ein dyfrffyrdd â phosibl, er mwyn helpu i annog a chefnogi ein poblogaeth beillio werthfawr.

Yn y DU, mae 25 rhywogaeth o gacwn ac oddeutu 50 rhywogaeth o loynnod byw. Mae hyn yn llawer llai na'r rhywogaethau gwyfynnod sydd tua 2,500! Yn anffodus, mae niferoedd y peillwyr fel cacwn, gloynnod byw a gwyfynnod wedi dirywio yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'r sefyllfa wedi bod yn arbennig o ddrwg i rywogaethau ehangach cefn gwlad, a chredir yn gyffredinol mai'r prinder blodau gwyllt yn y dirwedd yw'r prif ffactor. Credir bod defnyddio plaladdwyr hefyd yn un o'r rhesymau.

Mae gan bryfed sy'n peillio gylchoedd bywyd diddorol ac amrywiol, ond yr hyn sydd ei angen arnynt yn fwy na dim yw blodau. Er enghraifft, mae cacwn yn yfed neithdar ac yn bwyta pail – a dim byd arall. Mae eu cylch bywyd yn dechrau yn y gwanwyn, pan fo brenhines sydd wedi goroesi'r gaeaf yn ymddangos, yn bwydo ar neithdar i adennill ei hegri, yn dewis lle i nythu (gall hyn fod mewn twll yn y ddaear neu dwmpath o borfa) ac yn dodwy wyau. Mae hi'n casglu pail a neithdar o flodau i fwydo ei nythaid gyntaf o larfae, a fydd yn datblygu'n gacwn llawn dwf a fydd yn eu tro'n gofalu am y nythaid nesaf.

Mae gloynnod byw a gwyfynnod angen blodau fel ffynhonnell o neithdar. Mae ganddynt gylch bywyd cymhleth gyda phedwar cyfnod sef wy, lindys, chwiler ac yna'r pryfyn llawn dwf. Mae rhai gloynnod byw yn byw fel oedolion am ychydig ddiwrnodau neu wythnosau yn unig, tra bod rhywogaethau eraill yn byw am fisoedd lawer ac yn gaeafgysgu. Yn ogystal â dod o hyd i flodau i gael neithdar, mae gloynnod byw a gwyfynnod hefyd angen y bwyd cywir ar gyfer eu lindys, ac mae rhywogaethau gwahanol angen bwyd gwahanol. Mae cael cymysgedd o flodau gwyllt brodorol a phrysgwydd a choed yn helpu i ddiwallu eu hanghenion.



Mae porfeydd twmpathog a bonion coed garw yn gallu bod yn lle da i gacwn wneud nyth



Mae'r chwilen hon, sef chwilen y rhos yn beillwyr llai adnabyddus

Rheoli cynefinoedd ar gyfer peillwyr

Mae gan ein dyfrffyrdd amrywiaeth o gynefinoedd gwerthfawr. Maen nhw'n cynnwys glannau blodeuog, gwrychoedd gyda phrysgwydd blodeuog megis y ddraenen wen a phlanhigion sy'n blodeuo ar lan y dŵr fel mintys y dŵr ac erwain. Dylid gadael y glannau a'r argloddiau heb eu torri yn ystod yr haf i annog planhigion i flodeuo, gan ddarparu neithdar a phail.

Mae'n bwysig annog amrywiaeth o blanhigion oherwydd mae gan beillwyr ofynion gwahanol. Er enghraifft, mae rhywogaethau'r gacynen yn dueddol o fwydo ar amrywiaeth o flodau, gyda chacwn tafod hir a thafod byr ar y cyfan yn bwydo ar flodau dwfn a bas yn eu trefn. Gan fod peillwyr yn hedfan ar wahanol adegau yn ystod y gwanwyn a'r haf, mae'n bwysig cael dilyniant o blanhigion blodeuog drwy'r tymhorau. Mae'r feddyges las, y friallen a'r blodyn llefrith yn rhai o ffefrynnau'r gwanwyn, ac mae ffynonellau neithdar yr haf yn cynnwys meillion, blodau pengaled, mintys y creigiau ac ysgall, tra bod mieri ac iorwg yn ffynonellau pwysig o neithdar i'r pryfed sy'n hedfan yn hwyrach yn y tymor.

Bydd amrywiaeth o blanhigion hefyd yn llesol i beillwyr eraill, megis gloynnod byw a gwyfynnod, gan eu bod angen bwyd i'w lindys yn ogystal â ffynonellau neithdar. Mae gwaelodion gwrychoedd twmpathog, hen goed a glannau glaswelltog yn gynefinoedd gwerthfawr ac yn gallu bod yn lle i'r gacynen nythu. Mae cynefinoedd cysgodol yn hynod o bwysig i beillwyr, felly mae cadw gwrychoedd, prysgwydd ac ymylon coetiroedd yn llygad yr haul mewn cyflwr da yn bwysig a bydd gadael i brysgwydd a choed flodeuo yn helpu i ddarparu amodau delfrydol.



Mae cael digon o bryfed sy'n peillio yn arwain at berllan lewyrchus o ffrwythau



Mae glaswelltir sy'n gyforiog o rywogaethau wrth ochr dyfrffyrdd yn denu amrywiaeth o beillwyr. Mae'r glaswelltir hwn yn cynnwys tegeirian gwenynog, lle mae rhan o'r blodyn yn edrych yn debyg i gacynen!



Mae blodau'r iorwg mewn gwrychoedd yn darparu neithdar pwysig ar ddiwedd yr haf





Gwesty pryfed



Gwirfoddolwyr yn tocio coed aeddfed yn y berllan

Gwneud gwahaniaeth: 21

Adeiladu gwesty i beillwyr

Erbyn hyn, mae cyfle i wenyn, buchod coch cwta a gloynnod byw aros mewn gwesty pum seren, diolch i'r gwestai pryfed sydd wedi cael eu gosod gennym mewn amrywiol leoliadau ar hyd y dyfrffyrdd, gyda chymorth ein gwirfoddolwyr. Mae gwesty pryfed yn ffordd wych o ailgylchu llawer o ddeunyddiau a gaiff eu taflu fel arall, ac mae'n hynod o hawdd i'w adeiladu. Defnyddir sylfaen o baledi pren, y naill ar ben y llall, i greu stac uchel. Wedyn, llenwir pob un o'r lloriau yn y paledi ag unrhyw ddeunydd a all greu lle diogel i bryfed gysgodi. Rydyn ni wedi defnyddio briciau wedi torri, ffyn bambw a cherrig, toriadau rhisgl a dail a changhennau marw, i efelychu'r cynefinoedd mae pryfed yn eu defnyddio'n naturiol. Mae llawer o'r deunyddiau adeiladu wedi'u rhoi i ni gan adwerthwyr deunyddiau adeiladu a chanolfannau garddio, a fyddai fel arall yn eu hanfon i safleoedd tirlenwi.

Mae'r gwesty pryfed yn darparu cysgod sefydlog a diogel rhag y tywydd oer yn y gaeaf ac mae'r cilfachau'n darparu amrywiaeth o leoedd i guddio oddi wrth ysglyfaethwyr neu i hela am ysglyfaeth. Mae poblogaeth iach o bryfed yn hanfodol ar gyfer iechyd y boblogaeth bywyd gwyllt ehangach, ac yn chwarae rôl ganolog ym mhob dim o beillio blodau gwyllt i ddarparu bwyd i adar a mamaliaid bach.

Uchafbwyntiau

- Mae gwesty pryfed yn ffordd wych o achub deunyddiau yn hytrach na'u taflu.
- Gall pobl o bob oed a gallu adeiladu gwesty pryfed
- Bydd amrywiaeth eang o bryfed yn manteisio ar y cysgod mae gwesty pryfed yn ei ddarparu



Gwirfoddolwyr yn adeiladu gwesty pryfed

Gwneud gwahaniaeth: 22

Gellyg, eirin a pheillwyr

Mae perllannau yn nodwedd draddodiadol o dirwedd Prydain ac mae eu presenoldeb ar draws ein dyfrffyrdd wedi dirywio'n raddol. Daeth grŵp cymunedol Green Valleys i'n cynorthwyo ni trwy blannu perllan newydd ar Gamlas Mynwy ac Aberhonddu, ger Aberhonddu. Plannodd y tîm amrywiaeth o rywogaethau lleol o goed ffrwythau, a fydd o fudd i'r gymuned leol wrth iddyn nhw gasglu'r ffrwythau ac ailgysylltu â'u bwyd.

Bob gwanwyn, bydd y coed yn blodeuo, gan ddarparu neithdar cyfoethog ar gyfer amrywiaeth o beillwyr pryfed, o wybed hofran i wenyn a gwenyn meirch. Mae cannoedd o wahanol rywogaethau o wenyn gan gynnwys gwenyn unig, fel y wenynen ddeildorrog sy'n hoffi nythu mewn pren marw, a chacwn sy'n nythu mewn gwrychoedd, ac mae pob un ohonynt yn beillwyr pwysig. Mae'r chwilen bwm yn beillwr pwysig arall, gan ei bod yn dodwy ei wyau mewn pren marw mewn perllannau. Wrth i'r coed aeddfedu, byddant hefyd yn darparu cysgod i fywyd gwyllt arall megis adar ac ystumod, a bydd ffrwythau sydd wedi syrthio o'r coed yn helpu i fwydo anifeiliaid mawr fel moch daear, yn ystod y gaeaf.

Uchafbwyntiau

- Mae perllannau traddodiadol yn nodwedd hanesyddol o'r dirwedd, ond mae eu niferoedd yn gostwng
- Mae'r blodau a'r ffrwythau yn darparu ffynhonnell hanfodol o fwyd i beillwyr a phryfed eraill
- Mae perllannau aeddfed yn cynnal amrywiaeth eang o rywogaethau



Cydweithio â phrosiect cymuned Green Valleys i blannu coed ffrwythau mewn perllan newydd ger Aberhonddu.

Enghreifftiau o'r hyn a wnawn:

Plannu neu hadu i gynyddu'r amrywiaeth leol a brodorol o rywogaethau. Ein nod yw dewis cymysgedd o hadau brodorol yn hytrach na rhywogaethau estron.

Lleihau mynychder torri'r glaswelltir. Gallwn newid pryd rydym ni'n torri, cynyddu uchder y torri a thorri'n llai mynych, er mwyn i blanhigion brodorol fedru blodeuo, bwrw'u hadau a gwasgaru, gyda'r cyfan o fudd i beillwyr.

Torri a chribinio ardaloedd bach a gwaredu toriadau oddi ar dir pori sy'n gyforiog o rywogaethau. Mae hyn yn helpu i wella'r amodau tyfu ar gyfer planhigion brodorol arbennig. Mae hyn yn cael ei wneud gan wirfoddolwyr yn aml.

Creu ac adfer glannau camlesi naturiol. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno a gwella lleiniau cyrs, gyda rhywogaethau o blanhigion lleol brodorol, ac adfer cynefin da ar y glannau.

Plygu perthi i estyn eu bywyd a gwella'r strwythur. Mae llawer o beillwyr yn yfed neithdar o'r perthi, a gall cacwn nythu wrth fôn y berth.

Plannu perthi newydd i estyn neu gysylltu'r cynefinoedd llinol.

Darparu cyfleoedd i beillwyr wrth ymyl neu mewn strwythurau ac adeiladau. Bydd rhai peillwyr yn defnyddio cilfachau a 'gwestai pryfed' ar gyfer nythu.

Gwarchod coed hynafol, aeddfed a gwerthfawr. Gall y rhain ddarparu ffynonellau pwysig o baill, yn enwedig yn y gwanwyn.

Rheoli llystyfiant er mwyn cynyddu gorchudd daear y fflora, ac amrywiaeth y brigdwf a'r isdyfiant. Bydd pob gwaith rheoli ar amrywiaeth y cynefin yn helpu peillwyr a phryfed eraill.

Rheoli rhywogaethau planhigion estron gormesol ar y tir. Efallai y bydd angen rheoli'r rhywogaethau hyn os ydyn nhw'n bygwth y gymuned o blanhigion brodorol.

Adeiladu 'perthi marw' a thasau o bren. Defnyddir y toriadau o'r berth a'r deunydd o waith rheoli coed i ddarparu cysgod i infertebratau a pheillwyr.



Llygod (pengrwn) y dŵr a dyfrgwn

Llygod pengrwn y dŵr a dyfrgwn yw'r anifeiliaid mwyaf eiconig o blith holl famaliaid ein dyfrffyrdd a gall y ddwy rywogaeth ffynnu ar ein rhwydwaith o afonydd a chamlesi. Mae'r dyfrgi hardd a swil yn un o lwyddiannau cadwraeth: dychwelodd o'r dibyn ar ôl degawdau o ddirywiad yn ei niferoedd yn sgil plaladdwyr gwenwynig yn ein dyfrffyrdd, a bellach mae niferoedd y dyfrgwn mewn sefyllfa iach unwaith eto. Nid yw llygod pengrwn y dŵr wedi bod mor ffodus. Yn sgil colli cynefinoedd cyfoethog y glannau a phresenoldeb ysglyfaethus y minc Americanaidd, mae poblogaethau'r anifeiliaid hoffus hyn wedi gostwng yn arw a llygod y dŵr bellach yn olygfa i'w thrysori ar hyd ein dyfrffyrdd. Lle bynnag bo'n bosibl, byddwn yn cynnwys glannau meddal sy'n hafan i'r llygod yn ein gwaith, er mwyn cynyddu'r cynefin sydd ar gael ar ein dyfrffyrdd i'r creadur annwyl hwn.

Pwyntiau pwysig

- Gall y ddau famal carismataidd hyn sydd ar ein dyfrffyrdd ffynnu ar ein rhwydwaith o gamlesi ac afonydd
- Mae ein hymdrechion i warchod llygoden y dŵr yn cynnwys gwella cynefinoedd y glannau
- Mae gweld llygoden y dŵr yn olygfa i'w thrysori ar ein dyfrffyrdd.

Llygoden (pengrwn) y dŵr Hawlfraint Jack Perks



Llygoden y dŵr yn archwilio gwaith adfer yn defnyddio rholiau rhisgl coconyt ar y glannau Hawlfraint Mark Baker Education Vision

Llygoden (bengron) y dŵr

Anfarwolwyd y llygoden hon fel Ratty yn The Wind in the Willows, ac mae llygoden y dŵr â'i chot o ffwr yn gymeriad hoffus ar ein dyfrffyrdd. Ni ddylid drysu rhyngddi a'r llygoden fawr neu'r llygoden Ffrengig, gan ei bod yn un o'n rhywogaethau mwyaf prin. Prin y byddwn yn ei gweld nac yn clywed y sŵn 'plop' wrth iddi daro'r dŵr bellach ar lawer o'n dyfrffyrdd. Bydd llygod y dŵr yn cloddio'n ddwfn i mewn i lannau serth camlesi neu afonydd gan ddefnyddio'u dannedd blaen oren mawr i greu llwybrau cymhleth o dwneli a nythod. Ar y camlesi, nid yw'r rhwydweithiau hyn yn mynd yn llawer pellach na 2 fetr o ymyl y dŵr. Mae presenoldeb llygoden y dŵr yn amlwg os gwelir ardaloedd wedi'u pori'n agos fel lawnt wrth y fynedfa i'r twnnel. Maen nhw'n gadael eu tail, sy'n bentyrrau o beledi brown siâp tic-tacs ar greigiau a gwreiddiau coed ac o dan dwmpathau hesg i nodi ffiniau eu tiriogaeth.

Mae llygoden y dŵr yn treulio'r rhan fwyaf o'i hamser o fewn dau fetr i'w gwâl ac yn tueddu i fyw mewn ardaloedd lle mae llystyfiant trwchus. Mae hyn yn rhoi rhywfaint o ddiogelwch i lygod y dŵr rhag llygaid chwilgar eu hysglyfaethwyr - yn bennaf y minc Americanaidd, sef yr anifail sydd wedi cyfrannu at ddirywiad llygoden y dŵr. Dŵr araf a dwfn fel camlesi, llynnoedd a nentydd sydd orau gan lygoden y dŵr, gan nad oes ganddi draed gweog fel mwyafrif yr anifeiliaid sy'n byw mewn dŵr, ac mae'n nofio'n araf gan ddefnyddio arddull ci.

Rydym wedi bod yn gweithio i dynnu sylw at sefyllfa enbyd llygoden y dŵr ac yn ceisio hybu ei niferoedd ers blynnyddoedd. Pan fo modd, rydym ni'n gosod rholiau rhisgl coconyt ac yn plannu ar hyd glannau camlesi. Mae'r rholiau'n atal erydu ac ar yr un pryd yn darparu bwyd a chysgod i'r anifeiliaid. Plannir ffagodau cyll ac ynysoedd arnofio gan ddefnyddio llystyfiant sy'n hoffi'r dŵr ac maen nhw'n ddelfrydol i lygod y dŵr fwydo a nythu ynddynt. Trwy ehangu ei gynefinoedd a chyfoethogi ei ffynonellau bwyd, ein gobaith yw trawsnewid dyfodol yr anifail prin hwn.



Mae llygoden y dŵr angen llystyfiant toreithiog ar y glannau. Yma, gallwch weld tail llygoden y dŵr ar greigiau ar lan camlas



Codi ymwybyddiaeth o brinder llygoden y dŵr ar fyrddau gwybodaeth.

Dyfrgwn

Yn ystod y blynnyddoedd diwethaf, mae hoffter y creadur ac ymdrechion cadwraeth ymroddedig wedi helpu i drawsnewid dyfodol y dyfrgi. Gyda'i gorff lluniaidd hir, ei fodiau gweog a'i ffwr gwrth-ddŵr, mae'r anifail dŵr rhagorol hwn yn ffynnu mewn llynnoedd, nentydd, afonydd a chamlesi glân, ac mewn ardaloedd arfordirol ac ynysoedd alltraeth. Mae dyfrgwn yn rhywogaeth ddangosol – oherwydd eu bod ar ben uchaf y gadwyn fwyd, maen nhw'n rhoi darlun da o iechyd cyffredinol amgylchedd y dyfrffyrdd. Er eu bod ar y cyfan yn greaduriaid swil y nos, mae mwy a mwy yn eu gweld yn y dydd wrth i'w niferoedd gynyddu.

Mae'n well gan ddyfrgwn gyrsiau dŵr tawel, gyda digon o llystyfiant trwchus neu ardaloedd coediog lle gallant orffwys a'u defnyddio fel gwâl i fridio. Mae camlesi cyfochrog i afonydd yn ddelfrydol, gan fod ardaloedd coediog a phrysgwydd tawel yn aml rhyngddynt. Gall tiriogaeth y dyfrgi fod yn eang iawn, hyd at 40 km o gyrsiau dŵr, gyda maint ei ardal grwydro yn dibynnu ar y bwyd a'r lloches sydd ar gael. Mae llawer o ddiel dyfrgwn yn cynnwys pysgod (amffibiaid, cimwch yr afon a mamaliaid bach), felly mae stoc dda o bysgod yn gymorth i'r dyfrgwn. Mae ymdrechion cadwraeth yn parhau i ganolbwyntio ar annog adferiad naturiol poblogaethau trwy wella ac estyn ardaloedd o gynefin dyfrffyrdd addas.



Dyfrgi'n bwyta pysgodyn Hawlfraint Saxifraga / Mark Zekhuis



Rholiau rhisgl coconyt yn barod i'w gosod, ar gyfer ailadeiladu lleiniau cyrs. Maen nhw'n gynefin i bysgod ac felly i ddyfrgwn hefyd.





Llain o gyrs trwchus sy'n gyfoeth o rywogaethau ar ôl adfer y lan

Gwneud gwahaniaeth: 23

Glannau gweddus i lygoden y dŵr

Mae'r gwaith a wnawn i warchod ein llygod y dŵr a rheoli eu cartrefi ar y glannau yn bwysicach nag erioed. Er enghraifft, rydym ni'n helpu llygod y dŵr ar ein dyfrffyrdd trwy addasu'r drefn o dorri glaswellt lle bo modd, gan roi cysgod a bwyd angenrheidiol iddynt i oroesi hirwm y gaeaf. Mae ein hecolegwyr a'n peirianwyr wedi datblygu amrywiaeth o dechnegau sy'n datrys erydiad ar y glannau a phroblemau gollwng, gan warchod ac atgyweirio cynefinoedd llygoden y dŵr sy'n gwaethygu. Er enghraifft, rydym ni wedi torri tir newydd gyda thechneg i atgyweirio glannau camlesi sy'n gollwng trwy ddefnyddio deunydd geotecstil o'r enw Nicospan. Caiff y deunydd ei osod ar bolion o dan y dŵr i ailadeiladu a gwarchod y lan, a galluogi llygod y dŵr a bywyd gwylt arall fel amffibiaid i fynd a dod i'w cynefinoedd naturiol uwchben ac o dan y dŵr.

Yn ddiweddar gwelwyd cynnydd mewn achosion difrifol o lifogydd. Gall lefelau dŵr uchel mewn afonydd olchi i ffwrdd gynefinoedd llygod y dŵr a lleiniau cyrs, a gall grym y dŵr ddadleoli llygod y dŵr a'u gadael yn agored i ysglyfaethwyr neu i ragor o straeu amgylcheddol. Yn sgil peirianwaith anhygoel ein camlesi, fodd bynnag, yn aml mae lefelau'r dŵr yn amrywio llawer llai nag ar rai o'n dyfrffyrdd eraill a'n hafonydd. Gall y nodwedd hon sy'n perthyn i gamlesi fod yn bwysig dros ben o ran helpu i greu amgylchedd cymharol sefydlog i lygod y dŵr fel y gallant barhau i oroesi ar hyd glannau o lystyfiant.

Uchafbwyntiau:

- Mae creu a gwarchod cynefin i lygod y dŵr ar hyd y dyfrffyrdd yn rhan fawr o'n gwaith
- Mae ein hecolegwyr a'n peirianwyr wedi datblygu cynlluniau i atgyweirio camlesi sy'n cynnwys lleiniau cyrs a glannau sy'n atyniadol i lygod y dŵr
- Gall camlesi ddarparu lefelau dŵr mwy sefydlog nag afonydd yn ystod llifogydd, gan helpu llygod y dŵr i oroesi



Ecolegydd yn cydweithio â thîm adeiladu Glandŵr Cymru i osod Nicospan o dan y dŵr



Tail dyfrgi

Gwneud gwahaniaeth: 24

Dyfrgwn ar ein dyfrffyrdd

Mae dyfrgwn yn dibynnu ar ecosystemau iach a dŵr glân, sy'n bethau y gellir eu difetha gan lygredd ac wrth golli cynefinoedd. Mae Glandŵr Cymru wedi bod yn gweithio'n galed i wella ansawdd dŵr trwy fynd i'r afael â draeniau sydd wedi datgysylltu, gollyngiadau llygrol a thrwy lanhau achosion o lygredd wrth iddyn nhw ddigwydd. Hefyd, rydym wedi bod yn gosod lleiniau cyrs a chynefinoedd ar yr ymylon trwy rai o'n tirweddau caled. Mae'r rhain yn cynyddu'r ardaloedd i bysgod fwrw'u sil ac i feithrinfeydd pysgod, ac yn gwella'r cyfleoedd i ddyfrgwn gael bwyd, lloches a chynefin hefyd. Mae'r ymylon gwyrdd yn gymorth i ddal a dadelfennu unrhyw lygrwyr hefyd.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio i leddfu rhai o'r bygythiadau eraill mae dyfrgwn yn eu hwynebu. Er mwyn helpu i osgoi'r angen i ddyfrgwn groesi pontydd a ffyrdd prysur, mae silffoedd wedi'u cynllunio'n benodol ar gyfer dyfrgwn, sy'n eu galluogi i groesi o dan y priffyrdd. Pan fo pobl yn ymgynghori â ni ynghylch datblygiadau newydd, byddwn yn gofyn iddynt osod goleuadau sensitif ar goridau tywyll. Bygythiad arall i ddyfrgwn yw'r defnydd anghyfreithlon o drapiau cimychiaid yr afon yn ein dyfrffyrdd, sydd weithiau'n dal dyfrgwn yn ddamweiniol, ac yn achosi iddyn nhw fodd. Mae adferiad y dyfrgi wedi peri gofid ymhlith rhai o'r cymunedau pysgota a genweirio, gan eu bod yn poeni bod dyfrgwn yn cystadlu am y pysgod. Dan yr amgylchiadau hyn, rydym ni'n rhoi cyngor ymarferol ar ddulliau y gallant eu defnyddio i amddiffyn eu pysgodfeydd.

Uchafbwyntiau

- Rydym ni'n helpu dyfrgwn trwy warchod ac adsefydlu ansawdd dŵr, i adfer yr ecosystem ddyfrol
- Rydym ni'n gwaredu rhwystrau i ddyfrgwn megis ffyrdd, trwy ddarparu silffoedd
- Rydym ni'n cydweithio â'r cymunedau pysgota a genweirio i roi cyngor ar ddyfrgwn



Dyfrgi'n cysgodi mewn ffordd osgoi cored ar y gamlas

Enghreifftiau o'r hyn a wnawn:

Gwarchod poblogaethau cyfredol llygod y dŵr a'r dyfrgwn a'u cynefinoedd.

Creu ac adfer glannau naturiol camlesi. Gall hyn gynnwys gwella ac ailadeiladu glannau meddal, ailblannu cynefinoedd y glannau a ffensio glannau a ddefnyddir gan wartheg.

Cynnwys atgyweiriadau meddal (glannau pridd) a gwyrdd (lleiniau cyrs a glannau glaswelltog) a chynllunio glannau. Byddwn yn gwneud hyn lle bo modd a lle bo'n bosibl, yn hytrach na defnyddio ochrau caled megis concrit a stanciau dur. Gellir gwneud y gwaith hwn wrth drwsio tyllau sy'n gollwng, ail-leinio'r sianelau a gwaith tebyg.

Rheoli'n lleol y broblem o rywogaethau o anifeiliaid estron goresgynol mewn partneriaeth â rhanddeiliaid. Gall hyn gynnwys y minc Americanaidd.

Rheoli rhywogaethau o blanhigion dyfrol estron goresgynol, fel y dail-ceiniog arnofiol a rhedynen y dŵr.

Gwella ansawdd y dŵr. Er enghraifft, atal neu leihau lefelau ffosforws uchel rhag mynd i mewn i'n dyfrffyrdd o dir fferm neu waith trin carthion gan weithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill megis rheoleiddwyr, cwmnïau dŵr, clybiau pysgota a thirfeddianwyr.

Creu a rheoli cronfeydd planhigion dyfrol 'yn y sianel', gan gynnwys gosod 'llenni silt' neu 'ymylon planhigion llinol' ar-lein, gan ddefnyddio geodecstilau crog neu ar stanciau.

Gwella cysylltedd cynefinoedd. Rydym ni'n gwneud hyn trwy estyn cynefin lleiniau cyrs ymylol llinol ar hyd dwy ochr neu o leiaf un ochr o'n camlesi a'n dyfrffyrdd

Ymdrin â gollyngiadau llygrol a draeniau i'n dyfrffyrdd.

Addasu amseru a dwyster torri porfa ar lannau'r camlesi ac ymylon ein dyfrffyrdd. Lle bo gennym lygod y dŵr, ein nod yw gadael llystyfiant yn gysgod gydol y gaeaf. Gallwn godi uchder y torri, peidio â thorri mor aml neu beidio â thorri o gwbl (lle bo'n bosibl ac yn ymarferol).

Newidiadau i gamau rheoli llystyfiant eraill, gan gynnwys rheoli prysgwydd. Lle bo'n bosibl, ein nod yw gwella cynefinoedd, bwyd a chysgod yn enwedig yn ystod y tymor bridio a gydol y gaeaf.

Plannu neu hadu i gynyddu'r amrywiaeth o rywogaethau brodorol lleol.

Rheoli rhywogaethau o blanhigion estron goresgynol ar y tir.



Ystlumod

Gan mai anifail y nos yw'r ystlum, nid ydym yn tueddu i'w weld mor aml â rhai o anifeiliaid eraill y dyfrffyrdd, ond mae dyfrffyrdd yn gynefin pwysig i lawer o wahanol ystlumod. Mae sianelau a dyfroedd agored a'r coed, y caeau a'r coetiroedd sy'n ffinio â nhw yn denu toreth o bryfed i ystlumod gael bwydo arnynt ac mae ystlumod yn defnyddio adeiladau fel pontydd a thwneli fel lleoedd diogel i glwydo a gaeafgysgu ynddynt. Er mwyn eu gwarchod, mae angen diogelu eu manau clwydo a'u manau gaeafgysgu, a gofalu am y cynefinoedd lle mae ystlumod yn hela am eu bwyd ac yn teithio trwyddynt. Mae ein dyfrffyrdd yn cynnal nythfeydd pwysig o'r anifeiliaid deallus a chymdeithasol hyn ac mae hyn yn bwysig o gofio bod eu niferoedd yn prinhau.

Prif bwyntiau

- Mae llawer o rywogaethau ystlumod yn prinhau ar lefel genedlaethol
- Mae dyfrffyrdd yn gartref i gyfoeth o bryfed i ystlumod gael bwydo arnynt ac yn darparu manau clwydo a gaeafgysgu mewn coed ac adeiladau
- Mae gwarchod a chynnal cynefinoedd ystlumod yn rhan bwysig iawn o'n gwaith cadwraeth

Delwedd thermol o ystlumod yn hela dros gamlas wrth iddi fachlud. Os edrychwch chi yn ofalus, fe welwch chi ddyfrgi yn y cefndir (llinell lachar y pen a rhan ucha'r corff uwchlaw'r dŵr).

Hawlfraint artNucleus



Mae dyfrffyrdd â choed yn tyfu ar eu hymyl yn berffaith ar gyfer ystlumod

Coridorau dyfrffyrdd

Mae dŵr croyw'n bwysig i bob rhywogaeth o ystlum. Mae ystlumod yn yfed o wyneb y dŵr ac mae llawer ohonyn nhw'n hela pryfed sy'n ymddangos o'r dŵr ar ôl eu cyfnod fel larfau - pryfed fel pryfed pric, jac y baglau, gwybed a mosgitos. Fel yr awgryma'r enw, mae cysylltiad amlwg rhwng ystlumod y dŵr â dyfrffyrdd - maen nhw'n defnyddio'u traed mawr i ddal pryfed oddi ar wyneb y dŵr ac yn defnyddio pontydd ac adeiladau eraill fel manau clwydo. Trwy ddarparu amrywiaeth o gynffonod yng nghyffiniau dŵr agored, byddwch yn helpu ystlumod trwy ddenu pryfed fel gwyfynod. Mae lleiniau glaswelltog, prysgwydd, tyfiant sy'n pwysu dros y dŵr a llystyfiant y glannau yn cynnig amodau ardderchog ar gyfer pryfed a'r ystlumod sy'n eu hela. Mae coetiroedd ger dyfrffyrdd yn arbennig o werthfawr gan y bydd yr ystlumod yn eu defnyddio i glwydo ac yn ymweld â'r dŵr i fwydo.

Mae dyfrffyrdd yn bwysig hefyd gan eu bod yn goridorau trwy'r dirwedd, yn cysylltu manau bwydo fel cyrff dŵr eraill a manau clwydo fel coetiroedd. Mae cynefinoedd llinol fel perthi a llinellau o goed ger cyrsiau dŵr yn neilltuol o bwysig i ystlumod. Bydd ystlumod yn dilyn y nodweddion hyn yn y dirwedd gan eu bod yn eu cysgodu nhw a'u prae rhag y gwynt ac yn eu cuddio rhag anifeiliaid rheibus fel adar ysglyfaethus a thylluanod. Gall llinellau o berthi a choed fod yn bwysig hefyd yn y tymor magu, pan fydd ystlumod benyw'n teithio rhwng y manau hela a'r manau magu sawl gwaith bob nos.



Ystlum lleiaf soprano Hawlfraint Jim Mullholland



Mae perthi tal a llinellau o goed yn denu gwyfynod, un o brif fwydydd yr ystlum. Mae'r gwyfyn cynffon gwennol yn bwydo ar amrywiaeth o lwyni'r perthi. Hawlfraint Rob Wolton / Hedgelink



Clwydo a gaeafgysgu

Yn ogystal â chynnig manau bwydo i ystlumod, gall dyfrffyrdd gynnig manau clwydo a gaeafgysgu. Mae ystlumod ar eu prysuraf rhwng mis Mawrth a mis Hydref ac yn ystod y misoedd hyn, mae angen lleoedd diogel arnyd nhw i glwydo yn ystod y dydd. Bydd coed aeddfed, yn enwedig coed deri, ynn, ffawydd a helyg, sy'n tyfu ar lan y dyfrffyrdd, yn fyw o gilfachau a holltau ac yn berffaith ar gyfer clwydo. Ond gall coed ifanc, estron, llai gynnig manau clwydo i ystlumod hefyd ac ni ddylem eu diystyru. Gan fod manau clwydo naturiol fel hyn yn prin, mae adeiladau'n tyfu'n fwyfwy pwysig. Gall unrhyw fath o adeilad gael ei ddefnyddio ond mae twneli, pontydd ac ochrau isaf dyfrbontydd yn arbennig o boblogaidd. Un arwydd bod ystlumod yn y cyffiniau yw'r tail welch chi o dan bontydd a dyfrbontydd. Mae'r tail yn debyg o ran maint i dail llygod, ac fel arfer mae'n sych a briwsionllyd. Gall ystlum hedfan nifer o gilomedrau o'u clwydfannau dydd (mewn twneli, pontydd a choed) bob nos i hela'u tamaid.

Prin iawn y gwelwch chi ystlumod yn y gaeaf. Maen nhw'n tueddu i ddewis manau oer tawel i aeafgysgu ynddyn nhw. Mae adeiladau mawr, lle mae'r tymheredd yn weddol gyson, yn aml yn cael eu dewis i aeafgysgu ac fe welwch ystlumod yn gaeafgysgu yn rhai o'n twneli. Gallwn greu manau clwydo trwy addasu rhai o'n hadeiladau, gan osod 'brics ystlumod' mewn pontydd, twneli a dyfrbontydd a 'gril ystlumod' sy'n gadael i ystlumod fynd i gytiau lociau, odynnau calch a byncars tra'n cadw pobl allan. Yn ôl y gyfraith, rhaid peidio ag amharu ar glwydfan ystlumod a rhaid osgoi tarfu ar ystlumod wrth wneud gwaith cynnal a chadw ar adeiladau trwy weithio arnynt pan nad yw'r ystlumod yn eu defnyddio.




Grŵp o ystlumod y dŵr yn clwydo



Bricsen ystlumod



Gril ystlumod ar gwt loc sy'n gadael ystlumod i mewn ond yn cadw pobl allan



Ystlum pedol lleiaf yn clwydo Hawlfraint Daniel Hargreaves



Ystlum Natterer

Gwneud gwahaniaeth: 25

Ystlumod mewn odynnau calch

Un o ystlumod lleiaf Prydain yw'r ystlum pedol lleiaf. Hwn hefyd yw un o'r prinnaf. Yn 2013, aeth yr Ymddiriedolaeth ati, gydag arian oddi wrth Brosiect y Bannau - Bro'r Ystlum Ymddiriedolaeth Natur Vincent (sy'n derbyn nawdd Ymddiriedolaeth Bannau Brycheiniog a Chronfa Dreftadaeth y Loteri), i addasu hen odynnau calch o'r 19eg ganrif ar lan Camlas Mynwy ac Aberhonddu yn Aberhonddu, er mwyn denu ystlumod pedol lleiaf.

Mae Camlas Mynwy ac Aberhonddu yn gynefin bwydo a theithio pwysig i ystlumod. Mae ystlumod pedol lleiaf wedi cael eu gweld mewn sawl adeilad cefn gwlad lleol, ond roedd yr adeiladau hyn yn aml yn cael eu defnyddio neu'n cael eu bygwth gan ddatblygiad. Roedd odynnau calch yn bwysig iawn yn hanes diwydiannol Cymru trwy'r 1800au i gynhyrchu calch at ddibenion amaethyddol ac adeiladu. Ar gyfer y prosiect hwn, cafodd odyn ei haddasu'n arbennig gyda drws wedi'i inswleiddio i'w chadw'n oer, gan roi lle diogel i ystlumod dreulio'r gaeaf. Mae'r safle'n cael ei fonitro'n rheolaidd a gwelwyd ystlumod yn ymgartrefu ynddo o fewn wythnosau ar ôl gwneud y gwaith. Mae'r odyn wedi bod yn cael ei defnyddio'n rheolaidd gan hyd at 7 ystlum pedol lleiaf ac un ystlum lleiaf soprano.

Uchafbwyntiau

- Ystlumod pedol lleiaf yw un o ystlumod prinnaf Prydain
- Mae adeiladau yng nghefn gwlad sy'n cael eu defnyddio gan ystlumod yn aml dan fygythiad oherwydd datblygu
- Mae odyn galch wedi'i haddasu'n arbennig yn gartref diogel i ystlumod dros y gaeaf



Y tîm arbenigol yn ystod y gwaith cadwraeth ar Odyn Galch Aberhonddu.

Gwneud gwahaniaeth: 26

Monitro blychau ystlumod gyda gwirfoddolwyr

Dros y ganrif ddiwethaf, mae safleoedd clwydo traddodiadol – ar lannau ein dyfrffyrdd ac mewn coetiroedd gerllaw – wedi cael eu dinistrio. Mae blychau ystlumod yn cynnig lle diogel i ystlumod aeafgysgu ac i gael eu rhai bach. Trwy ddarparu blychau ystlumod, rydych yn helpu i warchod ystlumod. Gall fod yn ffordd dda hefyd o ddod o hyd i ystlumod gan ddarparu adnodd addysgol i'r cyhoedd.

Mae Glandŵr Cymru/Ymddiriedolaeth y Camlesi ac Afonydd wedi bod yn cynnal nifer o gynlluniau monitro blychau ystlumod dros y 10 mlynedd diwethaf, gyda rhyw 30 – 130 o flychau ystlumod yn cael eu gosod ym mhob safle. Rydym yn defnyddio blychau ystlumod Woodcrete gan eu bod nhw'n tueddu i fod ychydig bach yn fwy llwyddiannus na mathau eraill, yn amddiffyn yr ystlumod yn well rhag gwiwerod a chnocellod, ac yn wytnach. Mae blychau ystlumod yn cael eu clystyru'n grwpiau o ddeg ac maen nhw'n fwy llwyddiannus os ydyn nhw'n cael eu rhoi wrth ymyl llwybrau cerdded ac yn agos i ddŵr.

Gellir monitro blychau ystlumod fel digwyddiad hyfforddi gan greu cyfle unigryw i bobl ddysgu mwy am ystlumod o dan ofal gweithiwr ystlumod trwyddedig. Dyma gyfle delfrydol i gael cip manwl ar ystlumod ac i helpu pobl sy'n ceisio ennill eu trwydded ystlumod. Ceir data gwerthfawr am rywogaethau'r ystlumod sy'n defnyddio'r blychau a ph'un a ydynt yn defnyddio'r blychau i glwydo, i baru neu i fagu rhai bach.

Uchafbwyntiau

- Mae nifer o rywogaethau o ystlumod yn manteisio ar flychau ystlumod, gan gynnwys yr ystlum Bechstein prin
- Mae blychau ystlumod yn cynnig cyfle i bobl ddysgu am ystlumod a sut i'w gwarchod
- Rydym yn dysgu mwy a mwy sut a pham mae ystlumod yn defnyddio blychau ystlumod



Ecolegydd yn gosod blwch ystlumod, gyda help gwirfoddolwyr

Enghreifftiau o'r hyn a wnawn:

Gwarchod ystumod a'u cynefinoedd. Ymhlith yr ystumod a welwch ar hyd ein dyfrffyrdd y mae'r ystum lleiaf, ystum y dŵr a'r ystum pedol mwyaf. Mae'r gyfraith yn gwarchod pob ystum.

Gwarchod a chreu cyfleoedd i ystumod glwydo mewn adeiladau fel pontydd, lociau a dyfrbontydd. Gall hyn gynnwys gosod brics ystumod neu flychau ystumod a chreu cilfachau addas ar gyfer ystumod, yn enwedig ystumod y dŵr.

Gwella a chysylltu coridorau cynefinoedd. Yn cynnwys lleiniau o gyrs, perthi, gwrychoedd, caeau pori a phrysgwydd.

Addasu'r drefn torri glaswelltir ar y glannau ac ymylon camlesi a dyfrffyrdd. Gallwn wneud hyn trwy adael i'r glaswellt dyfu'n hirach, peidio â thorri'r glaswellt mor aml neu hyd yn oed peidio â thorri'r glaswellt o gwbl (lle bo hynny'n bosib ac yn ymarferol).

Rheoli gwrychoedd er mwyn estyn eu hoes, gan wella eu strwythur a'u cysylltu â chynefinoedd eraill. Mae creffttau traddodiadol fel plygu a bondocio gwrychoedd yn ein helpu i wneud hyn.

Plannu gwrychoedd newydd i estyn neu gysylltu'r cynefin llinol â'r dirwedd ehangach. Bydd hyn yn helpu i wella coridorau o gynefin lle gall ystumod hela'u bwyd.

Plannu a chynnal coed yn y gwrychoedd. Gan greu lleoedd i ystumod glwydo a denu'r pryfed y mae ystumod yn bwydo arnynt.

Gwarchod coed hynafol, aeddfed a gwerthfawr. Mae'r coed hyn yn cynnig lle da i ystumod glwydo.

Gadael i goed marw sefyll, cyhyd â'u bod yn ddiogel.

Adeiladu tasau o brysg a phren er lles infertebratau y gall ystumod fwydo arnynt.



Adar

Adar y dyfrffyrdd yw rhai o greaduriaid amlycaf a mwyaf poblogaidd ein dyfrffyrdd. Mae elyrch, hwyaid, ieir dŵr a chwtieir yn hawdd eu gweld o lwybr y gamlas. Ond mae llawer o adar eraill i'w gweld hefyd ar hyd y dyfrffyrdd sy'n defnyddio'r amrywiaeth eang o gynefinoedd a geir yno - yr ymylon cyrs, y tiroedd pori, y perthi a'r lleiniau o goetir a phrysgwydd. Mae llawer o'n cronfeydd yn safleoedd gaeafu pwysig i hwyaid a gwyddau ac mae'r adar yn aml yn defnyddio ein hadeiladu fel manau i nythu. Rhwng popeth, mae'r dyfrffyrdd yn gartref i amrywiaeth fawr o adar preswyl, magu a gaeafu.

Prif bwyntiau

- Mae ein dyfrffyrdd yn gartref i amrywiaeth gyfoethog o adar
- Gall camlesi, cronfeydd, perthi ac adeiladau gynnig lleoedd nythu a bwydo i adar
- Rydym ni'n rheoli'n cynefinoedd er mwyn denu mwy o amrywiaeth o adar ac yn cynnal prosiectau arbennig i helpu rhai adar.



Hwyaden a'i chywion



Mae ieir dŵr yn adar cyfarwydd ar ein dyfrffyrdd

Adar y dŵr


Hwyaid gwyllt ac elyrch dof yw rhai o'r adar mwyaf cyfarwydd a phoblogaidd ar ein dyfrffyrdd. Maen nhw'n gyffredin ar ddyfroedd y wlad a'r dref ac yn barod iawn i rannu eu byd â phobl a chychod. Adar cyffredin eraill yw'r iar ddŵr a'r gwtiar sy'n rhannu cynefinoedd tebyg, gan ffafrio dŵr bas, llonydd neu araf ei lif, fel cronfeydd, camlesi, pyllau a llynnoedd. Maen nhw'n aml yn magu ar ochr bella'r gamlas neu wrth ymyl sianelau tawel. Aderyn hawdd iawn ei adnabod sy'n byw ar ein dyfrffyrdd yw'r crëyr glas (y crychydd) ac fe'i gwelwch yn sefyll yn stond wrth aros am bysgodyn i nofio o fewn cyrraedd ei ddagr o big neu wrth gamu'n osgeiddig trwy'r dŵr bas yn chwilio am fwyd. Mae crehyrod fel arfer yn bridio mewn coetiroedd ger y dŵr, gan adeiladu eu nythod ar ben coed. Aderyn arbennig arall y dyfrffyrdd yw glas y dorlan. Byddwch yn aml yn clywed ei chwiban fain cyn gweld y fellten o las llachar wrth iddo hedfan o'i glwyd.

Yn ogystal â'r adar sy'n treulio'r flwyddyn gyfan gyda ni, mae'n dyfrffyrdd yn denu amrywiaeth o adar mudol yn eu tymor, naill ai yn y gaeaf i gysgodi rhag tywydd mawr neu yn yr haf i fagu. Mae rhydyddion, yn arbennig, yn hawdd eu gweld wrth iddynt fudo. Gall rhydyddion ar eu taith lanio unrhyw lle lle cewch ymylon lleidiog, fel camlesi, afonydd neu gronfeydd. Er enghraifft, efallai y gwelwch bibydd y dorlan wrth afon neu gamlas. Mae hwn yn codi a gostwng ei ben yn ddi-stop wrth iddo hela am ei fwyd. Fe welwch bibyddion coesgoch wrth afonydd a chamlesi hefyd - eu coesau coch yw eu nodwedd fwyaf arbennig wrth gwrs.

Mae llawer o'n cronfeydd yn safleoedd pwysig iawn i adar y dŵr ac fe welwch amrywiaeth o adar preswyl a mudol, gan gynnwys gwyachod bach a mawr, copog, hwyaid pengoch, hwyaid copog a morwenoliaid cyffredin.



Crëyr glas



Hwyaden gopog



Adar eraill

Yn ogystal â chael eu denu i'n camlesi, afonydd a chronfeydd, mae perthi, glannau a choetiroedd ein dyfrffyrdd a'r prysgwydd sy'n tyfu ar drychiadau ac argloddiau yn cynnig amrywiaeth o fannau nythu deniadol. Bydd adar yn defnyddio ymylon y ddyfrffordd i gael eu bwyd a'u diod. Bydd porfa dwmpathog a gweirgloddiau'n denu pryfed peillio a llawer o bryfed eraill, sef prif fwyd y cywion yn y gwanwyn. Mae'n rhwydwaith o berthi a chloddiau'n hafan hollbwysig i adar fel y bras melyn, aderyn sy'n prinhaus oherwydd dulliau ffermio dwys.

Mae gennym adar mwy hefyd: fe welwch gudyllod, tylluanod gwyn, bwncathod (bodaod) a gweilch glas ar hyd dyfrffyrdd sydd ag ymylon o goed neu brysgwydd ac ymhlith yr adar mudol a welwch yn yr haf y mae'r tingoch, crec yr eithin a'r gwybedog mannog. Mae'r ymylon o gyrs a gwelyau cyrs yn gynefin hynod werthfawr i adar fel bras y cyrs, telor y cyrs a thelor yr hesg.

Mae adar yn gallu gwneud eu cartrefi ar ein hadeiladau hefyd. Mae gwenoliaid a gwenoliaid y bondo yn adeiladu eu nythod o dan bondoeau ein tai a bydd bronwen y dŵr yn nythu o dan fwâu pontydd a dyfrbontydd. Mae adar a'u nythod, ar ddŵr ac ar dir, yn cael eu hamddiffyn gan y gyfraith trwy gydol y tymor magu, felly os oes gennych gwaith rheoli i'w wneud, rhaid ichi ei amseru'n iawn rhag aflonyddu ar adar yn eu nythod.

Mae dyfrffyrdd yn denu amrywiaeth fawr o adar. Bydd anghenion pob un yn wahanol, ond fe fydd angen bwyd arnynt drwy'r flwyddyn a lle i nythu a magu cywion. Rydyn ni'n eu helpu trwy reoli'n cynefinoedd mewn ffyrdd sy'n cyfoethogi'r fflora a'r ffawna, a hynny er lles ein holl adar. Gellir helpu rhywogaethau unigol trwy brosiectau arbennig, fel gosod blychau nythu ar gyfer tylluanod gwyn a rafftiau nythu ar gyfer morwenoliaid.



Mae'r bras melyn yn prinhaus. Mae perthi a'r cloddiau'n gynefin gwerthfawr iddo




Telor y cyrs



Mae bondoeau a gwagleoedd mewn toeon yn llefydd nythu da



Siglen llwyd Hawlfraint Stephen Shutt



Alarch dof

Gwneud gwahaniaeth: 27

Blychau nythu ar gyfer bronwennod y dŵr a siglennod

Mae bronwennod y dŵr a siglennod llwyd yn aml i'w gweld wrth ffrydiau ac afonydd cyflym sy'n pasio o dan Gamlas Mynwy ac Aberhonddu, er nad ydyn nhw'n mynd ar y gamlas ei hun yn aml. I'r rheini sydd am gymryd hoe ar eu taith i edrych dros un o'n dyfrbontydd niferus, mae'r adar hardd hyn yn creu tipyn o sioe wrth iddynt dwrio o dan greigiau yn y dŵr i chwilio am bryfed.

Mae Glandŵr Cymru yn darparu cynefinoedd nythu mawr eu hangen i helpu i ddiogelu'r adar hyn sy'n gymaint o symbol o'n nentydd cyflym. I'r perwyl hwn, rydym wedi gosod un ar ddeg o flychau nythu o dan ddyfrbontydd Camlas Mynwy ac Aberhonddu, gyda help ein hecolegwyr gwirfoddol. O'r rhain, roedd pump yn brysur ar ddechrau tymor nythu 2017, prin 12 mis ers eu codi. Mae siglennod llwyd yn aml yn nythu ar lifddorau sy'n gweithio ac mae hynny'n gallu creu sefyllfa anodd i'r adar. Felly, mae blychau'n cael eu gosod fel man nythu amgen a diogel ar yr holl lifddorau addas ar hyd y gamlas. Gosodir y cyntaf yn Llangynidr.

Uchafbwyntiau

- Mae bronwennod y dŵr a siglennod llwyd yn adar cyffredin ar afonydd a nentydd cyflym eu llif
- Mae gosod blychau nythu ar gyfer bronwennod y dŵr ar adeiladau'r Ymddiriedolaeth yn creu cynefin nythu diogel ar gyfer yr adar eiconig hyn
- Mae siglennod llwyd yn aml yn nythu ar lifddorau sy'n gweithio; rydyn ni'n cynnig manau nythu eraill mwy diogel iddyn nhw



Gwirfoddolwyr yn gosod blwch nythu ar gyfer bronwennod y dŵr ar ddyfrbont ar Gamlas Mynwy ac Aberhonddu.

Gwneud gwahaniaeth: 28


Rhieni gofalus a'r fellten las

Un o adar mwyaf eiconig y gamlas yw'r alarch dof, sef yr aderyn a welwch ar logo Ymddiriedolaeth y Camlesi ac Afonydd/Glandŵr Cymru. Yn ystod y gwanwyn a'r haf, mae llawer o elyrch yn nythu ar hyd ein dyfrffyrdd, gan roi cyfle i bobl weld teuluoedd o'r adar balch hyn. Mae elyrch yn tueddu i baru am oes ac yn dychwelyd i'r un safle nythu flwyddyn ar ôl blwyddyn, gan weithio'n galed am 2 neu 3 wythnos yn adeiladu eu nythod o'r newydd. Maen nhw'n dodwy 3 – 10 wy, sy'n cymryd pythefnos i ddeor. Mae elyrch yn gallu bod yn eithaf amddiffynnol o'u nythod, o'u hwyau a'u cywion. Er mwyn gwneud yn siŵr bod ymwelwyr â'r gamlas yn gwybod amdanyn nhw, rydym yn codi arwyddion ger nythod elyrch.

Aderyn rhyfeddol arall ein dyfrffyrdd y gallwch ei weld wrth gerdded ar hyd ein camlesi yw glas y dorlan, gyda'i gefn o las llachar a'i fron oren. Er ei fod yn aderyn gweddol gyffredin ar hyd ein dyfrffyrdd, mae angen ychydig o lwc i weld un. Un o gyfrifoldebau'r Ymddiriedolaeth yw torri canghennau coed sy'n estyn dros ein camlesi er mwyn i gychod allu teithio'n rhwydd ac yn hwylus. Ond rydym ni'n gofalu ein bod yn gadael digon o ganghennau ar gyfer gleision y dorlan, fel bod yr adar lliwgar gwarchoddedig hyn yn cael parhau i hela am bysgod a phryfed y dŵr.

Uchafbwyntiau

- Mae elyrch dof a gleision y dorlan yn adar poblogaidd ar hyd ein dyfrffyrdd
- Mae rhoi gwybodaeth i bobl am adar, fel am elyrch sy'n nythu, mewn manau cyhoeddus yn rhan o'n gwaith
- Rydyn ni'n ceisio amddiffyn canghennau gleision y dorlan wrth gynnal a chadw'n dyfrffyrdd



Glas y dorlan

Enghreifftiau o'r hyn a wnawn:

Gwarchod adar a'u cynefinoedd.

Gwella lleiniau o gyrs a chynefinoedd y dŵr. Gwnawn hyn trwy greu a chynnal gwarchodfeydd planhigion dŵr 'yn y sianel', gwella lleiniau o gyrs, plannu llystyfiant y dŵr a chreu gwelyau cyrs neu ynsoedd cyrs. Mae'r rhain yn werthfawr i adar.

Mesurau i leihau blymau algaidd gwyrddlas a mathau eraill yn y dŵr. Bydd y mesurau hyn yn gwneud y dŵr yn gliriach gan helpu adar sy'n hela â'u llygaid.

Plannu neu hadu i roi hwb i amrywiaeth rhywogaethau lleol brodorol ar gyfer bywyd, cysgod a nythod.

Gwella ansawdd y dŵr i ymdrin â gollyngiadau llygrol a draenau i ac o'n dyfrffyrdd.

Amrywio'r trefniadau torri porfa ar lannau ein camlesi a'n dyfrffyrdd. Trwy amrywio uchder y toriad, peidio â thorri mor aml neu beidio â thorri o gwbl (lle bo hynny'n bosibl ac yn ymarferol), gallwn wella cynefinoedd i rywogaethau adar gwarchoddedig ac adar sy'n nythu.

Rheoli rhywogaethau planhigion estron goresgynnol y tir er mwyn creu cynefin mwy amrywiol.

Rheoli'n lleol anifeiliaid estron goresgynnol sy'n creu problemau. Gallai hyn gynnwys anifeiliaid sy'n bwydo ar wyau a chywion, fel y minc Americanaidd, a gall fod angen cydweithio i ddatrys y broblem.

Plygu gwrychoedd er mwyn estyn eu hoes a gwella'u strwythur er lles bywyd gwyllt, gan gynnwys adar sy'n nythu.

Plannu gwrychoedd newydd i estyn neu gysylltu cynefinoedd.

Plannu a chynnal coed mewn gwrychoedd.

Adeiladau 'perthi marw' a thasau o bren. Rydyn ni'n gwneud hyn i greu cynefin ar gyfer infertebratau a bywyd gwyllt arall pan fyddwn yn gweithio i gynnal gwrychoedd a choed.

Cadw a chreu cyfleoedd ar gyfer adar sy'n nythu mewn adeiladau. Mae hyn yn cynnwys gosod blychau nythu ar byst, pontydd, coed, lociau ac adeiladau (fel sy'n briodol ac yn ymarferol).

Gwarchod coed hynafol, aeddfed a gwerthfawr. Mae'r coed hyn yn ychwanegu at y cyflenwad o gynefinoedd bwydo a nythu.

Gadael i goed marw sefyll, cyhyd â'u bod yn ddiogel.

Rheoli llystyfiant er lles rhywogaethau adar penodol. Gan gynnwys, er enghraifft, clirio llystyfiant oddi ar draethau graean o gwmpas llyn chwarel ar gyfer cwtiaid torchog bach sy'n nythu yno.



Dyfrbont Thomas Telford yn cludo camlas Llangollen ar draws dyffryn Ceiriog.

Datblygwyd y llawlyfr hwn gan Glandŵr Cymru (yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd yng Nghymru) mewn cydweithrediad â Ruth Feber yn Uned Ymchwil Cadwraeth Bywyd Gwyllt (WildCRU), Prifysgol Rhydychen. Gyda diolch arbennig i dîm yr Amgylchedd yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd, yn enwedig Oda Dijksterhuis a chydweithwyr o dîm Canolbarth Lloegr, gan gynnwys Laura Mullholland a Robert Coles. Rydym yn ddiolchgar i Lywodraeth Cymru am ariannu'r gwaith hwn, drwy gronfa Buddsoddi Cyfalaf Seilwaith Gwyrdd. Ni ellid bod wedi cyflawni nifer o'r enghreifftiau a ddefnyddir yn y ddogfen hon, sy'n dangos sut rydym yn gwneud gwahaniaeth, heb frwdfrydedd ac ymrwymiad ein gwirfoddolwyr ymroddedig.

Glandŵr Cymru

Y Lanfa, Gofilon, Y Fenni
Sir Fynwy, NP7 9NY

Ff:0303 040 4040

E: customer.services@canalandrivertrust.org.uk

 [@GlandwrCymru](https://twitter.com/GlandwrCymru)

 www.facebook.com/canalrivertrust

Canal & River Trust

First Floor North, Station House, 500 Elder Gate,
Milton Keynes, MK9 1BB

Ff:0303 040 4040

E: customer.services@canalandrivertrust.org.uk

 [@CanalRiverTrust](https://twitter.com/CanalRiverTrust)

 www.facebook.com/canalrivertrust

Mae Glandŵr Cymru yn gwmni elusennol cyfyngedig drwy warant a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr gyda rhif cwmni 7807276 a rhif elusen 1146792.

Mae'r holl wybodaeth yn gywir wrth argraffu.

Llun y Clawr: Glas y Dorlan